

RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL:

7/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

31/01/2018

Rheoli a darparu gwasanaethau ac asedau mewn cyngorau cymuned a thref: Ymchwil gyda'r sector Ionawr 2018

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Rheoli a darparu gwasanaethau ac asedau mewn cyngorau
cymuned a thref: Ymchwil gyda'r sector
Awduron: Jo Coates a Nina Prosser

Coates, J., a Prosser, N., (2018). *Rheoli a darparu gwasanaethau ac asedau mewn cyngorau cymuned a thref: Ymchwil gyda'r sector*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif GSR yr adroddiad 7/2018
Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/management-delivery-services-assets-community-town-councils/?lang=cy>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn
Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Jo Coates

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5540

E-bost: joanne.coates@llyw.cymru

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	5
1. Cyflwyniad	12
2. Adolygiad o lenyddiaeth	15
3. Methodoleg	20
4. Canfyddiadau'r arolwg.....	24
5. Canfyddiadau'r grwpiau ffocws	46
6. Trafodaeth.....	74
7. Casgliadau ac Argymhellion.....	86

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 4.1: Pa wasanaethau ac amwynderau a ddarperir gan eich cyngor ar hyn o bryd? ...	25
Ffigur 4.2: Pa wasanaethau y mae'ch cyngor wedi ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt yn ystod y 12 mis diwethaf?	26
Ffigur 4.3: Pa wasanaethau ychwanegol y mae'ch cyngor yn bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt yn ystod y 12 mis nesaf?	27
Ffigur 4.4: Pa asedau a ddelir gan eich cyngor ar hyn o bryd?	29
Ffigur: 4.5: Cymharu asedau sy'n eiddo i'r cyngorau ac sy'n cael eu prydlesu ganddynt ..	31
Ffigur 4.6: Am ba hyd y mae'r asedau wedi bod yn eiddo i'r cyngorau a chael eu prydlesu ganddynt.....	32
Ffigur 4.7: Pa bwerau y mae'r cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ac amwynderau	34
Ffigur 4.8: Pa ffynonellau cyllid eraill, ac eithrio'r praesept, y mae'r cyngor wedi'u defnyddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac y mae'n eu defnyddio nawr	35
Ffigur 4.9: Beth oedd maint eich incwm ychwanegol yn y flwyddyn ariannol 2015/16, heb gynnwys y praesept	36
Ffigur 4.10: Sawl un o bob un o'r rhain a gyflogir gan eich cyngor neu sy'n gwirfoddoli yn eich cyngor ar hyn o bryd	37
Ffigur 4.11: Faint o weithwyr y cyngor sy'n gweithio amser llawn / rhan-amser (ac eithrio contractwyr a gwirfoddolwyr)?	38
Ffigur 4.12: Am sawl awr yr wythnos y telir clercc eich cyngor?	39
Ffigur 4.13: Pa rai o gyrsiau'r Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol ydych chi wedi'u cwblhau.....	41
Ffigur 4.14: I ba raddau y gwnaeth yr hyfforddiant eich galluogi i wella'r ffordd yr ydych chi a'ch cyngor yn rheoli asedau a/neu wasanaethau?	42
Ffigur 4.15: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn o ran gwaith partneriaeth?	44
Ffigur 4.16: A oes trefniadau ffurfiol ar waith rhwng eich cyngor a'ch awdurdod unedol o ran darparu gwasanaethau a rheoli asedau?	45

Rhestr o'r tablau

Tabl 3.1: Lleoliad a chyfansoddiad y grwpiau ffocws	22
Tabl 4.1: Beth yw'r TAIR prif ddyletswydd yr ydych chi, y clerc, yn eu cyflawni?	40
Tabl 6.1: Pa wasanaethau / amwynderau a ddarperir gan eich cyngor? Cymharu'r ymatebion dros gyfnod	75
Tabl 6.2: Y praeseptau a bennwyd gan gynghorau tref a chymuned, 2013-14 a 2016-17, fesul band	79

Rhestr o'r acronymau

Acronym	Diffiniad
CiLCA	Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol
CLIC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
SLCC	Y Gymdeithas Clercod Llywodraeth Leol

Crynodeb gweithredol

1. A hwythau'n gweithredu fel haen o lywodraeth leol islaw'r awdurdodau unedol, mae cynghorau cymuned a thref yn cynrychioli buddiannau lleol etholwyr ac maent mewn sefyllfa dda i drefnu ac i ddarparu gwasanaethau ac asedau er budd cymunedau. Maent yn gyrrff statudol sy'n cynnwys aelodau etholedig ac, mewn rhai achosion, aelodau cyfetholedig. Mae ganddynt bwerau cyfreithiol i godi praesept gan drethdalwyr, a gallant ennill incwm ychwanegol drwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r asedau y maent yn berchen arnynt neu'n eu prydlesu.
2. Mae cynghorau cymuned a thref yn cydweithio â'u prif awdurdod i bennu cyfrifoldebau'r naill gorff a'r llall o ran trosglwyddo a rheoli asedau, i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac i bennu eu dyletswyddau ariannol a chyfreithiol mewn perthynas â'r cyfrifoldebau hyn. Mae awdurdodau lleol yn gofyn mwyfwy i gynghorau cymuned a thref ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau sy'n amrywiol ac yn arbenigol iawn o ran eu natur a'u cymhlethdod.
3. Yng nghyd-destun diwygio llywodraeth leol, comisiynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol adolygiad o'r sector cynghorau cymuned a thref i ddod i ddeall y cyfrifoldebau y mae'r sector yn eu hysgwyddo a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Pennwyd bwch penodol yn y dystiolaeth o ran deall i ba raddau y mae cynghorau cymuned a thref yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau ac yn mynd ati i'w rheoli.
4. Gofynnodd yr Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol i'r Rhaglen Ymchwil Fewnol (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) ymchwilio i'r gwasanaethau a'r asedau a reolir gan y sector. Roedd yr ymchwil yn ceisio dod i ddeall:
 - pa wasanaethau ac asedau sy'n cael eu rheoli;
 - y ffynonellau cyllid ac incwm sydd gan gynghorau i ddarparu eu gwasanaethau, a natur y gweithlu presennol, gan gynnwys y clerc a'i rôl;
 - hyd a lled ac ansawdd yr hyfforddiant a gafwyd o ran darparu gwasanaethau neu reoli asedau;
 - natur y partneriaethau rhwng cynghorau a sefydliadau eraill;
 - y ffynonellau cymorth y maent yn eu defnyddio.

5. I gyflawni'r ymchwil, anfonwyd arolwg at bob cyngor cymuned a thref, ar-lein a thrwy'r post, a chynhaliwyd chwe grŵp ffocws gyda chynghorwyr a chlercod detholiad o gynghorau. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017. Ymgynghorwyd â'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant ynghylch cwmpas yr ymchwil.

Y prif ganfyddiadau

6. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod nifer y gwasanaethau a ddarperir a'r asedau a reolir wedi cynyddu dros gyfnod. Y canfyddiad mwyaf cyffredin oedd bod cynghorau'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros fwy o gaeau chwarae a mathau eraill o fannau gwyrdd, a'u bod yn tybio y bydd hyn hefyd yn bwysig yn ystod y 12 mis nesaf. Anawsterau o ran rhagweld pryd y bydd ased yn cael ei drosglwyddo a chael gafael ar adnoddau i ymdopi â'r cynnydd yn y llwyth gwaith ar adeg pan fo gwariant cyhoeddus yn lleihau oedd prif bryderon y cynghorau.

7. Mae'r cynghorau'n dweud bod mwy a mwy o ddisgwyl iddynt ymgymryd â gwasanaethau sy'n galw am wybodaeth fwy arbenigol. Yn ogystal ag ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau, mynegodd y cynghorau bryderon am fod cynigion i drosglwyddo gwasanaethau yn aml yn cynnwys gwasanaethau arbenigol, fel canolfannau hamdden neu hyd yn oed wasanaethau cymdeithasol sy'n galw am arbenigedd sylweddol. Roedd y clercod yn enwedig yn teimlo bod hyn yn aml tu hwnt i'w capasiti a'u gallu, a bod yn aml angen llunio strategaethau a chynlluniau busnes hirdymor ar gyfer trosglwyddiadau o'r fath gyda'r prif awdurdod cyn ymrwymo iddynt.

8. Mae'r cynghorau am gael mwy o ddeialog dwy ffordd â'u prif awdurdod ynghylch trosglwyddiadau. Yn aml, mae'r cynghorau'n teimlo nad oes ganddynt ddigon o annibyniaeth i benderfynu ar yr hyn y maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb drosto, ac mai blaenoriaethau'r prif awdurdodau sydd flaenaf. Mae'r broblem hon yn tyfu, er enghraifft, pan fydd cynghorau am ymgymryd â gwasanaethau ac asedau a allai gynhyrchu refeniw, oherwydd bod y prif awdurdodau'n aml yn gyndyn o'u trosglwyddo. O gael mwy o dryloywder o ran yr hyn a drosglwyddir, mae'r cynghorau'n teimlo y byddai'n eu helpu i ddeall blaenoriaethau'r prif awdurdodau ac yn arwain at broses benderfynu fwy adeiladol a allai sicrhau bod y cynghorau'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

9. Mae dros hanner y clercod a holwyd yn gweithio 10 awr yr wythnos neu lai. Tybir bod oriau gwaith cyfyngedig llawer o'r clercod yn cyfrannu at y problemau y mae llawer o'r cynghorau'n eu hwynebu o ran adnoddau. Roedd clercod am iddo gael ei gydnabod bod eu gallu i ymgymryd â chyfrifoldebau cynyddol dros wasanaethau ac

asedau'n gyfyngedig oherwydd eu bod yn gweithio ar sail ran-amser, ac roeddent yn tybio y dylid ystyried hyn fel rhan o'r capasiti pan fydd gwasanaethau ac asedau newydd yn cael eu trosglwyddo.

10. Mae nifer y clercod sy'n cael hyfforddiant wedi cynyddu ychydig, ond roedd rhai o'r farn bod ansawdd a gwerth yr hyfforddiant yn gyfyngedig. Roedd rhai clercod yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarperir gan Un Llais Cymru'n rhy syml ar gyfer eu hanghenion nhw, neu nad yw ei lefel yn briodol er mwyn iddo fod yn ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith. Yn aml, nid ydynt yn cael cyfle i roi'r hyfforddiant ar waith oherwydd nad yw cynlluniau i drosglwyddo ased yn dwyn ffrwyth. Roedd rhai clercod yn teimlo nad oedd y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA), sef y cymhwyster proffesiynol, yn fuddiol iawn, a byddai'n well ganddynt astudio modiwlau arbenigol sy'n addas ar gyfer gofynion eu swydd. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai'n fuddiol cael cynllun mentora ar gyfer clercod newydd i feithrin eu gwybodaeth a'u rhwydweithiau yn y sector â chlercod cynghorau cyfagos.

11. Mae'r data'n dangos cynnydd o ran gwaith partneriaeth. Fodd bynnag, tybir y byddai modd i'r prif awdurdodau wella ansawdd y cyfathrebu a'r cydweithio, ac ystyried barn cynghorau cymuned a thref ynghylch trosglwyddo gwasanaethau ac asedau.

12. Dywedwyd bod angen mwy o ganllawiau ar sut i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau. Roedd y cynghorau'n galw am ganllawiau ar sut i gynnal proses drosglwyddo lwyddiannus, a chanllawiau hwylus ar wahân ar sut i drosglwyddo gwasanaethau ac asedau penodol, a hynny er mwyn pennu prosesau a chyfrifoldebau clir y gall pob parti eu dilyn. Roeddent hefyd yn tybio y byddai'n ddefnyddiol cael esiamplau o achosion lle cafodd gwasanaethau neu asedau cymhleth eu trosglwyddo'n llwyddiannus. Roedd clercod hefyd yn credu bod angen pennu swyddog cyswllt penodedig yn y prif awdurdod i sicrhau bod modd cyfathrebu'n well.

13. Mae nifer y siarteri a'r cytundebau lefel gwasanaeth wedi cynyddu ychydig. Mae'r arfer o hybu siarteri wedi bod yn amlwg yn y sector ers Adroddiad Aberystwyth, a cheir tystiolaeth bod llawer o'r cynghorau wedi llunio cytundebau siarter â'u prif awdurdodau. Fodd bynnag, dywedwyd iddi gymryd peth amser i gytuno ar rai siarteri ac nad yw'r ymlyniad at gytundebau siarter wedi para dros gyfnod.

14. Dangosodd y cynghorau rywfaint o ymwybyddiaeth o'u defnydd o bwerau statudol. Roedd traean o'r cynghorau'n gallu enwi'r pwerau penodol y maent yn eu defnyddio, ac roedd bron i un o bob pump yn gallu datgan eu bod wedi defnyddio pwerau,

ond nid pa rai. Roedd hyn o fudd i'r cyngorau sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau mwy, ond roedd rhai'n teimlo bod eu defnydd o bwerau statudol yn dameidiog ac nad oedd yn dod at ei gilydd ar ffurf strategaeth gydlynus ar gyfer darparu gwasanaethau a rheoli asedau.

15. Ywedodd cyngorwyr a chlercod eu bod am fod yn rhan o'r gwaith o wireddu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn eu cyngor. Un ffordd bosibl o wneud hyn yw drwy gydweithio'n agosach â'r prif awdurdod ar y gwaith y mae'n ei wneud i gydymffurfio â'r Ddeddf. Gallai hyn weithredu fel fframwaith ar gyfer penderfyniadau trosglwyddo.

16. Ae'n amlwg bod rhwydweithiau anffurfiol yn bodoli gyda chynghorau eraill a'u bod yn cael eu hystyried fel rhywbeth cadarnhaol. Yn ôl y grwpiau ffocws, mae rhwydweithiau anffurfiol yn ffordd effeithiol o gael cymorth gan gynghorau cyfagos ac yn gyfle i ymgymryd â gwahanol fathau o waith partneriaeth. Tybir bod y trefniadau clystyru â chynghorau cyfagos yn fenter gadarnhaol o ran darparu gwasanaethau gan eu bod yn darparu arbedion maint da. Fodd bynnag, roedd gwrthwynebiad amlwg i'r posibilrwydd o uno cynghorau'n llwyr, gyda llawer yn teimlo y dylid cadw hunaniaeth cymunedau neilltuol.

17. Mae'r cynghorau'n dal i bryderu ynghylch diffyg dealltwriaeth y cyhoedd o'r sector a'i rôl. Tybir bod ymgysylltu mwy â'r gymuned yn flaenoriaeth bwysig i'r cynghorau i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith ac i ddenu amrywiaeth ehangach o bobl i sefyll mewn etholiadau lleol er mwyn i'r cyngor adlewyrchu'r gymuned yn well. O ddeall y prif faterion yn well, yn enwedig y modd y mae gwasanaethau'n cael eu datganoli a'r modd y mae trethi'n cael eu pennu, gallai gael effaith gadarnhaol ar farn y cyhoedd ynghylch cynghorau cymuned a thref.

18. Mae barn y cynghorau wedi'i hollti o ran manteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hybu mwy o ymgysylltu â'r gymuned. Roedd rhai'n teimlo'n hyderus i ddefnyddio Facebook, Twitter a phlatfformau eraill. Nid oedd eraill yn meddu ar y sgiliau gofynnol neu nid oeddent yn credu bod y cyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol i godi proffil y cyngor. Roedd rhai'n teimlo y byddai'n fuddiol cael hyfforddiant o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol at ddibenion hyrwyddo ac ymgysylltu helaethach i sicrhau bod modd defnyddio'r platfformau mewn ffordd gadarnhaol i gael y budd y mwyaf ohonynt. Gallai hyn fod yn fuddiol o ran dyletswyddau'r cynghorau mewn perthynas â darparu gwasanaethau a rheoli asedau a'u dyletswyddau mwy cyffredinol.

Argymhellion

19. Ar sail y data a gasglwyd drwy'r arolwg a'r grwpiau ffocws, gwneir yr argymhellion a ganlyn.

- 1. O ran y canllawiau presennol ynghylch rheoli gwasanaethau ac asedau, dylid ystyried a oes modd eu gwella, cyfeirio atynt yn well neu eu teilwra'n well i ateb gofynion y sector.** Er bod canllawiau ar gael, mae ein tystiolaeth ni'n awgrymu bod cyfle i sicrhau eu bod yn fwy eglur, i gyfeirio atynt yn well, ac i'w teilwra i gyd-destun penodol y sector. Mae hefyd yn awgrymu y byddai'n arbennig o fuddiol pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar gyfer y cynghorau cymuned a thref a'r prif awdurdodau yn y broses o drosglwyddo asedau. Oherwydd nad yw'n glir o'n tystiolaeth a oes problemau o ran diffyg ymwybyddiaeth ac argaeledd neu broblemau o ran cynnwys y canllawiau eu hunain, byddai'n ddefnyddiol ymchwilio ymhellach i'r mater hwn fel man cychwyn.
- 2. Byddai'n fuddiol adolygu'r prosesau a ddefnyddir gan y prif awdurdodau i gychwyn trafodaethau ynghylch trosglwyddo ased neu wasanaeth i gyfrif yn well am gapasiti'r cynghorau cymuned a thref.** Tynnodd y rheini a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws ym mhob lleoliad sylw at y pwysau y gall ceisiadau ychwanegol ac annisgwyl i drosglwyddo ased neu wasanaeth ei roi ar eu hadnoddau. Awgrymir y dylai pob parti perthnasol gynnal asesiad ar y cyd o hyfywedd pob cais i drosglwyddo ased neu wasanaeth i sicrhau bod modd mynd ati i wneud hynny ar sail cynllun da sy'n dderbyniol i bawb. Byddai hyn yn dangos pa adnoddau ychwanegol a pha wybodaeth arbenigol y bydd eu hangen ar y cynghorau i reoli'r trosglwyddiadau'n effeithiol. Er nad yw'r ymchwil hon yn rhoi darlun digon manwl o'r sefyllfa bresennol, mae cryfder y dystiolaeth a gyflwynir yma'n awgrymu y byddai'n fuddiol pwysu a mesur y materion hyn yn fanylach.
- 3. Byddai modd cael trafodaeth bellach ynghylch y mathau o hyfforddiant a fyddai fwyaf buddiol i gynghorwyr a chlercod a'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r hyfforddiant.** Yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws (yn enwedig ymhlith clercod cynghorau), nodwyd bod perthnasedd y cyrsiau hyfforddi'n amrywio. Er enghraifft, dywedodd rhai clercod y byddai hyfforddiant arbenigol sy'n canolbwyntio ar wasanaeth neu faes arbenigol yn fwy buddiol na chwblhau'r cymhwyster CiLCA. Hefyd, wrth ystyried cyrsiau hyfforddi newydd, mae ein tystiolaeth ni'n awgrymu y byddai'n fuddiol pe bai'r cynnwys yn cydweddu'n well â'r gwasanaethau a'r asedau

mwyaf cyffredin sy'n cael eu trosglwyddo a'u rheoli gan y cynghorau. Mae tystiolaeth o'r ymchwil hon hefyd yn awgrymu bod yr hyder i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn amrywio o gyngor i gyngor, ac mae'r ymatebion yn dangos y gallai fod yn fuddiol darparu rhywfaint o hyfforddiant ynghylch sut i wneud defnydd priodol o'r cyfryngau cymdeithasol i hybu ymgysylltu cymunedol o ansawdd da.

4. Dylai'r sector cyfan ailedrych ar rôl siarteri fel modd o gryfhau'r bartneriaeth â'r prif awdurdodau. Roedd y farn ynghylch effeithiolrwydd y cytundebau siarter presennol yn amrywio, ac mae data'r grwpiau ffocws yn awgrymu bod y brwdfrydedd o ran siarteri wedi edwino dros gyfnod. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r anawsterau ymarferol a gafwyd wrth eu rhoi ar waith, yn ogystal â'r diffyg eglurder o ran perchnogaeth a swyddogaethau'r prif awdurdodau a'r cynghorau cymuned a thref. I'r gwrthwyneb, awgrymwyd bod siarteri'n gallu bod yn ffordd effeithiol o ffurfioli gwaith partneriaeth o dan rai amgylchiadau. Er nad yw'r dystiolaeth yn dweud yn bendant sut y dylid gweithredu o ran siarteri, mae'n rhoi dadl gref dros bwysu a mesur yn fanylach eu rôl a'r defnydd ohonynt.

5. Ymgymryd â rhagor o waith ymchwil gyda'r sector ynghylch y graddau y mae'r cynghorau'n deall ac yn defnyddio pwerau penodol. Ni wnaeth cyfran sylweddol o'r ymatebwyr ateb y cwestiynau ynghylch pwerau, neu ni wnaethant nodi'r pwerau a ddefnyddir ganddynt a sut. Nid yw'r rhesymau am hyn yn glir. O ystyried pwysigrwydd y mater hwn a'r bwlch tystiolaeth sy'n parhau, awgrymir y dylid ymchwilio ymhellach i'r mater neu drafod y mater ymhellach â'r sector.

6. Hwyluso cyfleoedd i'r cynghorau roi ystyriaeth briodol i ddarparu gwasanaethau neu reoli asedau ar y cyd. Er bod ein tystiolaeth yn awgrymu nad oes fawr ddim awydd i uno cynghorau'n llwyr, mae'r syniad o ymrwymo i gytundebau lefel gwasanaeth â chynghorau cyfagos i arbed costau yn cael ei groesawu. Er nad yw'r ymchwil yn awgrymu sut y gellir mynd ati i wneud hyn nac yn dadlau mai cytundebau o'r fath yw'r ffordd ymlaen, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y byddai'n synhwyrol mynd ati yn y lle cyntaf i greu fforwm i gael trafodaeth fanylach ac i bwysu a mesur y goblygiadau.

7. Pwyso a mesur manteision cydgysylltu deunydd cyfathrebu sydd wedi'i deilwra ar gyfer y sector yn ganolog. Dywedodd y rheini a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws fod angen rhannu deunydd cyfathrebu sydd wedi'i deilwra ar gyfer y sector ac sy'n trafod materion sy'n berthnasol i glercod a chynghorwyr yn rheolaidd. Roedd deunydd o'r fath wedi bod o fudd iddynt yn y gorffennol. O bwyso a mesur y ffordd orau o deilwra deunydd cyfathrebu er mwyn ymgysylltu'n rheolaidd â'r sector, gallai osod sylfaen i wella'r gwaith partneriaeth rhwng y cynghorau a'r prif awdurdodau, ac fe allai fod yn ddull o'u cyfeirio at ganllawiau ynghylch rheoli asedau a gwasanaethau, fel y nodir yn argymhelliad 1.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Nod yr ymchwil hwn oedd mynd i'r afael â'r bwlch yn y dystiolaeth o ran trosglwyddo a rheoli gwasanaethau ac asedau, er mwyn ychwanegu at y sail dystiolaeth sy'n bodoli'n barod a chynorthwyo gydag adolygiad o'r sector cynghorau cymuned a thref. A hwythau'n gweithredu fel haen o lywodraeth leol islaw'r awdurdodau unedol, mae cynghorau cymuned a thref yn cynrychioli buddiannau lleol etholwyr ac maent mewn sefyllfa dda i drefnu ac i ddarparu gwasanaethau ac asedau er budd cymunedau. Ceir dros 730 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru ac maent yn cynrychioli 70 y cant o'r boblogaeth. Maent yn gyrrff statudol sy'n cynnwys aelodau etholedig ac, mewn rhai achosion, aelodau cyfetholedig. Mae ganddynt bwerau cyfreithiol i godi praesept¹ gan drethdalwyr, a gallant ennill incwm ychwanegol drwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r asedau y maent yn berchen arnynt neu'n eu prydlesu.
- 1.2 Mae eu prif awdurdod, ynghyd â busnesau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a Llywodraeth Cymru, yn bartner allweddol o ran arfer eu pwerau a'u cyfrifoldebau. Mae cynghorau cymuned a thref yn cydweithio â'u prif awdurdod i bennu cyfrifoldebau'r naill gorff a'r llall o ran trosglwyddo a rheoli asedau, i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac i bennu eu dyletswyddau ariannol a chyfreithiol mewn perthynas â'r cyfrifoldebau hyn. Mae awdurdodau lleol yn gofyn mwyfwy i gynghorau cymuned a thref ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau sy'n amrywiol ac yn arbenigol iawn o ran eu natur a'u cymhlethdod. Y sail resymegol dros wneud hyn yw eu bod yn nes ar y bobl y maent yn eu gwasanaethau a'u bod, o'r herwydd, yn gallu asesu eu hanghenion dros y tymor byr a'r tymor hir yn well.
- 1.3 Roedd y Papur Gwyn: *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad* (2017) yn ymgynghori ar becyn o gynigion a oedd yn cynnwys diwygio cynghorau cymuned a thref, diwygio system etholiadol llywodraeth leol, a diwygio'r prif gynghorau, gan gynnwys cyflwyno trefn newydd o waith rhanbarthol gorfodol a systematig. Cyflwynir Bil Llywodraeth Leol i'r Cynulliad yn ystod 2018 i roi'r cynigion diwygio hyn ar waith. Bwriedir i'r diwygiadau hyn ddarparu'r offer a'r hyblygrwydd y mae llywodraeth leol

¹ Y praesept yw cyfradd y dreth sy'n cael ei osod gan y cyngor cymuned neu dref bob blwyddyn. Mae'n wahanol i'r dreth gyngor, sy'n cael ei osod a'i gasglu gan yr awdurdod lleol.

wedi bod yn galw amdanynt er mwyn iddynt ddod ynghyd i weithio'n wahanol ac yn fwy effeithiol er budd pobl Cymru.

- 1.4 Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r sector cynghorau cymuned a thref, gan bennu enghreifftiau o arferion da i'w rhannu a'r sector o ran strwythur a gweithrediad y cynghorau. Bydd yr adolygiad ar sail tystiolaeth yn pwysu a mesur y modd y mae'r cynghorau'n gweithredu ar hyn o bryd ac yn pennu gwelliannau y gellir eu gwneud i sicrhau bod cynghorau'n fwy cadarn ac uchelgeisiol yn y dyfodol. Bwriedir i'r adolygiad hwn ynghylch darparu gwasanaethau, rheoli asedau, capasiti'r gweithlu a gwaith partneriaeth gyfrannu at yr adolygiad cyffredinol o'r sector.
- 1.5 Er bod nifer o astudiaethau ac adolygiadau wedi cyfrannu'n helaeth at y sylfaen dystiolaeth (gweler yr adolygiad o lenyddiaeth i gael trosolwg ar y dystiolaeth hyd yma), cydnabyddir bod bylchau o hyd o ran yr hyn yr ydym yn ei wybod am y sector. Ym mis Rhagfyr 2015, gofynnodd yr Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol i'r Rhaglen Ymchwil Fewnol (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) gynnal adolygiad o'r sector. I gychwyn, y nod oedd pennu meysydd lle na cheir data am weithrediad y sector, a llunio astudiaeth ymchwil i fynd i'r afael â'r bylchau data i osod sylfaen ar gyfer yr adolygiad o'r sector sydd yn yr arfaeth. Amcan yr astudiaeth hon oedd casglu data newydd am feysydd nad oedd llawer o wybodaeth ar gael yn eu cylch, a chyfuno'r data hyn ag astudiaethau blaenorol i ddarparu trosolwg mwy cynhwysfawr ar y sylfaen dystiolaeth i gael gwell darlun o'r asedau sy'n cael eu rheoli a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.
- 1.6 Ar ôl ymgynghori â'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant, detholiad o randdeiliaid Un Llais Cymru, y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLIC) a'r cynghorau eu hunain, penderfynwyd y dylai'r ymchwil ganolbwyntio ar y blaenoriaethau ar gyfer casglu data. Yng nghyd-destun ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau a rheoli asedau, amcanion yr ymchwil oedd dod i ddeall:
- pa wasanaethau ac asedau sy'n cael eu rheoli;
 - y ffynonellau cyllid ac incwm sydd gan gynghorau i ddarparu eu gwasanaethau, a natur y gweithlu presennol, gan gynnwys y clerics a'i rôl;

- hyd a lled ac ansawdd yr hyfforddiant a gafwyd o ran darparu gwasanaethau neu reoli asedau;
- natur y partneriaethau rhwng cynghorau a sefydliadau eraill;
- y ffynonellau cymorth y maent yn eu defnyddio.

- 1.7 Dywedodd aelodau'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant fod angen deall, cyhyd ag y bo modd, y sefyllfa bresennol o ran rheoli asedau a darparu gwasanaethau ar draws y sector, ac ymchwilio'n fanylach i rai meysydd sy'n ymwneud â gwasanaethau ac asedau, yn enwedig y staff a'r ymrwymadau presennol, y canfyddiadau o ran hyfforddiant, a hyd a lled a natur unrhyw waith partneriaeth. Felly, i gyflawni'r ymchwil, anfonwyd arolwg at bob cyngor cymuned a thref, a chynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws i gasglu data ansoddol drwy gael trafodaeth fanwl am y prif faterion.
- 1.8 Mae'r adroddiad hwn yn rhannu canfyddiadau'r gwaith ymchwil yn ei gyfanrwydd, ac mae'n cyfuno'r canfyddiadau hyn â chanfyddiadau ymchwil flaenorol. Mae'r ail adran yn rhoi crynodeb byr o'r prif waith ymchwil a wnaed ynghylch y sector ers 2003; mae'r drydedd adran yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyflawni'r ymchwil hon; mae adrannau pedwar a phump yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg a'r grwpiau ffocws; mae'r chweched adran yn cyfuno'r ymchwil hon â thystiolaeth a oedd yn bodoli eisoes; ac mae'r seithfed adran yn amlinellu casgliadau'r ymchwil, yn gwneud argymhellion, ac yn awgrymu ymchwil pellach.

2. Adolygiad o lenyddiaeth

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr ar y prif waith ymchwil a wnaed o ran y sector cynghorau cymuned a thref ers datganoli. Mae'n dechrau gyda chrynodeb o'r adolygiad cyntaf o strwythur a gweithrediad cynghorau cymuned a thref gan academyddion o Brifysgol Aberystwyth yn 2003 o dan y teitl *Astudiaeth ymchwil i rôl a swyddogaethau cynghorau cymuned a thref yng Nghymru a'u potensial i'r dyfodol*, 'Adroddiad Aberystwyth' o hyn ymlaen, ac mae'n estyn hyd at heddiw. Yn ogystal â'r crynodeb a geir fan hyn, mae'r tabl yn atodiad C yn cynnwys rhestr o destunau a'r astudiaethau sydd wedi darparu tystiolaeth ar eu cyfer. Ceir dadansoddiad manylach o ganfyddiadau ymchwil flaenorol, a'r berthynas rhyngddynt a chanfyddiadau'r astudiaeth hon, yn adran drafodaeth yr adroddiad hwn.
- 2.2 Comisiynwyd Adroddiad Aberystwyth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gasglu tystiolaeth i lywio penderfyniadau ar strwythur y cynghorau a'u harferion gweithio, y rheoliadau deddfwriaethol ac ariannol a oedd yn rheoli'r arferion hynny, trefniadau cydweithio, a materion sy'n ymwneud â nifer isel yr etholiadau a ymleddir. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymchwilio, gan gynnwys arolwg o'r sector cyfan, astudiaethau achos ar sail detholiad o gynghorau, cyfweiliadau, grwpiau ffocws, seminarau a dadansoddiad o ddogfennau.
- 2.3 Mae'r adroddiad yn pwysleisio gallu cyngor i gynrychioli buddiannau cymuned, ac i fod yn eiriolwr drosti, o ran darparu gwasanaethau ac amwynderau. Mae hefyd yn nodi gallu cynghorau i gynhyrchu incwm ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, ond mae'n nodi bod diffyg adnoddau ac arbenigedd yn aml yn cyfyngu ar y capasiti i wneud hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod cynghorau'n ymgysylltu ag ystod eang o gyrff i gyflawni eu dyletswyddau, yn ychwanegol at eu dyletswydd i ymgysylltu â'r gymuned oherwydd eu statws fel cyrff etholedig. Mae'n trin a thrafod gallu cynghorau, fel cyrff statudol, i gynllunio eu gwaith dros y tymor hir, a'u gallu i godi praesept a'r pwerau y mae hyn yn ei roi iddynt i ailfuddsoddi eu cronfeydd ariannol er budd y gymuned. Yn olaf, mae'r ymchwil yn pwysu a mesur amrywiaeth ymhlith cynghorwyr, rhoi cydnabyddiaeth iddynt am eu gwasanaeth, a'r hyfforddiant sydd ar gael i gynghorwyr a chlercod. Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion i wella'r cymorth sydd ar gael i gynghorau ac i ffurfioli'r trefniadau ar gyfer gwaith partneriaeth, hyfforddiant, ymgysylltu â'r gymuned, a darparu gwasanaethau ac amwynderau.

- 2.4 Mae Adroddiad Aberystwyth yn gosod sylfaen ar gyfer deall statws y sector, ac mae'r ymchwil a wnaed ers hynny wedi canolbwyntio ar faterion penodol er mwyn diweddarau'r wybodaeth am wahanol agweddau ar strwythur a swyddogaeth y cynghorau. Yn 2010, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi i gynnal arolwg pellach i ddiweddarau'r wybodaeth am y sector ac i adeiladu ar y data a gasglwyd yn Adroddiad Aberystwyth. Nod yr Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref (Llywodraeth Cymru, 2010) oedd adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth a dod i ddeall y newidiadau a oedd wedi digwydd yn ystod yr wyth mlynedd ers cyhoeddi Adroddiad Aberystwyth. Drwy gynnal arolwg ymhlith clercod, bu modd dod i wybod mwy am broffil y cynghorau, eu gweithwyr a'u haelodau, ansawdd yr ymgysylltu â'r gymuned, y rhyngweithio â'r awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog, a sgiliau a gallu'r cynghorau.
- 2.5 Roedd yr arolwg yn dangos mai dynion gwyn sy'n perthyn i'r grŵp oedran hynaf oedd aelodau'r cynghorau yn bennaf o hyd (2010: 5), canfyddiadau a oedd wedi para ers Adroddiad Aberystwyth. Tynnodd Adroddiad Aberystwyth sylw at y perygl nad yw cynghorau'n gallu ymgysylltu â'r gymuned na chynrychioli ei buddiannau'n llwyr os nad yw eu haelodaeth yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. O ran ymgysylltu a gwaith partneriaeth, roedd naw o bob deg yn teimlo bod ganddynt berthynas dda â'u cymunedau a dywedodd tri chwarter ohonynt fod ganddynt berthynas dda â'u hawdurdod lleol. Roeddent yn llai cadarnhaol ynghylch eu perthynas â Llywodraeth Cymru, ac roeddent yn teimlo nad oedd cynghorau'n cael digon o amser i ymateb i ymgynghoriadau, ac nad oedd llawer o gyngor ar gael iddynt ynghylch lle i gael gafael ar grantiau a chyllid. Roedd yr arolwg hefyd yn trafod hyfforddi a datblygu. Canfuwyd bod traean o'r cynghorau'n cytuno bod eu cynghorwyr yn mynd ar gyrsiau hyfforddi'n rheolaidd.
- 2.6 I wella'r data am nodweddion demograffig aelodau'r cynghorau, aeth yr Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol (2012) ati i ystyried y rheini a oedd wedi sefyll mewn etholiadau, yn ogystal â'r rheini a gafodd eu hethol. O'r herwydd, roedd y data'n dangos nodweddion y rheini a etholwyd i gynrychioli eu cymunedau yn y pen draw, ond hefyd nodweddion y grŵp ehangach o unigolion a oedd wedi ceisio cymryd rhan mewn democratiaeth leol. Yn yr un modd â chanfyddiadau blaenorol, roedd y prif ganfyddiadau'n dangos bod mwyafrif y cynghorwyr a etholwyd yn ddynion gwyn 60+ oed. Roedd 32 y cant o'r cynghorwyr cymuned a etholwyd yn fenywod, sef cynnydd bach ers ffigurau Adroddiad Aberystwyth yn 2003. Roedd 83 y cant o'r

cynghorwyr cymuned a etholwyd wedi gwasanaethu fel cynghorwyr o'r blaen, sy'n dangos bod ailethol yn ffenomenon gyffredin, ac roedd 44 y cant o'r cynghorwyr a etholwyd wedi ymddeol. Roedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch a oedd cynghorau cymuned a thref yn denu ystod fwy o amrywiol o ymgeiswyr i sicrhau bod amrywiaeth o aelodau'n cael eu hethol, a sut i wella amrywiaeth y rheini sy'n sefyll i gael eu hethol i sicrhau bod cynghorau'n adlewyrchu'r etholwyr lleol.

- 2.7 Bwriedir ailadrodd yr arolwg ymhlith ymgeiswyr yn 2017², a bydd yn ddefnyddiol ystyried y canfyddiadau ochr yn ochr â'r ymchwil hon i gael proffil mwy diweddar o'r ymgeiswyr. Bydd yn darparu data i ddangos a yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n caniatáu i gynrychiolwyr ieuenctid gael eu hethol, wedi cael unrhyw effaith.
- 2.8 Yn 2014, comisiynwyd Michael Woods o Brifysgol Aberystwyth gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o dystiolaeth i ddiweddarau canfyddiadau'r Adroddiad Aberystwyth gwreiddiol (Woods oedd yr awdur) ac i bennu unrhyw newidiadau ers 2003. Roedd yr adolygiad yn cynnwys proffiliau o gynghorwyr ac etholiadau, cyllid a rheoli, darparu gwasanaethau ac amwynderau, ymgysylltu â'r gymuned a gwaith partneriaeth.
- 2.9 Daeth yr adolygiad i nifer o gasgliadau ynghylch amrywiaeth eang o agweddau ar strwythur a gweithrediad cynghorau cymuned a thref. Roedd yn nodi natur gadarn y data am nodweddion demograffig y cynghorwyr a'r rheini a safodd i gael eu hethol. Roedd hefyd yn nodi bod digon o ddata ar gael i ddod i'r casgliad bod aelodau'r cynghorau'n fwy hygyrch i'r etholwyr na'r awdurdodau ar haenau uwch a'u bod yn fwy parod i ymateb i'w hanghenion a'u diddordebau ar y cyfan. Daeth yr astudiaeth hefyd i'r casgliad bod dystiolaeth gref yn awgrymu bod cynghorau'n gallu cyfleu buddiannau lleol i gyrrff allanol yn effeithiol, eu bod mewn sefyllfa dda i hwyluso ac i hybu gweithgarwch ac ymgysylltiad cymunedol, eu bod yn gallu darparu ychwanegedd i'r gwasanaethau a ddarperir gan eu hawdurdod lleol, y byddai'n fuddiol pe bai mwy o bobl yn cymryd rhan mewn etholiadau, eu bod yn aml yn hwyluso sefydlogrwydd ariannol o ran ariannu prosiectau lleol, a bod cymryd rhan

² Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ddata'r arolwg ddod i law ym mis Tachwedd 2017.

mewn cyngorau'n paratoi'r aelodau i gamu ymlaen i haenau llywodraeth uwch, fel yr awdurdod lleol.

- 2.10 Ymhlith y gwendidau a bennwyd o ran strwythur a gweithrediad y cyngorau yn yr adolygiad o dystiolaeth (a oedd yn cynnwys y rheini a bennwyd yn Adroddiad Aberystwyth) roedd y ffaith ei bod yn anodd cyffredinoli ynghylch y sector oherwydd yr amrywiadau mawr o ran maint, lleoliad, cyllideb a gweithgareddau'r cyngorau. Oherwydd nad oes cynllun achredu ar gael ar gyfer cyngorau Cymru, mae hefyd yn anodd gwahaniaethu rhwng cyngorau a'u cyfrifoldebau. Gallai'r cyfyngiadau statudol a'r cyfyngiadau a bennir gan y cyngorau eu hunain ar wariant fod yn cyfyngu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y terfyn ar wariant sy'n rhan o adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a'r pryderon ynghylch yr hyn sy'n ymddangos i'r cyngorau fel trethiant dwbl (trafodir hyn ymhellach yn y bumed adran). O ran cydymffurfiaeth ariannol, canfu'r adolygiad hefyd arwyddion nad oedd rhai cyngorau'n cydymffurfio'n llwyr â'r rhwymedigaeth i baratoi cyfrifon ariannol. Yn yr un modd â'r data blaenorol, nodwyd bod llawer o aelodau'r cyngorau'n cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad ac nad oeddent yn adlewyrchu eu cymunedau'n llwyr. Roedd y dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith cyngorwyr a chlercod yn gallu lleihau effeithiolrwydd cyngorau mewn meysydd fel cynllunio, er bod y camau i ddatblygu'r Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol wedi rhoi sylw i'r mater hwn.
- 2.11 Fodd bynnag, nododd yr adolygiad fod llawer o gamau wedi'u cymryd i gryfhau'r sector. Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn ogystal â'r camau i ddatblygu'r Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol a chanllawiau ar y berthynas rhwng y cyngorau a'r prif awdurdodau, wedi bod yn hollbwysig i gryfhau'r sector. Roedd y dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol wedi chwarae rôl bwysig o ran rhoi'r strategaeth hyfforddiant ar waith a rhannu gwybodaeth drwy eu gwefannau. Roedd yr adolygiad yn tynnu sylw at lawer o ddatblygiadau cadarnhaol, yn ogystal â heriau eraill yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, fel cyfyngiadau o ran ariannu datblygiadau, gwneud mwy o ddefnydd o bwerau deddfwriaethol, a mynd i'r afael â'r brwdfrydedd amrywiol tuag at ehangu rôl y cyngorau, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau.

- 2.12 Wrth ddwyn ynghyd yr holl ymchwili y manylir yn ei gylch yn yr adolygiad hwn, daeth rhai bylchau data penodol i'r amlwg, y bydd angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cyfoethogi'r wybodaeth am y sector. Nodwyd mai un flaenoriaeth ar gyfer yr astudiaeth hon fyddai deall mwy am drosglwyddo a rheoli gwasanaethau ac asedau, fe bod modd diweddarau'r wybodaeth a darparu dealltwriaeth ddyfnach o'r agwedd benodol hon ar waith cyngorau cymuned a thref. Mae'r adran sy'n dilyn yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i fynd ati i wneud yr ymchwili.

3. Methodoleg

- 3.1 Y nod yn y trafodaethau cychwynnol ynghylch ffocws y gwaith oedd darparu trosolwg eang o weithgarwch cynghorau cymuned a thref er mwyn gosod sylfaen ar gyfer adolygiad disgwylledig o'r sector. Y bwriad oedd mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r bylchau data a mynd ati i lunio darlun cynhwysfawr o'r sector fel y mae. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn gynnar y gallai cwrmpas gwaith ymchwil o'r fath fod yn rhy eang i ddod i unrhyw gasgliadau pendant. Ni fyddai ychwaith wedi bod yn bosibl ymgymryd â'r gwaith gyda'r adnoddau a oedd ar gael gan y Rhaglen Ymchwil Fewnol.
- 3.2 Ar ôl trafod ymhellach â chydweithwyr polisi a'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant, bu modd culhau ffocws yr astudiaeth a chanolbwyntio ar ddod i ddeall mwy am wasanaethau ac asedau. Tybiwyd bod y maes hwn yn flaenoriaeth yng ngoleuni disgwyliadau'r prif awdurdodau, yng nghyd-destun cyni cynyddol, y bydd cynghorau cymuned a thref yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros fwy o wasanaethau ac asedau, a'r capasiti sydd ganddynt i wneud hynny dros y tymor hir. Roedd hefyd yn hollbwysig pennu prif bartneriaid y cynghorau o ran darparu gwasanaethau a rheoli asedau, a natur ac effeithiolrwydd eu perthynas waith â'u partneriaid, er mwyn deall pa gymorth y gall fod ei angen ar y cynghorau a'r prif awdurdodau i ddarparu gwasanaethau ac i reoli asedau. O ran perthynas waith y cynghorau ag eraill ac eithrio'r prif awdurdodau, roedd yr ymchwil am bennu'r rheini a oedd yn arbennig o effeithiol, a'r graddau y mae'r cynghorau eisoes yn meithrin ac yn cynnal perthynas â'u hawdurdod lleol ac eraill, lle bo'n berthnasol.
- 3.3 Penderfynwyd defnyddio nifer o ddulliau i gyflawni'r ymchwil, a thybiwyd ei bod yn briodol cynnal archwiliad o gynifer o'r cynghorau â phosibl i gychwyn. Anfonwyd arolwg ar-lein at bob cyngor i gael darlun nodweddiadol o'r sector mewn perthynas â phrif feysydd yr astudiaeth. Ategwyd yr arolwg hwn gan gyfres o grwpiau ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru i roi cyfle i'r ymchwilwyr drin a thrafod materion a oedd yn ymwneud â rheoli asedau a gwasanaethau yn fwy trylwyr.
- 3.4 I godi ymwybyddiaeth o'r ymchwil ar draws y sector cynghorau cymuned a thref, bu'r ymchwilwyr yn rhoi cyflwyniadau ac yn mynychu gweithdai yn y gynhadledd a gynhaliwyd ar y cyd gan Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ym mis Mehefin 2016. Roedd y gweithdai'n gyfle i'r ymchwilwyr ddod i ddeall materion pwysig sy'n codi yn y sector, a chyflwyno pwrpas, cwrmpas ac amserlen yr

astudiaeth. Llwyddodd y cyflwyniad i gymell y cynghorau cymuned a thref a chymuned a oedd yn bresennol i ystyried sut y gallent fod yn rhan o'r ymchwiliad. Ar ôl y gynhadledd, ysgrifennodd yr ymchwiliwyr erthygl ar gyfer cylchlythyr chwarterol y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, *The Clerk*, i dynnu sylw clercod at gyfleoedd i gwblhau'r arolwg ac i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws.

3.5 Cawsom afael ar fanylion cyswllt y cynghorau drwy restr gyfredol y Tîm Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol. Anfonwyd yr arolwg ar-lein a thrwy'r post (ceir copi o'r arolwg yn atodiad A) at bob cyngor yng Nghymru. Roedd yn gofyn cymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig a oedd yn ymwneud â rheoli asedau a gwasanaethau, gan gynnwys ysgwyddo cyfrifoldeb dros fwy o wasanaethau ac asedau, capasiti'r gweithlu, rôl y clerc, a gwaith partneriaeth. Y nod oedd cael trosolwg ar weithgareddau'r cynghorau yn y meysydd hyn a llenwi rhai o'r bylchau yn y sylfaen dystiolaeth. Cynhaliwyd yr arolwg mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, fe'i cynhaliwyd gan ddefnyddio platfform arolygon ar-lein, Questback. Anfonwyd e-bost dwyieithog a oedd yn cynnwys dolenni at wefan Questback at bob cyngor i ofyn iddynt gymryd rhan. Roedd yr e-bost hefyd yn cynnwys dolennau at gopi caled o'r arolwg i'w argraffu a'i lenwi. Roedd y ddolennau hefyd ar gael ar wefan Un Llais Cymru. Anfonwyd copïau o'r arolwg drwy'r post at y rheini heb gyfeiriadau e-bost. Roedd yr arolwg ar-lein a'r arolwg papur ar gael yn ddwyieithog. Roedd yr arolwg ar waith am 10 wythnos rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017 i roi digon o amser i'r cynghorwyr a'r clercod gyfrannu at y gwaith o'i lenwi cyn cychwyn cyfnod yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Cafwyd 254 o ymatebion i gyd, sef cyfradd ymateb o 35 y cant.

3.6 Bwriad y grwpiau ffocws (ceir rhestr o'r cwestiynau a ofynnwyd a'r testunau a drafodwyd yn atodiad B) oedd adeiladu ar yr arolwg a rhoi cyfle i nifer benodol o gynghorau cymuned a thref drafod. Mae grwpiau ffocws yn ffordd ddefnyddiol a chosteffeithiol o glywed barn amryw o unigolion mewn un sesiwn. Gellir eu defnyddio i annog y cyfranogwyr i drafod mater sy'n berthnasol i bob un ohonynt, gan roi cyfle iddynt gymharu eu profiadau a'u safbwyntiau a chael trafodaeth fywiog a thrylwyr am y materion o dan sylw. Yn ystod rhan gyntaf y sesiwn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr rannu eu profiadau o ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau a sut y mae'r broses honno wedi effeithio ar eu perthynas â'r prif awdurdod a phartneriaid eraill. Yn ystod yr ail ran, cafwyd cyfle i drafod y materion hyn ymhellach, yn ogystal â'r cymorth a ddarparwyd gan bartneriaid allweddol, a'r cymorth yr oedd angen iddynt

ei ddarparu, er mwyn darparu gwasanaethau a hwyluso'r broses o'u trosglwyddo. Bu'r grwpiau ffocws yn trafod y mathau o wybodaeth neu gymorth y bydd eu hangen arnynt, a sut y dylid darparu'r cymorth hwnnw er mwyn iddo fod mor effeithiol â phosibl. Roedd yr ymchwilyr hefyd am glywed barn y sector am y rôl y gallai'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant a Llywodraeth Cymru ei chwarae i hwyluso gwaith partneriaeth yn y sector.

3.7 Cynhaliwyd y grwpiau ffocws mewn chwe ardal: dwy yn y de-ddwyrain, ac un yr un yng nghymoedd y de, y gorllewin, y canolbarth a'r gogledd. Dewiswyd amrywiaeth o gynghorau bach a mawr mewn ardaloedd trefol a gwledig i weithredu fel canolfannau i recriwtio ac i hwyluso'r grwpiau ffocws. Gyda chymorth cydweithwyr yn y Tîm Daearyddiaeth a Thechnoleg, bu modd i'r ymchwilyr bennu'r holl gynghorau cymuned a thref o fewn radiws o 20 milltir i'r canolfannau hyn i'w gwahodd i gymryd rhan yn eu sesiwn agosaf. Ar ôl cysylltu â'r cynghorau a fyddai'n gweithredu fel canolfannau a chael cadarnhad bod eu safleoedd ar gael ac yn hygyrch, anfonwyd gwahoddiadau at y clerod a oedd yn rhan o'r rhwydweithiau lleol. Ar ôl hynny, gwnaed galwadau gan y Rhaglen Ymchwil Fewnol i gael gafael ar fanylion cyswllt i ategu'r rhestr o gyfranogwyr a oedd yn seiliedig ar wybodaeth ar wefannau cynghorau, i goladu eu hymatebion, ac i lunio'r rhestrau terfynol o'r cyfranogwyr. Cyhyd ag yr oedd modd, pennwyd dewis iaith y cyfranogwyr ymlaen llaw i fesur y galw am sesiynau Cymraeg a Saesneg. Cynhaliwyd sesiynau Cymraeg a Saesneg yn y gogledd a'r canolbarth.

3.8 Roedd cyfanswm cyfranogwyr pob grŵp ffocws fel a ganlyn:

Tabl 3.1: Lleoliad a chyfansoddiad y grwpiau ffocws

Lleoliad	Nifer y cyfranogwyr a'u rôl	Cyfanswm
Y Gogledd	4 clerc, 2 gynghorydd	6
Y Canolbarth	3 chlerc, 1 cynghorydd	4
Y De-ddwyrain (1)	3 chlerc, 4 cynghorydd, 1 swyddog	8
Y De-ddwyrain (2)	6 chlerc, 3 chynghorydd	9
Y Cymoedd	4 clerc	4
Y Gorllewin	5 clerc, 3 chynghorydd	8

- 3.9 Ar ôl cwblhau'r gwaith maes, aethpwyd ati i gydgrynhoi'r data crai o'r arolwg ar-lein a'r ymatebion drwy'r post ac i drawsgrifio a chodio recordiadau'r grwpiau ffocws gan ddefnyddio'r pecyn meddalwedd dadansoddi ansoddol, MaxQDA.
- 3.10 Rhannwyd canfyddiadau cychwynnol y grwpiau ffocws â swyddogion polisi yn yr Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol ym mis Ebrill 2017 i'w cynorthwyo i drefnu digwyddiad ymgysylltu â'r sector i drafod gwella gwaith partneriaeth rhwng y cynghorau a'u prif awdurdodau³. Rhannwyd canfyddiadau cychwynnol yr arolwg ym mis Mehefin 2017 er mwyn i'r tîm polisi fwydo'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg i'r gwaith o baratoi adolygiad cynhwysfawr o'r sector.
- 3.11 Mae'r adran a ganlyn yn cyflwyno rhai o'r prif ganfyddiadau sy'n deillio o ddata'r arolwg.

³ Cynhaliwyd y symposiwm ar 20 Gorffennaf 2017. Cyflwynodd y Rhaglen Ymchwil Fewnol ei chanfyddiadau cynnar ynghylch gwaith partneriaeth yn y digwyddiad hwn.


4. Canfyddiadau'r arolwg

- 4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu prif ganfyddiadau'r arolwg. Ar ôl cyfrif am ymatebion dyblyg, cyfanswm yr ymatebion oedd 254, sef cyfradd ymateb o 35 y cant o'r holl gynghorau cymuned a thref. Mae'r gyfradd ymateb yn cyfateb i'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl ar gyfer arolwg o'r math hwn. O blith yr ymatebion a ddaeth i law, cafodd 93 y cant eu cwblhau gan glerc, pump y cant gan gynghorydd, ac un y cant gan glerc ac aelod arall o'r cyngor. Caiff y canlyniadau hyn, yn ogystal â chanfyddiadau'r grwpiau ffocws a'r ymchwil flaenorol, eu dehongli yn yr adran drafodaeth.

Darparu gwasanaethau ac amwynderau

- 4.2 O blith y 254 o gynghorau a ymatebodd i'r arolwg, dywedodd 81 y cant eu bod yn darparu gwasanaethau / amwynderau i'r cyhoedd. Mae'r siart bar a ganlyn yn dangos nifer y cynghorau sy'n darparu gwasanaethau penodol.


Ffigur 4.1: Pa wasanaethau ac amwynderau a ddarperir gan eich cyngor ar hyn o bryd?⁴



4.3 Hysbysfyrddau, seddi, a chaeau chwarae, meysydd pentref a mannau gwyrdd eraill oedd y tri gwasanaeth mwyaf cyffredin a ddarperir gan y cynghorau. Ymhlith y gwasanaethau eraill a ddarperir ganddynt, ond nad oeddent wedi'u rhestru yn yr arolwg, roedd ardaloedd chwarae a blodau (y naill a'r llall yn cael eu darparu gan chwe chynghor), yn ogystal â meysydd parcio, gwasanaethau ieuencid a gwasanaethau hamdden, pob un ohonynt yn cael eu darparu gan bum cynghor.

⁴ O ran y cwestiwn hwn, a chwestiynau eraill yn yr arolwg, gallai'r ymatebwyr nodi gwasanaethau/amwynderau neu asedau eraill nad oeddent wedi'u rhestru. Mewn rhai achosion, roedd y rhestr o wasanaethau/amwynderau neu asedau eraill yn hir. Er hwylustod, cafodd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn y categori 'arall' eu cynnwys yn y prif destun ac yn y siartiau a'r graffiau. Ceir rhestr lawn o'r ymatebion a roddwyd o dan 'arall' ar gyfer cwestiynau penodol yn atodiad D. Yn y siartiau bar, dangosir yr ymatebion 'arall' mewn lliw goleuach.

Ffigur 4.2: Pa wasanaethau y mae'ch cyngor wedi ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt yn ystod y 12 mis diwethaf?⁵




- 4.4 O blith y 203 o gynghorau a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd 21 y cant eu bod wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau/amwynderau yn ystod y 12 mis diwethaf. Caeau chwarae, meysydd pentref a mannau gwyrdd eraill, cyfleusterau cyhoeddus, llochesau bws a goleuadau Nadolig oedd y gwasanaethau / amwynderau mwyaf cyffredin yr oedd cynghorau wedi ymgymryd â nhw.
- 4.5 Ymhlith yr ymatebion eraill roedd gwelyau/arddangosfeydd blodau (n=3), llyfrgelloedd (n=2) a darparu gwasanaethau ieuencid neu arian ar eu cyfer (n=2). Roedd un cyngor wedi ymgymryd â dyletswyddau clirio amgylcheddol ac roedd yn drawiadol bod un cyngor wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros gastell. Ymhlith yr

⁵ Ceir rhestr o'r holl ymatebion a roddwyd o dan 'arall' yn atodiad D.

ymatebion eraill roedd darparu arian tuag at gyfleusterau cyhoeddus, sgubo ffyrdd, biniau graean, clirio sbwriel a monitro camerâu teledu cylch cyfyng.

4.6 O blith y 28 y cant, roedd 27 cyngor wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau yn ystod y 12 mis diwethaf, ond nid oedd y mwyafrif (n=57) wedi gwneud hynny.

Ffigur 4.3: Pa wasanaethau ychwanegol y mae'ch cyngor yn bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt yn ystod y 12 mis nesaf?⁶



4.7 Yna, gofynnwyd cwestiwn i'r cyngorau ynghylch eu bwriad i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau yn ystod y 12 mis nesaf. Dywedodd 28 y cant o'r holl gynghorau a holwyd eu bod yn bwriadu gwneud hynny. O gymharu'r data ynghylch y gwasanaethau/amwynderau a drosglwyddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf â'r bwriad

⁶ Ceir rhestr o'r holl ymatebion a roddwyd o dan 'arall' yn atodiad D.

i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau/amwynderau yn ystod y 12 mis nesaf, gall ddatgelu mwy am y gyfradd y mae cynghorau'n mabwysiadu gwasanaethau. O blith y 28 y cant hwn, roedd 27 cyngor wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau yn ystod y 12 mis diwethaf, ond nid oedd y mwyafrif (n=57) wedi gwneud hynny.

- 4.8 O blith y cynghorau hynny sy'n bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau/amwynderau ychwanegol yn ystod y 12 mis nesaf, rhoddodd 23 cyngor ymatebion yn y categori 'arall'. Cyfrifoldeb dros finiau graean (n=5) a meysydd/ardaloedd chwarae a chyfarpar chwarae (n=5) oedd fwyaf cyffredin.
- 4.9 O blith y 54 cyngor a oedd wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg, mae 27 ohonynt yn bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb dros ragor o wasanaethau yn ystod y 12 mis nesaf; nid oes gan 26 ohonynt unrhyw gynlluniau i ysgwyddo cyfrifoldeb dros ragor o wasanaethau yn ystod y 12 mis nesaf; ac nid yw un cyngor yn sicr ar hyn o bryd.
- 4.10 O blith y 28 y cant o'r cynghorau (n=70) sy'n bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ychwanegol yn ystod y 12 mis nesaf, nid yw 39 o'r clercod a ymatebodd wedi cael hyfforddiant ym maes rheoli asedau a gwasanaethau ac mae 29 wedi cael rhyw fath o hyfforddiant perthnasol. O blith y 70 y cant (n=177)⁷ o'r cynghorau nad ydynt yn bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ychwanegol, mae 40 y cant (n=69) o'r clercod a ymatebodd wedi cael hyfforddiant ym maes rheoli asedau a gwasanaethau ac nid yw 60 y cant (n=107) wedi cael unrhyw hyfforddiant perthnasol.


Asedau a ddelir

- 4.11 Yna, gofynnwyd yr un set o gwestiynau i'r cynghorau ynghylch yr asedau y maent yn gyfrifol amdanynt. Dywedodd 75 y cant o'r cynghorau a ymatebodd eu bod yn gyfrifol am asedau ar hyn o bryd. Dywedodd 24 y cant nad ydynt yn gyfrifol am unrhyw asedau ar hyn o bryd, ac ni fu i un y cant ateb y cwestiwn.
- 4.12 O groesgyfeirio'r ymatebion hyn â nifer y cynghorau sydd hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau/amwynderau i'r cyhoedd, mae 69 y cant (n=176) yn gyfrifol am asedau ac am ddarparu gwasanaethau/amwynderau. O blith y cynghorau sy'n

⁷ Ni wnaeth tri y cant o'r cynghorau ateb y cwestiwn hwn. Gall cyfanswm y canrannau fod ychydig yn uwch neu'n is na 100% oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

gyfrifol am asedau, dim ond 6 y cant (n=15) nad ydynt yn darparu gwasanaethau/amwynderau hefyd.

Ffigur 4.4: Pa asedau a ddelir gan eich cyngor ar hyn o bryd?⁸



4.13 Pan ofynnwyd pa asedau a ddelir gan y cynghorau, y tri ased mwyaf cyffredin oedd hysbysfyrddau, seddi, a chaeau chwarae, meysydd pentref neu fannau gwyrdd eraill. Yr ymatebion mwyaf cyffredin o dan ‘arall’ oedd cyfleusterau chwaraeon a chwarae/hamdden, gan gynnwys meysydd chwarae neu ardaloedd chwarae (n=11), adeiladau'r cyngor ac asedau sefydlog gan gynnwys cyfarpar TG, celfi swyddfa (n=9), a chofebion eraill, cerrig coffa a phlaciau (n=8). Dywedodd rhai cynghorau eu

⁸ Ceir rhestr o'r holl ymatebion a roddwyd o dan ‘arall’ yn atodiad D.

bod yn gyfrifol am asedau mwy, gan gynnwys eglwys, canolfannau celfyddydol neu brydles tafarn leol.

- 4.14 O blith y 75 y cant (n=191) o'r holl gynghorau a ymatebodd a oedd yn gyfrifol am asedau, roedd 17 y cant (n=32) wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau yn ystod y 12 mis diwethaf. Niferoedd bach o drosglwyddiadau asedau a nodwyd yn y sampl⁹, ac mae tabl yn dangos mai'r asedau mwyaf cyffredin a drosglwyddwyd yw caeau chwarae, meysydd pentref a mannau gwyrdd eraill (n=10), goleuadau Nadolig (n=5), llochesau bws a seddi (n=4 yr un). Ymhlith yr ymatebion mwyaf cyffredin o dan 'arall' roedd diffibrilwyr (n=4) a basgedi crog / blodau (n=2).
- 4.15 O blith y 32 cyngor a oedd wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg, mae saith yn bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb dros fwy o asedau yn ystod y 12 mis nesaf ac nid oes gan 25 ohonynt gynlluniau i fabwysiadu mwy o asedau yn ystod y 12 mis nesaf.
- 4.16 Dywedodd 24 y cant (n=62) o'r cynghorau eu bod yn bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau yn ystod y 12 mis nesaf, a dywedodd 75 y cant (n=190) nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny¹⁰. O ran y mater hwn, datgelodd trafodaethau'r grwpiau ffocws nad oedd cynghorau'n aml yn gwybod bod y prif awdurdod yn bwriadu trosglwyddo ased iddynt tan yn union cyn y bwriad i drosglwyddo'r ased. Efallai bod hyn yn egluro pam fod mwyafrif yr ymatebwyr wedi dweud nad oeddent wedi rhagweld y byddai ased yn cael ei drosglwyddo. Yr asedau mwyaf cyffredin yr oedd y cynghorau'n bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt oedd caeau chwarae, meysydd pentref a mannau gwyrdd eraill (n=15), cyfleusterau cyhoeddus (n=10), seddi (n=8) a neuaddau pentref / canolfannau cymunedol (n=8).
- 4.17 O ddadansoddi'r data ymhellach, canfuwyd nad yw chwe chyngor o blith y 24 y cant o'r cynghorau sy'n bwriadu mabwysiadu asedau yn ystod y 12 mis nesaf erioed wedi bod yn gyfrifol am asedau o'r blaen. Roedd yr un 24 y cant yn bwriadu mabwysiadu mynwentydd, caeau chwarae, meysydd pentref neu fannau gwyrdd eraill, neuadd bentref neu ganolfan gymunedol, a gliniadur at ddefnydd y cyngor¹¹.


⁹ Mae'r niferoedd yn rhy fach i'w dangos mewn siart. Ceir rhestr o'r holl ymatebion 'arall' yn atodiad D.

¹⁰ Ni wnaeth un y cant o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

¹¹ Ceir rhestr lawn yn atodiad D.

- 4.18 O blith y cyngorau hynny sy'n gyfrifol am asedau ac yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd, mae 54 ohonynt wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau a gwasanaethau yn ystod y 12 mis diwethaf. O blith y cyngorau hyn, dim ond chwech ohonynt sy'n cyflogi aelod staff amser llawn.
- 4.19 O blith y 24 y cant o'r cyngorau sy'n bwriadu mabwysiadu asedau ychwanegol yn ystod y 12 mis nesaf, mae 20 o'r clerod a ymatebodd wedi cael rhyw fath o hyfforddiant ym maes rheoli asedau a gwasanaethau. Nid yw'r 40 clerod arall a ymatebodd wedi cael hyfforddiant ym maes rheoli asedau a gwasanaethau¹². Fel y trafodwyd yn y grwpiau ffocws, mae'n bosibl bod y clerod yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o ffynonellau eraill, fel cymwysterau neu brofiad galwedigaethol blaenorol, gwybodaeth a sgiliau penodol sy'n ofynnol i drosglwyddo ased neu wasanaeth, neu rwydweithiau anffurfiol sy'n cynnwys clerod profiadol cyngorau eraill.
- 4.20 Yna, gofynnodd yr arolwg i'r cyngorau ateb cwestiwn agored drwy nodi a oeddent yn prydlesu'r asedau neu'n berchen arnynt. Gofynnwyd hefyd iddynt nodi am ba hyd yr oeddent wedi bod yn prydlesu'r asedau neu'n berchen arnynt.


Ffigur 4.5: Cymharu asedau sy'n eiddo i'r cyngorau ac sy'n cael eu prydlesu ganddynt



¹² Ni wnaeth y ddau gyngor sy'n weddill ateb y cwestiwn hwn.

4.21 Mae'r siart cylch yn dangos nad yw traean o'r cynghorau'n berchen ar asedau nac yn eu prydlesu, tra mae traean arall yn gyfrifol am asedau sy'n eiddo iddynt ac sy'n cael eu prydlesu ganddynt. Mae mwyafrif bach (41 y cant) yn gyfrifol am asedau sy'n eiddo iddynt yn unig. O ran y cyfnod y mae'r asedau wedi bod yn eiddo i'r cynghorau, cafodd asedau unigol eu cyfrif a'u gosod mewn bandiau blynyddoedd, a dangosir nifer yr asedau sydd wedi bod yn eiddo i'r cynghorau am ba hyd isod.

Ffigur 4.6: Am ba hyd y mae'r asedau wedi bod yn eiddo i'r cynghorau a chael eu prydlesu ganddynt




4.22 Mae'r graff yn dangos bod asedau wedi bod yn eiddo i'r cynghorau am 6 i 10 mlynedd gan mwyaf, a bod niferoedd mawr o'r asedau hefyd wedi bod yn eiddo iddynt ers 1 i 5 mlynedd ac 11 i 20 mlynedd. Mae cyfanswm yr asedau sy'n cael eu prydlesu'n sylweddol is¹³, gydag ychydig mwy o asedau wedi eu trosglwyddo o dan brydles yn ystod yr 1 i 5 mlynedd diwethaf.

¹³ Sylwch fod y graff yn dangos am ba hyd y mae'r ased wedi cael ei brydlesu, ac nid hyd y brydles.

Pwerau a ddefnyddir gan y Cyngor

- 4.23 Gofynnwyd i'r cynghorau restru'r pwerau a ddefnyddir ganddynt i ddarparu gwasanaethau ac amwynderau. Roedd hwn yn gwestiwn agored ac, o'r herwydd, roedd y mathau o ymatebion a gafwyd yn amrywio'n fawr iawn, o ymatebion annelwig ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i restr benodol iawn o'r pwerau.
- 4.24 Mae'n werth nodi na wnaeth 35 y cant o'r cynghorau a ymatebodd ($n=90$) ateb y cwestiwn hwn o gwbl. Mae hyn yn awgrymu nad oedd y cynghorau'n deall y cwestiwn neu nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu ei ateb. Dywedodd 10 y cant nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt oherwydd nad ydynt yn defnyddio pwerau, ac roedd chwech y cant yn ansicr neu wedi camddeall y cwestiwn. Dywedodd 19 y cant ($n=47$) eu bod yn defnyddio pwerau, ond ni wnaethant eu nodi. Fe wnaeth y 30 y cant sy'n weddill nodi'r pwerau a ddefnyddir ganddynt.
- 4.25 Mae'r ymatebion bras yn dangos ymwybyddiaeth ganolig i uchel o ddiben defnyddio pwerau, ond nid yw'n awgrymu bod y cynghorau'n llwyr ymwybodol o'r hyn y mae'r pwerau'n caniatáu iddynt ei wneud. O blith y rheini a roddodd atebion mwy penodol, nodir y pwerau statudol penodol y cyfeiriwyd atynt isod. Sylwch fod y rhifau hyn yn dangos nifer y troeon y cyfeiriwyd at ddarn penodol o ddeddfwriaeth neu adrannau penodol mewn deddfwriaeth, ac nid niferoedd y cynghorau.

Ffigur 4.7: Pa bwerau y mae'r cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ac amwynderau?




4.26 Yn ôl y disgwyl, ymwybyddiaeth o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a'r defnydd ohoni, sydd wedi sgorio uchaf, gan mai hon yw'r ddeddfwriaeth graidd sy'n sail i weithgareddau cyngorau cymuned a thref. Roedd ymwybyddiaeth o adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a'r defnydd ohoni, yn arbennig o uchel (pŵer i wario at ddibenion penodol nad ydynt wedi'u hawdurdodi fel arall), gyda 46 o'r cyngorau'n cyfeirio ati¹⁴. Cyfeiriwyd at ddeddfwriaeth arall mewn perthynas â darparu rhandroedd, biniau sbwriel a rheoli gwastraff a gwahanol fathau o fannau gwyrdd.

¹⁴ I gael rhestr o'r holl bwerau a enwyd o dan gwestiwn 17, ewch i atodiad D.

Incwm ychwanegol

4.27 Gofynnwyd i'r cynghorau ddweud a oeddent yn cael incwm ychwanegol ar ben y praesept a rhoi rhywfaint o wybodaeth am ffynhonnell yr incwm hwnnw. Dywedodd 56 y cant o'r cynghorau a ymatebodd eu bod yn cael rhyw fath o incwm ychwanegol, a dywedodd 43 y cant mai'r praesept oedd eu hunig ffynhonnell incwm. Mae'r graff bar a ganlyn yn dangos y ffynonellau incwm a nodwyd gan gynghorau.

Ffigur 4.8: Pa ffynonellau cyllid eraill, ac eithrio'r praesept, y mae'r cyngor wedi'u defnyddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac y mae'n eu defnyddio nawr?




4.28 Roedd mwyafrif y cynghorau'n cael eu cyllid ychwanegol drwy gynhyrchu incwm a thrwy arian grant. Ymhlith y ffynonellau incwm eraill y cyfeiriwyd atynt roedd y rhenti a geir drwy brydlesu adeiladau neu dir cymunedol (n=22), ffioedd mynwentydd a chladdedigaethau (n=16), llog banc ac ad-daliadau TAW (n=10), ac ailwerthu ynni gwyrdd (n=6)¹⁵.

4.29 O ran maint yr incwm a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf (2015-16), mae'r graff isod yn dangos bod mwyafrif y cynghorau wedi cael incwm ychwanegol o £9,999 neu lai ar gyfer y flwyddyn, a bod nifer fach (n=11) wedi cael

¹⁵ I gael rhestr o'r holl ymatebion, ewch i atodiad D.

£50,000 neu ragor. Gan mwyaf, defnyddiwyd yr incwm ychwanegol i gynnal y gwasanaethau a ddarperir (n=58), i ddarparu gwasanaethau (n=29), i'w ychwanegu at gyfanswm y gwariant / cronfeydd ariannol wrth gefn (n=27) ac i ddarparu grantiau i grwpiau cymunedol (n=16).¹⁶

Ffigur 4.9: Beth oedd maint eich incwm ychwanegol yn y flwyddyn ariannol 2015/16, heb gynnwys y praesept?¹⁷




Capasiti'r gweithlu

- 4.30 Roedd cwestiynau nesaf yr arolwg yn trafod capasiti'r gweithlu i reoli gwasanaethau ac asedau, a'r mathau o swyddi a geir o fewn y cynghorau. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi faint o bobl sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli ym mhob swydd yn y cyngor ar hyn o bryd.

¹⁶ Ceir rhestr o'r holl ymatebion yn atodiad D.


¹⁷ Cyfanswm yr ymatebion: 116

Ffigur 4.10: Sawl un o bob un o'r rhain a gyflogir gan eich cyngor neu sy'n gwirfoddoli yn eich cyngor ar hyn o bryd?



- 4.31 Mae gan 75 y cant o'r cynghorau bump neu ragor o gynghorwyr ac mae gan 90 y cant o'r cynghorau un clerc. Mae nifer fach iawn yn cyflogi mwy nag un clerc. Ar adeg yr arolwg, dywedodd saith cyngor bod swydd y clerc yn wag. Dywedodd cyfran fawr o'r cynghorau nad oeddent yn cyflogi contractwyr (44 y cant) nac yn defnyddio gwirfoddolwyr (46 y cant). O ran staff eraill, dywedodd 25 y cant o'r cynghorau eu bod yn cyflogi staff eraill yn ogystal â'r clerc.
- 4.32 Gofynnodd yr arolwg i'r cynghorau nodi pa staff sy'n gweithio amser llawn a pha rai sy'n gweithio rhan-amser.

Ffigur 4.11: Faint o weithwyr y cyngor sy'n gweithio amser llawn / rhan-amser (ac eithrio contractwyr a gwirfoddolwyr)?




- 4.33 Mae'r data yn y siart isod yn dangos bod cyflogaeth ran-amser yn llawer mwy cyffredin na chyflogaeth amser llawn. O ran cyflogaeth amser llawn, dywedodd 20 y cant (n=52) o'r holl gynghorau eu bod yn cyflogi un neu ragor o aelodau staff amser llawn. Nid oes gan 72 y cant (n=182) o'r cynghorau unrhyw weithwyr amser llawn.¹⁸
- 4.34 I'r gwrthwyneb, dywedodd 85 y cant o'r cynghorau eu bod yn cyflogi un neu ragor o weithwyr rhan-amser. Mae 56 y cant o'r holl gynghorau (n=141) yn cyflogi un person ar sail ran-amser, ac mae 30 y cant (n=75) yn cyflogi dau neu ragor o weithwyr rhan-amser. Gan fod gwaith rhan-amser yn fwy cyffredin yn y sector, mae iddo oblygiadau o ran adnoddau oherwydd bod y data ynghylch y gwasanaethau a'r asedau a drosglwyddwyd yn dangos mai dim ond 6 o'r 54 o gynghorau sydd wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau yn ystod y 12 mis diwethaf sy'n cyflogi gweithwyr amser llawn.

¹⁸ Ni wnaeth 8 y cant o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

4.35 Gofynnwyd i'r clerod nodi am sawl awr yr wythnos yr oeddent yn cael eu talu. Mae ffocws y cwestiwn hwn yn wahanol i'r cwestiynau ynghylch cyflogaeth gyffredinol y cynghorau oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar batrymau gweithio'r clerc yn unig.

Ffigur 4.12: Am sawl awr yr wythnos y telir clerc eich cyngor?



4.36 Mae ychydig dros hanner (57 y cant) yn gweithio 10 awr neu lai, ac mae ychydig dros un mewn pump (21 y cant) yn gweithio 11-20 awr yr wythnos. Mae hyn yn dangos bod mwyafrif y clerod yn gweithio ar begwn isaf y raddfa ran-amser i gyflawni eu rôl mewn nifer fach o oriau. Mae 10 y cant o'r clerod yn gweithio 35 awr neu ragor yr wythnos ac mae hyn yn gyfystyr â chyflogaeth amser llawn.

4.37 Pan ofynnwyd a oedd gweithwyr y cyngor (ac eithrio contractwyr a gwirfoddolwyr) hefyd yn gweithio i gynghorau eraill, fe wnaeth 26 y cant (n=67) gadarnhau bod eu gweithwyr yn gwneud hynny. Dywedodd mwyafrif y cynghorau, 72 y cant (n=182), nad oedd eu gweithwyr yn gweithio i gyngor arall. Mae mwyafrif y cynghorau sy'n rhannu staff â chyngor arall yn rhannu eu clerc â chyngor tref neu gyngor cymuned arall. Mae pedwar o'r clerod hefyd yn gweithio mewn swydd arall i'r prif awdurdod. Ni ddywedwyd beth yw'r swyddi hynny.

Y clerc a'i rôl

- 4.38 Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio tair prif ddyletswydd eu rôl, dyma'r swyddogaethau a nodwyd amlaf gan y clercod:

Tabl 4.1: Beth yw'r TAIR prif ddyletswydd yr ydych chi, y clerc, yn eu cyflawni?¹⁹

Dyletswydd	Nifer y cynghorau
Rheolaeth ariannol	202
Cofnodi cyfarfodydd	186
Cadw cofnodion	90

- 4.39 Mae cyfrifoldebau ariannol yn flaenoriaeth uchel i'r clercod ac maent yn rhan sylweddol o'u llwyth gwaith, yn ychwanegol at waith clerigol fel cofnodi cyfarfodydd a ffeilio. Yn y grwpiau ffocws, nodwyd yn aml fod angen hyfforddiant ac arbenigedd digonol yn y maes hwn. Yn ychwanegol at yr opsiynau a nodwyd yn yr arolwg, dywedodd nifer fach o'r cynghorau fod y clerc hefyd yn ymgymryd â'r dyletswyddau eraill a ganlyn: busnes cyffredinol y cyngor (n=4), trefnu digwyddiadau (n=2) a golygu gwefan y cyngor (n=2).

Hyfforddiant


- 4.40 Canfu'r cwestiynau ynghylch hyfforddiant fod 39 y cant (n=100) o'r clercod wedi cael hyfforddiant ym maes darparu gwasanaethau neu reoli asedau. Nid yw 60 y cant ohonynt wedi cael unrhyw hyfforddiant yn y maes hwn.
- 4.41 Gan fod Un Llais Cymru'n gweinyddu ei Arolwg Anghenion Hyfforddiant²⁰ ei hun, penderfynwyd cofnodi cyfranogiad ar gyrsiau'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn unig. Drwy holi ynghylch cyfranogiad y clercod, canfuwyd mai'r cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd Cyllid (n=56), CiLCA (n=22) ac Iechyd, Diogelwch a Llesiant (n=21). Ni ddywedodd unrhyw gyngor ei fod wedi mynd ar y cyrsiau a ganlyn: *Tir comin a meysydd pentref*, *Sut i hyrwyddo eich asedau*, *Lleoliadau a chyfleusterau a Masnachu i gynghorau*. Nifer arbennig o isel o'r cynghorau oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant *Trosglwyddo asedau cymunedol* (n=7) o'i gymharu â nifer y cynghorau a ddywedodd eu bod wedi mabwysiadu ased. Ymhlith y cyrsiau eraill a gwblhawyd, ac eithrio cyrsiau'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, roedd

¹⁹ Ceir rhestr lawn (gan gynnwys yr atebion o dan 'arall') yn atodiad D.

²⁰ Mae Un Llais Cymru'n bwriadu ailadrodd yr arolwg hwn.

cwrs ynghylch cynllunio (n=7, nid enwyd y darparwyr) a hyfforddiant o ran y cod ymddygiad (n=6, nid enwyd y darparwyr). O ran y darparwyr a enwyd, prif awdurdod y cyngor (n=4) a sefydliadau addysg uwch (n=4) oedd yr ymatebion mwyaf cyffredin²¹.

Ffigur 4.13: Pa rai o gyrsiau'r Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol ydych chi wedi'u cwblhau?




4.42 Fe wnaeth 96 o gyngorau ateb y cwestiwn a oedd yn gofyn iddynt werthuso ansawdd yr hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael. O'u plith, dywedodd 75 cyngor fod yr hyfforddiant wedi arwain at welliannau sylweddol neu rai gwelliannau. Gan mai nifer fach o'r cyngorau a atebodd y cwestiwn hwn, dylid trin y data hyn fel rhai dangosol. Mae'r sylwadau ynghylch ansawdd a ffurf yr hyfforddiant a wnaed yn

²¹ Ceir rhestr o'r holl ymatebion eraill yn atodiad D.

ystod y grwpiau ffocws yn rhoi darlun mwy cyflawn o'u cymhellion a'u safbwyntiau o ran hyfforddiant.

Ffigur 4.14: I ba raddau y gwnaeth yr hyfforddiant eich galluogi i wella'r ffordd yr ydych chi a'ch cyngor yn rheoli asedau a/neu wasanaethau?



- 4.43 O blith y rheini a ddywedodd fod y ffordd y maent yn rheoli gwasanaethau ac asedau wedi gwella rywfaent neu'n sylweddol, y rheswm a roddwyd amlaf oedd eu bod wedi meithrin sgiliau hanfodol ar gyfer y rôl, eu bod wedi dod i ddeall y testun yn well, a'u bod wedi diweddarau eu gwybodaeth. O blith y rheini a ddywedodd fod manteision yr hyfforddiant yn gyfyngedig, rhai o'r rhesymau a roddwyd oedd bod yr hyfforddiant yn rhy sylfaenol, bod eu profiad blaenorol yn ddigonol ac, mewn rhai achosion, nad oedd modd rhoi'r hyfforddiant ar waith oherwydd nad oedd y cynlluniau i drosglwyddo asedau wedi mynd rhagddynt.
- 4.44 Dywedodd 37 y cant o'r ymatebwyr fod cyfleoedd eraill i feithrin sgiliau wedi'u cynorthwyo i gyflawni eu rôl gyfredol²², yn enwedig y profiad yr oeddent wedi'i gael mewn swyddi blaenorol (n=23, ni phenhwyd natur y swyddi), profiad blaenorol o weithio mewn awdurdod lleol (n=20) a gwaith neu gymwysterau blaenorol yn y

²² Ceir rhestr o'r holl ymatebion yn atodiad D.


sector cyllid a chyfrifyddu (n=15). Dywedodd 44 y cant o'r ymatebwyr y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael hyfforddiant pellach ym maes rheoli gwasanaethau ac asedau. Yr hyfforddiant mwyaf poblogaidd oedd trosglwyddo, hyrwyddo a rheoli asedau (n=29), cyllid (n=16), cyngor cyfreithiol cyffredinol neu hyfforddiant cyfreithiol o ran llywodraeth leol (n=14) a chaffael a rheoli contractau (n=9)²³.

Gwaith partneriaeth

- 4.45 Roedd adran olaf yr arolwg yn ceisio dod i wybod mwy am brif bartneriaid y cynghorau cymuned a thref a natur ac ansawdd y berthynas rhyngddynt a'u partneriaid. Dywedodd 40 y cant o'r cynghorau eu bod yn cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill a/neu sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ac i reoli asedau. Dywedodd 56 y cant nad oedd ganddynt unrhyw drefniadau partneriaeth, ac ni fu i un y cant o'r cynghorau ateb y cwestiwn. Dywedodd 98 cyngor fod ganddynt bartneriaeth â'u prif awdurdod a dywedodd 37 cyngor fod ganddynt bartneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector. Ymhlith y trefniadau partneriaeth eraill mae partneriaethau â grwpiau lleol (n=9), Un Llais Cymru (n=4) a chynghorau cymuned a thref eraill (n=4).
- 4.46 Diben mwyaf cyffredin y gwaith partneriaeth hwn yw darparu gwasanaethau (n=45), cynnal gwasanaethau (n=25), cynnal digwyddiadau (n=8), ariannu prosiectau (n=7) a rhannu gwybodaeth (n=7).
- 4.47 Wrth werthuso'r berthynas rhyngddynt a'u prif awdurdod, gofynnwyd i'r cynghorau asesu i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau a ganlyn:

²³ Ceir rhestr o'r holl ymatebion yn atodiad D.


Ffigur 4.15: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn o ran gwaith partneriaeth?²⁴



4.48 Mae'r siart yn dangos bod 45 cyngor yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y cyfathrebu rhwng y cyngor a'r prif awdurdod ynghylch rheoli asedau a gwasanaethau'n gweithio'n dda, ond roedd barn nifer debyg yn niwtral o ran y datganiad hwn (n=37). Roedd ychydig mwy o'r cynghorau'n cytuno bod sylwadau'r cyngor ynghylch darparu gwasanaethau a rheoli asedau'n cael eu hystyried gan y prif awdurdod, gyda 49 cyngor yn cytuno. Roedd ychydig mwy'n cytuno bod y prif awdurdod yn helpu'r cyngor i gyflawni ei amcanion o ran gwasanaethau ac asedau. Roedd nifer yr ymatebion niwtral yn uchel ym mhob achos, ac eithrio'r datganiad olaf, lle dywedodd 75 o'r 94 ymatebwr eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod perthynas dda rhwng y cyngor a'r prif awdurdod.

²⁴ Ni roddir canrannau fan hyn gan fod cyfradd ymateb y cwestiwn hwn yn isel.

Ffigur 4.16: A oes trefniadau ffurfiol ar waith rhwng eich cyngor a'ch awdurdod unedol o ran darparu gwasanaethau a rheoli asedau?



4.49 Yn olaf, gofynnwyd i'r cynghorau nodi pa fathau o gytundebau ffurfiol sydd ar waith rhyngddynt a'u prif awdurdod. Roedd gan niferoedd tebyg o'r cynghorau siarteri a chytundebau lefel gwasanaeth. Dywedodd nifer llawer uwch nad oedd ganddynt gytundebau o'r fath. Efallai mai'r anhawster o ran cytuno ar delerau sydd i gyfrif am y ffaith nad yw cytundebau siarter yn fwy cyffredin. Mae'r adran nesaf yn trin a thrafod y mater hwn, ac eraill sy'n gysylltiedig â'r set ddata hon, yn fanylach, wrth ddadansoddi canfyddiadau'r grwpiau ffocws.

5. Canfyddiadau'r grwpiau ffocws

- 5.1 Mae'r adran hon yn rhannu prif ganfyddiadau'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda chlercod a chynghorwyr cynghorau cymuned a thref mewn chwe lleoliad ledled Cymru. Ceir cynllun manwl o strwythur y sesiynau a'r testunau a drafodwyd ynddynt yn atodiad B. Un o brif amcanion y sesiynau hyn oedd dod i wybod sut y gellir cynorthwyo cynghorau i reoli asedau a gwasanaethau ac i gynnal partneriaethau effeithiol. Sylwch fod yr holl sylwadau'n deillio o'r grwpiau ffocws, ond ni roddir enwau na lleoliadau'r unigolion i sicrhau nad oes modd eu hadnabod.

Ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau, a'u datblygu

- 5.2 Nod sesiwn gyntaf y grwpiau ffocws oedd trafod materion a oedd yn ymwneud ag ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau, a'u datblygu. Fodd bynnag, roedd llawer o'r sgysiau yn canolbwyntio ar y broses drosglwyddo, ac mae'n bwysig cadw hyn mewn cof wrth drafod y canfyddiadau.
- 5.3 Roedd dyheadau a phryderon y cynghorau o ran ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau, a'u rheoli, yn adlewyrchu natur amrywiol y cynghorau o ran eu maint a'r gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw. Roedd y rhan fwyaf o'r asedau a'r gwasanaethau y mae'r cynghorau eisoes yn gyfrifol amdanynt yn hanesyddol eu natur. Fodd bynnag, gan fod maint (praesept) a phroffil daearyddol (trefol neu wledig) y cynghorau'n amrywio, mae'n bwysig nodi bod nifer, gwerth a chymhlethdod yr asedau a'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt yn amrywio o gyngor i gyngor.

O ran ail-lunio gwasanaethau a derbyn pethau oddi wrth yr awdurdodau unedol, fe welwch fod gwahaniaeth mawr rhwng yr hyn y mae rhai'n ei ddarparu a'r hyn y mae eraill yn ei ddarparu... O'n rhan ni, does dim byd arall ar ôl i ysgwyddo cyfrifoldeb drosto.

- 5.4 Ni waeth beth oedd portffolio asedau a gwasanaethau'r cynghorau, bu'r cyfranogwyr yn sôn am y ffactorau sy'n dylanwadu ar uchelgais y cynghorau i ddatblygu'r asedau a'r gwasanaethau sydd eisoes yn eu meddiant ac i ysgwyddo cyfrifoldeb dros rai newydd. Y ffactorau pwysicaf oedd gweledigaeth ac egni'r cynghorwyr i roi cynnig ar bethau newydd, y graddau y mae'r cynghorau'n gallu meithrin partneriaeth gydweithredol â'r prif awdurdod, a gallu'r cynghorau i godi arian.

O ran uchelgais, oherwydd nad yw'r cynghorau'n cael eu llywio gan wleidyddiaeth, mae'n dibynnu ar ba mor uchelgeisiol a pha mor bellgyrhaeddol y mae'r cynghorwyr am fod... a diwedd y gân yw'r geiniog...

- 5.5 Mae uchelgais y cynghorau'n cael ei siapio gan eu perthynas â'r prif awdurdod, yn ogystal â'u perthynas â'u cymunedau. Mewn achosion lle nad oedd cynghorau wedi pennu cyfleoedd i ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau neu wasanaethau newydd, nid oedd yr uchelgais bob amser yn cael ei annog na'i hwyluso gan y prif awdurdod.

Yn hanesyddol, y broblem y mae [y cyngor] wedi'i chael yw bod barn [y prif awdurdod] ynghylch cadw pŵer lleol a gwasanaethau lleol yn golygu ei fod wedi bod yn gyndyn o roi llawer o'r gwasanaethau hynny i [y cyngor].

- 5.6 O ran cynlluniau i drosglwyddo asedau a gwasanaethau, gallai dymeg ac amseriad cylchoedd gwleidyddol ddylanwadu arnynt, a gallai diffyg gwybodaeth ymddangosiadol am y sector cynghorau cymuned a thref yn y prif awdurdod a diffyg cyfathrebu ac ymgynghori cyson â'r sector eu llesteirio.

- 5.7 Bu'r cyfranogwyr yn trafod eu profiadau o gydweithio â'r prif awdurdod i drafod trosglwyddo gwasanaeth neu ased, ac i gynllunio ar ei gyfer. Roedd gwasanaethau ac asedau fel rheol yn cael eu trosglwyddo o dan un o ddau fodel, gyda rhai cynghorau cymuned yn ysgwyddo cyfrifoldeb llwyr dros wasanaethau ac asedau ar unwaith, ac eraill yn cytuno i ariannu'r gwasanaeth yn rhannol, gyda'r awdurdod lleol yn parhau i ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol drosto a chydag opsiynau amrywiol o ran trosglwyddo'r gwasanaeth yn llwyr i'r cyngor cymuned yn y dyfodol agos.

- 5.8 Yn y grwpiau ffocws, fe wnaeth y cyfranogwyr bennu nodweddion proses drosglwyddo effeithiol ar sail eu profiadau cadarnhaol a negyddol o weithio gyda'u hawdurdod lleol. Dywedodd cynghorwyr a chlercod ei bod yn hanfodol cydweithio a llunio cynllun busnes hirdymor er mwyn cwblhau trosglwyddiad llwyddiannus. Roeddent yn teimlo y dylid sicrhau bod sianeli clir wrth galon y broses er mwyn i'r cyngor a'r prif awdurdod rannu gwybodaeth amserol a pherthnasol. O ran cyfnewid gwybodaeth, nodwyd bod diffyg cydweddu ymddangosiadol rhwng prosesau cynllunio ariannol y prif awdurdodau a'r cynghorau cymuned a thref yn fater pwysig. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn effeithio'n andwyol ar allu'r cynghorau cymuned a thref i baratoi i ymgymryd â gwasanaeth neu ased. Cyfeiriodd y cynghorau cymuned yn gyson at anawsterau o ran ymgysylltu â'r prif awdurdod ar

yr adeg iawn i sicrhau bod modd iddynt gyfrif am drosglwyddiadau yn eu proses gyllidebu:

... i bob pwrpas, 'naill ai byddwch chi'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr ardaloedd chwarae, neu byddwn ni'n eu cau'. Ac roeddwn i'n meddwl, 'arhoswch am eiliad!', ac roedd rhaid i ni fel cyngor cymuned gael hyd i arian yn ein cyllideb fach iawn, gan ei fod yn ddigon o arian i gynnal [x] ardal chwarae ychwanegol dros gyfnod o [xx] blwyddyn.

5.9 Oherwydd nad yw'r prosesau hyn yn cydweddu, roedd yn anodd i'r cynghorau cymuned a thref wneud darpariaeth ariannol ar gyfer trosglwyddiadau a oedd yn yr arfaeth, a gofynnodd llawer ohonynt i'r awdurdodau lleol gynllunio ymlaen llaw a chychwyn sgysiau'n gynharach pan fyddant yn ystyried trosglwyddo gwasanaeth neu ased i sicrhau bod modd i'r cyngor cymuned ymdopi â'i gyfrifoldebau cynyddol.

5.10 Fe wnaeth y cynghorau cymuned a thref hefyd ddisgrifio gwahanol brofiadau o'r broses drosglwyddo o dan amgylchiadau ariannol gwahanol neu ar adegau gwahanol yn y cylch cynllunio blynyddol. Fe wnaeth rhai ddisgrifio proses hirach a mwy ffurfiol:

Mae'r [prif awdurdod] newydd gyhoeddi ei gynllun corfforaethol – ei ddatganiad corfforaethol ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac mae'n sôn am ardaloedd chwarae ac am wario hyn a hyn o arian ar ardaloedd chwarae, ond, fel y soniais, ychydig o flynyddoedd yn ôl, fe gawsom alwad ffôn yn dweud 'os na fyddwch chi'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros y pum ardal chwarae hyn, heb unrhyw gymorth ariannol, byddwn ni'n eu cau'...

5.11 O ran cynllunio ariannol, cyfeiriodd y cynghorau cymuned a thref yn aml at yr heriau sy'n codi pan fyddant yn gofyn am wybodaeth berthnasol gan yr awdurdodau lleol er mwyn iddynt wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylent ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaeth neu ased. Roedd yn cymryd cryn amser i gael gafael ar wybodaeth, gan gynnwys prisiadau asedau, deunyddiau archwilio a gwybodaeth ariannol arall, ac roedd hyn yn amharu ar allu'r cynghorau cymuned a thref i gynllunio ar gyfer trosglwyddiadau yn y tymor hir.

Rydw i wedi mynd bob cam i'r brig, at y sawl sy'n gyfrifol, yn gyfan gwbl gyfrifol am gyllid, a dydw i ddim wedi gallu cael ateb. Dydw i ddim yn gwybod a fydd rhaid i mi gyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth.

... mae yna broblem o ran meysydd parcio ar hyn o bryd a dydy'r cyfathrebu [â'r prif awdurdod] ddim yn dda, felly rydyn ni'n aros am wybodaeth er mwyn i ni benderfynu, oherwydd dydy e ddim yn y gyllideb. Ond dydyn ni ddim yn cael gwybodaeth a dydyn ni ddim yn gallu dod i ddeall beth sy'n digwydd.

- 5.12 Roedd arbenigedd yn ffactor hollbwysig arall o ran penderfynu a fyddai cynnig gan y prif awdurdod i drosglwyddo ased neu wasanaeth yn dwyn ffrwyth. Roedd llawer o'r clercod yn cydnabod bod gofyn iddynt fod yn amryddawn i gyflawni eu rôl, a bod gofyn iddynt ddysgu wrth eu gwaith i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau. Fodd bynnag, mae pob gwasanaeth neu gyfrifoldeb yn galw am amser ac adnodd i gael gafael ar wybodaeth benodol i'w roi ar waith yn effeithiol, a gall fod yn her i un clerc, sy'n aml yn gweithio ar sail ran-amser, wneud hynny. Cyfeiriwyd at anawsterau o ran pennu pa wybodaeth neu arbenigedd y bydd eu hangen i ymgymryd ag ased newydd, ac amharodwydd i ganiatáu i asedau gael eu trosglwyddo os nad oedd digon o arbenigedd yn y cyngor. Roedd cynghorau'n teimlo y byddai'n well i asedau o'r fath aros yn nwylo'r prif awdurdod sy'n meddu ar brofiad a gwybodaeth.

Ceir llwyddiant hwnt ac yma, ond os yw awdurdod am drosglwyddo asedau i ni, rhaid iddo hefyd drosglwyddo cyllid, ond yn fwy penodol, arbenigedd.

Fe wnaethom ni fel cyngor ystyried sut y gallem fabwysiadu'r ased, a oedd modd i ni ysgwyddo cyfrifoldeb drosto'n ariannol ond, o edrych yn ôl, roedd y prosiect yn rhy fawr, a phopeth yn dod i'ch rhan chi fel clerc; mae'r cynghorwyr yn cyfrannu, ond y clerc sydd bob amser yn rhedeg y gwasanaethau hyn ac roedd hyn yn ormod.

- 5.13 Ar ôl trosglwyddo ased neu wasanaeth, roedd nifer o broblemau'n codi. Y broblem gyntaf yw'r heriau parhaus o ran yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau. Ymhlith y problemau pwysicaf a nodwyd roedd patrymau gwaith rhan-amser y clercod a natur wirfoddol rôl y cynghorydd; nid oedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo bod digon o amser yn y dydd i wneud popeth wrth i'r cyfrifoldeb dros asedau a gwasanaethau a drosglwyddwyd gynyddu. Un o'r atebion a gynigiwyd i ddatrys y broblem o ran adnoddau oedd cynyddu'r praesept i dalu'r costau ac i gadw cronfa ariannol ddigonol wrth gefn, ond yn aml nid yw'r cynghorau o blaid yr opsiwn hwn oherwydd yr ymateb negyddol y byddai'n ei gael gan y cyhoedd.

C1: Nid dim ond y cyllid sydd ei angen i gynnal y gwasanaeth, ond hefyd y cynnydd mewn staff. Pan fyddwch chi'n dechrau ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau, mae angen mwy o bobl cynnal a chadw, cyfrifoldeb digonol yn y swyddfa i fwrw'r maen i'r wal, ac mae'n rhaid ystyried hyn i gyd. Felly, wrth reswm, mae cynghorau cymuned a thref bob amser yn bwyllog o ran y praesept sy'n cael ei godi. Er ei fod ynghudd ym mhraesept yr awdurdod unedol, mae'n dal i fod yno. Ond dydy praesept yr awdurdod unedol ddim yn lleihau...

C2: Mae'n gleddyf deufiniog gan fod cymunedau a phobl am i bethau gael eu gwneud yn lleol, ond os ydyn ni'n gwneud hynny, mae'r praesept yn cynyddu...

- 5.14 Nid oedd unrhyw awydd i'r cynghorau cymuned a thref gyflogi staff ychwanegol, nac arian i wneud hynny. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo nad oedd fawr ddim y gallent ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau adnoddau sy'n gysylltiedig â'r pwysau cynyddol y mae'r awdurdodau lleol yn ei roi arnynt i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau.

Y berthynas â'r prif awdurdod

- 5.15 Wrth drafod eu profiadau o ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau, fe wnaeth y cynghorau hefyd ymhelaethu ar y berthynas rhyngddynt a'u partneriaid, yn enwedig y prif awdurdod. Cafodd nifer o'r materion a gododd yn ystod y trafodaethau hyn eu hadleisio'n gyson ym mhob un o'r grwpiau, a'r amlycaf ohonynt oedd y farn bod y ddeialog â'r prif awdurdod ynghylch trosglwyddo asedau a gwasanaethau yn ddeialog un ffordd. Yn benodol, roeddent yn tybio mai'r awdurdod lleol sy'n llywio'r trafodaethau ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei drosglwyddo a phryd. Yn aml, roedd cynghorau cymuned a thref yn tybio mai ymdrechion yr awdurdodau lleol i arbed costau drwy ddatganoli cyfrifoldeb dros eu rhwymedigaethau sydd wrth wraidd hyn. Cyfeiriodd y cynghorau cymuned a thref yn aml at y ffaith bod pwysau arnynt i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaeth rhag i'r gymuned ei golli, gan roi fawr ddim dewis iddynt ond ceisio ymdopi â'r costau er budd y gymuned.

Mae'r [prif awdurdod] yn dod atom unwaith y flwyddyn â rhestr o'r gwasanaethau nad yw'n gallu eu cynnal mwyach. Fi sy'n cael y rhestr honno.

*Ac yna, ceir rhestr o'r gwasanaethau y byddai'n ystyried eu datganoli i chi.
Does dim deialog ddwy ffordd am hynny.*

- 5.16 Yn aml, mae hyn wedi arwain at rwystredigaeth, gan fod rhai cynghorwyr a chlercod yn teimlo bod y modd y mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r broses drosglwyddo yn llesteirio eu gallu i lunio strategaeth ar gyfer yr hyn y gallent neu y byddent yn hoffi ysgwyddo cyfrifoldeb drosto, a'u gallu i ymgymryd â'u rhaglenni gwaith mewn ffordd strategol, ac nad oes llawer o gyfle iddynt negodi. Mae hyn wedi arwain at oedi ac at ohirio trafodaethau ynghylch trosglwyddiadau y cytunwyd arnynt, ac amharodrwydd ymddangosiadol y prif awdurdodau i ddatganoli asedau a allai ddarparu ffrydiau refeniw ychwanegol i'r cynghorau cymuned a thref.

... mae'r [prif awdurdod] yn dweud yn eithaf agored nad yw'n barod i gael gwared ar ased sy'n cynhyrchu arian, rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn ased. Nid yw ond yn barod i gael gwared ar rwymedigaethau ac mae'n eithaf agored am hynny. Felly, yr unig bethau sy'n cael eu cynnig i ni, yr unig beth mae'n gofyn i ni 'a oes gennych ddiddordeb mewn ysgwyddo'r rhain?' yw'r rhwymedigaethau, y pethau sy'n gwneud colled, y pethau sydd ddim yn cynhyrchu incwm. Felly, rydyn ni'n cael rhestr gan yr adran ystadau, gwasanaethau – gwasanaethau sydd ddim yn hanfodol ac sydd o dan fygythiad – y gallen ni ysgwyddo cyfrifoldeb drostyn nhw.

- 5.17 Serch hynny, mewn rhai achosion, roedd hi'n amlwg bod cyd-ddealltwriaeth a pherthynas gadarnhaol rhwng y prif awdurdod a'r cynghorau. Roedd y rheini a oedd yn gallu rhoi'r trafodaethau ynghylch trosglwyddo yng nghyd-destun ehangach yr agenda gyni'n deall bod yr holl wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys yr awdurdod lleol, o dan bwysau, a bod angen iddynt gydweithio er budd y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

C1: Alla i ddim ond dweud bod y berthynas yn rhagorol a'n bod ni'n deall bod llai o arian felly bod rhaid iddo ddatganoli mwy o wasanaethau.

C2: Byddwn i'n adleisio'r sylwadau hyn. Rwy'n credu, fel y dywedoch chi, bod gennym berthynas dda â nhw, ond o ran eu defnyddio ac ati, rydym yn teimlo ei bod yn llawer mwy buddiol, neu'n llawer mwy effeithlon efallai, eu defnyddio yn enwedig ar gyfer meysydd chwarae a rhai gwasanaethau eraill ... gan fod y bobl yno'n barod, mae'r profiad yno'n barod, maen nhw eisoes yn adnabod y lle, maen nhw eisoes yn gwybod lle mae pethau.

- 5.18 Dywedodd rhai cyngorau cymuned a thref eu bod yn gallu defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o brofiadau o'r fath i gyfathrebu â'u prif awdurdod mewn ffordd wahanol. Ar sail eu hymwybyddiaeth a'u profiad cynyddol, mae rhai wedi dod i ddeall yn well pa gwestiynau i'w gofyn a pha heriau i'w rhagweld, ac mae hyn wedi eu galluogi i negodi â'u prif awdurdod, yn hytrach nag ildio i gynnig i drosglwyddo.

Mae cyngorau cymuned a thref yn fwy ymwybodol o'r ffaith nad ydyn nhw am i bethau gael eu gwthio arnyn nhw. Mae yna oblygiadau o ran cyllid a'r dyfodol, felly maen nhw'n mynd yn ôl at y prif awdurdod ac yn dweud, wel, iawn, fe wnawn ni ystyried y peth, ond mae angen hwn, hwn a hwn arnom ni.

Rwy'n meddwl ei bod hi'n deg dweud eich bod yn gwneud penderfyniadau ar sail eich adnoddau. Mae'n debyg i fargeinio – rydych chi'n dechrau gyda'r [cyngor] yn dweud 'fedrwn ni ddim gwneud a, b, c ac ch mwyach', ac erbyn diwedd y sgwrs, dim ond a a b sy'n weddill. Rwy'n credu eu bod nhw'n ceisio gwthio pethau ychydig, ond mae'n rhaid i chi wthio yn ôl. Fedrwn chi ddim derbyn popeth.

- 5.19 Roedd nifer lai o'r cyngorau cymuned a thref yn mynd ymhellach ac yn llunio strategaeth a chynllun busnes hirdymor a fyddai, yn eu tyb nhw, yn caniatáu iddynt wneud gwell penderfyniadau am yr asedau a'r gwasanaethau i'w mabwysiadu a'r ffordd orau o gael y gwerth mwyaf o'r asedau a'r gwasanaethau yr oeddent eisoes yn gyfrifol amdanynt.

Roedd y cyngor blaenorol wedi rhoi cynllun pum mlynedd ar waith. Dyma'r hyn yr ydym am ei gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 2 – o ran cyllid, gwasanaethau, gweledigaeth ac ati. Felly fe wnaethom ni'r un fath pan ddaeth y cyngor hwn i fodolaeth. Mae ar fin dod i ben nawr ac rydym ni wedi dilyn rhan o'u cynllun nhw a rhan o'r cynllun newydd. Felly, roedd gennym adeiladau nad oeddent wedi cael sylw ers blynyddoedd, ond mae pob un ohonynt wedi'i adnewyddu hyd at safon benodol erbyn hyn.

- 5.20 Yn gyffredinol, yr ymdeimlad nad yw'r cyngorau, mewn rhai achosion, yn cael eu hystyried fel partneriaid cyfartal mewn prosesau ymgynghori na phrosesau trosglwyddo oedd yn atal perthynas waith fwy adeiladol. Mewn rhai achosion, roedd teimlad bod hyn yn llywio natur un ffordd y berthynas hon, ac roedd llawer am gael perthynas fwy cyfartal â'r prif awdurdod i hwyluso trafodaethau ynghylch trosglwyddo asedau a fyddai'n cydnabod blaenoriaethau'r naill barti a'r llall.

Mae angen i ni gael ein cydnabod, nid ein anghofio – wps! byddai'n well i ni anfon hwn at y cyngor cymuned – mae angen ein cynnwys ni. Ein cynnwys ni yn eich ymgynghoriadau; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r peth mwyaf. Roeddwn i yn y gynhadledd yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Chawson ni ddim mo'n hystyried, ac ni wnaeth neb ymgynghori â ni hyd yn oed.

5.21 Bu'r cynghorau hefyd yn sôn am yr angen i dargedu deunydd cyfathrebu sydd wedi'i deilwra ar gyfer y sector yn well. Cyfeiriodd y clercod yn aml at yr heriau y maent yn eu hwynebu o ran cael hyd i wybodaeth berthnasol mewn lluo o gyfathrebiadau sy'n dod i law ar faterion nad yw'n ymddangos, ar yr olwg gyntaf, fel pe baent yn berthnasol i'r sector. Roedd gallu clercod rhan-amser i bennu gwybodaeth mewn lluo o gyfathrebiadau, ac i elwa arni, hefyd yn gyfyngedig iawn.

5.22 O ran cytuno ar siarteri neu gytundebau lefel gwasanaeth, a'u rhoi ar waith, roedd rhai'n teimlo bod eu hangen i gael trefniant ffurfiol rhwng y prif awdurdod a'r cyngor ac roedd eraill yn teimlo nad oeddent yn pennu disgwyliadau clir o ran gwaith partneriaeth a darparu gwasanaethau. Disgrifiodd y cynghorau rai anawsterau o ran cytuno ar hyd a lled siarteri neu gytundebau lefel gwasanaeth. Mewn rhai achosion, priodolwyd hyn i arferion ymgynghori gwael a oedd yn methu â chadw'r cynghorau yn y broses o'r dechrau i'r diwedd, a'r ffaith nad yw'r disgwyliadau o ran yr hyn y gall clercod rhan-amser ei gyflawni yn realistig. Tybiwyd bod yr oedi cyn ffurfioli cytundebau'n niweidio'r gymuned o ran darparu gwasanaethau effeithiol.

C1: Fe wnaeth ein cyngor ni wrthod llofnodi'r un diwethaf oherwydd bod y fersiwn flaenorol wedi'i hanwybyddu'n llwyr, yn ein tyb ni, felly doeddem ni ddim yn meddwl bod unrhyw ddiben ei lofnodi...

C2: Fe fuon ni'n rhan o'r gwaith o lunio'r siarter honno, ac fe wnaethon nhw ymgynghori â ni ar yr un newydd... Maen nhw'n ymgynghori â chi ar ddrafft, er enghraifft, ac rydych chi'n gwneud sylwadau – cymerwch e neu beidio.

C3: Wel, o ran yr un cyntaf... Dim ond un cyngor wnaeth ddim mo'i lofnodi a [lleoliad] oedd hwnnw oherwydd ei fod yn teimlo ei fod yn gofyn gormod gan y clerc.

5.23 Mae'r cynghorau hefyd wedi'i chael yn anodd mynnu bod y siarter yn cael ei harddel, pan fydd angen. Roeddent yn teimlo bod gwybodaeth am yr hyn y bwriedir i'r siarter ei wneud a sut y dylid ei gwireddu er budd gwaith partneriaeth yn aml yn

brin, yn dameidiog neu'n anghyson. Nid oedd rhai'n sicr pwy oedd yn gyfrifol am y siarter.

Rydym wedi bod yn teimlo ychydig yn rhwystredig dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn teimlo bod y siarter yn cael ei hanwybyddu ac yn aml bydd ein haelodau'n chwifio'r siarter ac yn dweud, 'Wel, beth am hon?!' Dydw i ddim yn gwybod faint sy'n ei deall...

- 5.24 Mewn mannau lle'r oedd siarteri'n bodoli neu lle bu siarteri ar waith, gyda gwahanol lefelau o lwyddiant, cafwyd cytundeb cyffredinol eu bod yn dioddef oherwydd diffyg ymrwymiad gan y cynghorau a'r prif awdurdodau i roi'r egwyddorion ar waith wrth gyfathrebu a chydweithio.

Mae rhai swyddogion yn dweud bod y siarter wedi'i diddymu ac mae eraill, pan fydd yn briodol iddyn nhw, yn dweud 'le, ond mae eich siarter yn dweud y byddwn ni'n gweithio fel hyn'...

- 5.25 Fodd bynnag, lle mae cynghorau cymuned a thref yn bresennol mewn cyfran uchel o'r awdurdod ac mae cefnogaeth o'r ddwy ochr, mae'n ymddangos bod gwaith partneriaeth da'n digwydd hwnt ac yma rhwng y cynghorau a'r prif awdurdodau.

Rydym yn cael cyfarfod cyswllt rhwng y cynghorau cymuned a thref a'r awdurdod unedol o dan gadeiryddiaeth un o aelodau'r Cyngor o [awdurdod unedol]. Ceir rhywfaint o ymrwymiad gwleidyddol iddo ac mae'n cael ei adnewyddu ochr yn ochr â gweddill y trefniant.

- 5.26 Roedd y cyfranogwyr yn tybio bod cyfleoedd i atgyfnerthu'r cytundebau siarter er mwyn i'r naill barti a'r llall gydnabod manteision gwaith partneriaeth i'r gymuned ehangach a wasanaethir ganddynt, ac ymrwymo iddynt. Roeddent yn tybio y gallai Llywodraeth Cymru chwarae mwy o rôl i bennu'r hyn y disgwylir i gytundeb siarter ei wneud a sut y disgwylir iddo gael ei roi ar waith.

Nid yw'r cytundeb siarter, er enghraifft, yn ddigon grymus. Felly, nid yw'n ddim mwy na dogfen am gyfathrebu a phartneriaeth. Ond does dim llawer mwy y gallwch chi ei gyflawni oni bai fod ganddo ddannedd a grym gwirioneddol... Tynnu llinell a dweud ei bod yn orfodol i chi ymgysylltu. Dyma beth rydyn ni'n disgwyl i chi ei wneud – oherwydd, os mai trefniant dewisol yw e, o ystyried maint y rhan fwyaf o gymunedau a'r adnoddau sydd ganddynt, byddant yn dweud 'dydy e ddim yn effeithio arnon ni'.

- 5.27 Fe soniodd y cyngorau hefyd am yr angen i feithrin perthynas waith agosach â chynghorwyr y prif awdurdod sy'n ddolen gyswllt bwysig rhwng y cyngorau a'r awdurdodau.

Rydw i hefyd yn credu bod angen i'r cynghorwyr sir sydd ddim yn aelodau o'r cyngor tref ymgysylltu mwy â'r cyngorau cymuned a thref, oherwydd dydyn nhw ddim yn gwneud hynny. Dydw i erioed wedi gweld fy un i [...] ac rydw i'n credu bod angen gwneud rhywbeth i'w hannog i fynd i gyfarfodydd neu i ystyried eu hunain fel estyniad i'r cyfathrebu...

Partneriaethau eraill sy'n bodoli eisoes

- 5.28 Er i'r cyngorau cymuned ddweud mai'r prif awdurdod yw eu prif bartner, maent hefyd wedi meithrin nifer o bartneriaethau buddiol â busnesau lleol, elusennau a sefydliadau eraill er mwyn darparu gwasanaethau a darparu grantiau i sefydliadau eraill wneud hynny ar eu rhan. Mae'n anochel bod y partneriaethau hyn yn fwy amrywiol ac eang yn y cyngorau mwy, gan eu bod yn aml yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau dros wasanaethau ac asedau a bod mwy o gyfle, o'r herwydd, iddynt ymgymryd â gwaith partneriaeth. Lle'r oedd gwaith partneriaeth yn digwydd, roedd fel rheol yn ddatblygiad da a oedd wedi arwain at feithrin sawl perthynas dda ac at rai canlyniadau da i'r gymuned. Yn benodol, nodwyd bod sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol yn cydweithio'n dda â'r cyngor cymuned i gynnal digwyddiadau neu i ddarparu gwasanaethau i ymgysylltu mwy â'r gymuned ehangach.

Mae gennym ymgyrch 'siopa'n lleol' ac rydym hefyd yn ymdrin â'r gymuned leol drwy bartneriaethau â siopau, yr ysgol a'r eglwysi i hybu Masnach Deg.

Ceir enghreifftiau da o bartneriaethau â'r sector gwirfoddol ac rydym yn dechrau meithrin partneriaethau da â'r gymuned fusnes [...] Felly rydym yn meithrin nifer dda o gysylltiadau â gwahanol rannau o'r gymuned - eglwysi, ysgolion, sefydliadau cyn-filwyr. Mae Sul y Cofio'n enfawr yn [lleoliad].

- 5.29 Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y broses o feithrin a chynnal perthynas dda â sefydliadau a busnesau lleol yn gallu bod yn araf a'i bod yn aml yn dibynnu ar ewyllys y cyngor a chapasiti unigolion i ymgysylltu. Roedd yn ymddangos bod cael rhwydwaith cadarn o sefydliadau sydd eisoes wedi datblygu ffyrdd o gydweithio yn hwyluso'r broses o feithrin partneriaethau. Tynnodd rhai cyngorau sylw at y cymorth yr oeddent wedi'i gael gan Cymunedau yn Gyntaf neu sefydliadau aelodaeth y sector gwirfoddol. Roeddent yn tybio ei bod yn anoddach

sefydlu a chynnal partneriaethau buddiol mewn mannau lle mae busnesau a sefydliadau gwirfoddol lleol yn ei chael yn anodd. Roeddent hefyd yn tybio ei bod yn synhwyrol cydweithio i gyflawni canlyniadau penodol, a chydabod pan nad oes diben i'r bartneriaeth mwyach.

Ond os yw'r cyngor cymuned a thref yn rhan o grŵp neu gasgliad o bobl sydd wedi dod at ei gilydd i ysgwyddo cyfrifoldeb dros rywbeth, mae gwersi pwysig i'w dysgu o ran sut yr ydych yn cyfrannu, a phan fydd y pwyllgor yn heneiddio a phobl yn gadael, a yw'n gynaliadwy yn y tymor hir? A oes... ac os bydd y cyfan yn methu, a oes cymal sy'n dweud, ymhen pum mlynedd, 'wel, rydyn ni wedi rhoi cynnig ar hwn, a dydy e ddim yn gweithio, allwn ni ei drosglwyddo'n ôl nawr?' Yna, rhaid dod â'r bartneriaeth i ben.

Gwaith partneriaeth â chynghorau cymuned a thref eraill

- 5.30 Roedd barn y cyfranogwyr ynghylch potensial a manteision trefniadau clystyru â chynghorau eraill yn aml yn fwy cadarnhaol na negyddol. Cyfeiriodd llawer at yr awydd i ddarparu gwasanaethau ar y cyd a'r posibilrwydd o arbed arian ac adnoddau drwy arbedion maint.

Mae [clystyru] yn ddull synhwyrol o drosglwyddo asedau - os nad yw awdurdodau'n uno, mae clystyru'n gwneud llawer o synnwyr, yn sicr pan fydd cynghorau cymuned bach yn cydweithio.

- 5.31 Tybiwyd hefyd fod clystyru'n gyfle da i rannu gwybodaeth am drosglwyddo asedau a materion rheoli. Fodd bynnag, roedd llai o frwdfrydedd dros uno cynghorau cymuned yn llwyr, gyda llawer yn gweld gwerth cynnal natur unigryw eu cyngor a'u cymuned, ac yn awyddus i wneud hynny, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

C1: [...] bydd unigolion sy'n credu, yn dal i gredu, yn y gymuned leol ac na allwch chi greu rhywbeth o'r fath mewn ardal ehangach.

C2: Ie, rwy'n gallu deall hynny.

C1: [Cyngor X] yw [Cyngor X], [Cyngor Y] yw [Cyngor Y].

- 5.32 Er mwyn i gynghorau cymuned wneud trefniadau clystyru effeithiol o ran darparu gwasanaethau, tybiwyd y byddai angen iddynt wneud hynny gyda phartneriaid priodol yn gyntaf. Roedd y cyfranogwyr o blaid clystyrau â chynghorau sy'n agos atynt o safbwynt daearyddol ac sy'n rhannu'r un diddordebau. Byddai hefyd angen ystyried pa gynghorau sy'n cyfrannu'n ariannol at ddarparu'r gwasanaeth, a faint, ar

sail gymesur ar gyfer pob cyngor. Byddai hefyd angen ystyried cyfrifoldebau a dull gweithredu'r clwstwr yn ofalus, a chytuno arnynt ymlaen llaw, gan ofyn i gorff neu unigolyn annibynnol hwyluso'r broses o bosibl. Dywedodd y cyfranogwyr y byddai angen penodi clerc arweiniol i arwain trafodaethau mewn meysydd lle'r oedd gan y clerc neu'r cyngor arbenigedd.

Rwy'n credu mai'r hyn y byddai angen ei wneud fyddai ystyried y trefniadau llywodraethu a'r cymorth i'w sefydlu – pwy sy'n llywodraethu, sut i lywodraethu, pa aelodau sy'n rhan ohono, sut y bydd y cyllid yn gweithio... 'Reit, dyma fodel y gall pob un ohonom ymrwymo iddo'... Efallai na fydd yn wasanaeth diriaethol; gallai fod yn waith datblygu – lle'r ydych yn ymgysylltu â swyddog datblygu cymunedol, yn rhannu'r gost, ac mae'r swyddog datblygu cymunedol hwnnw'n gweithio mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol yn rhoi cyfle i gymunedau lleol wneud cais am grantiau, a'r mathau hynny o bethau.

- 5.33 Mewn rhai rhanbarthau, roedd agwedd negyddol tuag glystyru, a hynny oherwydd nad oedd trefniadau clystyru, siarteri a chytundebau lefel gwasanaeth wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol. Mewn rhai achosion, roedd problemau o ran lleoliad cynghorau a'u perthynas â'i gilydd yn fwy aciwt am resymau daearyddol ac ieithyddol.

C1: Mae'n ymwneud â deall natur y cymunedau, a byddai'n braf pe bai'r ardal yn wastad. Byddai modd ei rhannu, yn debyg i system grid America – ond dyw Cymru ddim fel hynny.

C2: Fe ddigwyddodd enghraifft glasurol nôl yn 1984 pan gafodd set newydd o ffiniau eu llunio, gydag X ac Y yn yr un ward oherwydd mai dim ond milltir oedd rhyngddynt. Bu'n rhaid i ni ddweud wrthyn nhw mai [mynydd] oedd y gofod yn y canol – 'o'.

- 5.34 Roedd y cynghorau hefyd yn ystyriol o gof diwylliannol hir cymunedau. Mae hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol leol, gan gynnwys treftadaeth ieithyddol, yn chwarae rôl bwysig o ran diffinio lle mae'r ffiniau 'gwirioneddol' rhwng cymunedau.

Rwy'n credu bod rhaid i chi fod yn ofalus hefyd am resymau diwylliannol, oherwydd fe all fod hanes rhwng dau bentref... Fe fyddai fel ceisio rhoi pentref yn Swydd Gaerhifryn gyda phentref yn Swydd Efrog. Byddai waeth i chi godi waliau neu roi cleddyfau iddyn nhw... Os yw'n mynd i ddigwydd, bydd rhaid i

chi weld a fydd yn digwydd yn naturiol yn gyntaf, ac os nad yw – ymchwilio i weld pam nad yw'n digwydd, oherwydd fe all fod rhesymau hanesyddol.

Y cymorth sydd ar gael i reoli gwasanaethau ac asedau

- 5.35 Ymhlith y cymorth sydd ar gael i gynghorwyr a chlercod ar hyn o bryd mae'r cyngor a ddarperir gan gyrff fel Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod eu cynghorau'n aelodau ohonynt – ond, o ran y rheini nad oeddent yn aelodau, roedd y rhesymau'n aml yn rhai ariannol. Gan fod ffioedd aelodaeth Un Llais Cymru'n dibynnu ar faint praesept cyngor, roedd rhai cynghorau'n teimlo bod y ffi'n anghymesur â'r manteision ymddangosiadol a geir o fod yn aelod o Un Llais Cymru.

Roedd y cyngor yn gyndyn o ymuno [ag Un Llais Cymru] i gychwyn oherwydd mai hon yw'r dref fwyaf yn [lleoliad] ar sail poblogaeth – sef yr hyn y mae'r ffi'n seiliedig arno – ac roedd yn teimlo bod lefel y cymorth a geir am ein ffi ni o £6,000 yn anghymesur â lefel y cymorth y mae cynghorau llai sy'n talu £200 yn ei gael.

- 5.36 Yn gyffredinol, roedd y farn ynghylch natur ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir gan Un Llais Cymru'n gymysg. Ymhlith y manteision a bennwyd gan y rheini a oedd yn aelodau ohono roedd y cyfleoedd rhwydweithio da sy'n codi o'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd a drefnir gan y sefydliad, yr ymateb cyflym i geisiadau am wybodaeth a chymorth, a gwybodaeth y sefydliad am faterion sy'n ymwneud â'r cod ymddygiad a throsglwyddo asedau. Er bod Un Llais Cymru ar y cyfan yn dda o ran darparu cyngor cyffredinol, os yw'r ymholiad yn fwy penodol, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod ffynonellau eraill, gan gynnwys cynghorau cymuned eraill neu arbenigwyr proffesiynol, yn fwy buddiol.

- 5.37 Roedd cynghorau hefyd yn tybio bod rhai bylchau yn yr hyfforddiant penodol a ddarperir i glercod, a mynegodd rhai cynghorau bryderon ynghylch safon yr hyfforddiant a gallu Un Llais Cymru i roi cyngor arbenigol pan fydd ei angen. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod cost yr hyfforddiant yn gallu bod yn afresymol, yn enwedig ar adegau prysur yn y cylch etholiadol.

Doedd safon [yr hyfforddiant] ddim yn uchel iawn, ac rwy'n credu y gallai'r safon fod wedi bod yn uwch, a bod yn onest.

Mae bylchau yn yr hyfforddiant a ddarperir [gan Un Llais Cymru] i glercod.

Mae'r hyfforddiant i gynghorwyr yn eithaf defnyddiol. Yn ail, gall fod yn eithaf

drud gan fod rhaid talu am bob modiwl. Felly, pe bawn i'n mynd ar y cwrs, byddai'n 5 [modiwl] x £35.

- 5.38 Tybiwyd hefyd fod cost aelodaeth Un Llais Cymru, a'r gost o gymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol fel aelod, yn rhy ddrud.

Ar fore'r cyfarfod cyffredinol blynyddol, roedd rhyw fath o gynhadledd, dydw i ddim yn siŵr beth oedd e – gweithdy neu rywbeth tebyg cyn y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn y prynhawn. Roedd rhaid talu rhywbeth fel £30 i fynd i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol – rydyn ni eisoes yn rhoi swm eithaf sylweddol iddyn nhw bob blwyddyn...

- 5.39 Roedd teimlad bod yr hyfforddiant a ddarperir gan Un Llais Cymru'n ddefnyddiol o ran cadarnhau'r hyn y mae clercod eisoes yn ei wybod²⁵, ond nad yw'r sesiynau'n ddigon hir nac yn ddigon manwl i ddysgu llawer ar wahân i'r dyletswyddau sylfaenol y mae'n ofynnol i glerc ymgymryd â nhw.
- 5.40 Roedd rhai clercod yn mynd i gyfarfodydd a hwylusir gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ddwy neu dair gwaith y flwyddyn, ac roeddent yn tybio bod themâu a thestunau'r cyfarfodydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol. Er enghraifft, bydd un o'r cyfarfodydd nesaf yn canolbwyntio ar lesiant ac mae hwn yn fater pwysig yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- 5.41 Pan fydd angen cyngor mwy arbenigol i ddatrys problem o ran trosglwyddo neu reoli ased neu wasanaeth, mae'r clercod yn troi at eu rhwydweithiau anffurfiol, gan gynnwys clercod cynghorau cymuned eraill yn yr ardal a thu hwnt, drwy fforymau ar-lein.
- 5.42 Gwnaeth llawer o'r cyfranogwyr hefyd sylwadau cadarnhaol ynghylch ymateb eu hawdurdod lleol ar faterion penodol, gan nodi bod perthynas dda wedi'i meithrin hwnt ac yma sy'n hwyluso camau i gyfnewid gwybodaeth am lywodraethu, cyllid neu ymholiadau cyfreithiol.

Rydym ni [yn y cyngor cymuned] yn ffodus iawn, gan fod dau o aelodau'r cyngor cymuned hefyd yn aelodau o'r cyngor bwrdeistref sirol, felly maent yn

²⁵ Ar hyn o bryd, mae Un Llais Cymru yn darparu hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr yn unig. Fodd bynnag, adroddodd clercod a gymerodd rhan mewn grwpiau ffocws eu bod hefyd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant Un Llais Cymru.

gallu rhoi adborth [i'r naill a'r llall] – rydym hefyd yn ffodus bod un ohonynt yn aelod o'r cabinet a bod un ohonynt wedi bod yn bennaeth [adran yn y prif awdurdod] felly – felly, po uchaf i fyny'r ysgol, po uchaf y llais, rydych chi'n dueddol o allu sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud.

- 5.43 Fodd bynnag, dywedodd rhai cynghorau nad oedd y cyngor yn aml yn ymateb i geisiadau am gyngor ar ôl trosglwyddo gwasanaeth neu ased, nac yn ystyried ceisiadau o'r fath.

Fe wnaethon ni ysgwyddo cyfrifoldeb dros un o ardaloedd chwarae'r [prif awdurdod] ac, yn anffodus, ar ôl achos o fandaliaeth, fe gafodd plentyn ei anafu. Fe ffoniais i swyddogion [y prif awdurdod] i ofyn am gymorth a chynghor ar sut i ymdrin â'r sefyllfa oherwydd nad oedd erioed wedi digwydd o'r blaen, a'r ateb a gefais oedd 'Na, eich ardal chwarae chi yw hi, rhaid i chi ddelio â'r mater.' Fe ddarparwyd yr holl gymorth gan yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch...

- 5.44 Roedd hyn wedi bod yn broblem i rai cynghorau heb brofiad o'r ased neu'r gwasanaeth o dan sylw, ac fe wnaethant bwysleisio'r angen i drosglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd yn fwy graddol er mwyn iddynt feithrin eu gallu i ymgymryd â'u cyfrifoldebau dros gyfnod.

- 5.45 Roedd rhai clercod wedi cwblhau cymhwyster CiLCA, ond dywedodd y rheini a wnaeth sylwadau ar ei effeithiolrwydd nad oeddent yn teimlo ei fod yn hanfodol i fod yn glerc effeithiol, a bod y sgiliau yr oeddent wedi eu meithrin yn ystod eu gyrfaedd, er enghraifft ym maes cyfrifyddiaeth neu'r gyfraith, yn fwy defnyddiol iddynt na'r cymhwyster cyffredinol. Roedd yr ymateb i'r posibilrwydd y byddai'r cymhwyster yn dod yn orfodol hefyd yn negyddol ar y cyfan.

Dydw i ddim yn credu y dylid gofyn i gynghorwyr gael clercod tref sydd wedi cael hyfforddiant CiLCA. Dydw i ddim yn credu bod hynny'n iawn gan mai dim ond y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol sy'n cynnig y cymhwyster hwnnw. Hefyd, mae gan lawer ohonom gymwysterau proffesiynol. Rwy'n gyfrifydd cymwysedig. Mae eraill yn gyfreithwyr cymwysedig. Mae [clerc] yn ysgrifennydd cwmni.

- 5.46 Bu'r cyfranogwyr hefyd yn trafod pa mor ddefnyddiol oedd y deunydd cyfathrebu yr arferai Llywodraeth Cymru ei rannu â'r sector.

Roedd Llywodraeth Cymru'n arfer cyhoeddi cylchlythyr rheolaidd a oedd yn cynnwys llawer o wybodaeth am yr hyn a oedd yn digwydd yn y sector cyngorau cymuned a thref. Dydw i ddim yn gwybod ai fi sydd heb sylwi arno neu heb ei weld. Roeddwn i'n arfer ffeindio hwnnw'n eithaf defnyddiol oherwydd ei fod wedi'i ysgrifennu'n eithaf da. Roedd yn eithaf hawdd ei ddeall ac fe allech chi ei anfon at yr aelodau a dweud wrthyn nhw 'edrychwch ar y diweddariad hwn am yr holl bethau rydw i wedi bod yn sôn amdanynt nhw dros y misoedd diwethaf'.

- 5.47 Mae'n ymddangos bod y diweddariadau rheolaidd hyn yn eithaf defnyddiol oherwydd eu bod yn rhoi crynodeb a diweddariad rheolaidd a hawdd ei ddeall i'r cyngorau am yr hyn a oedd yn digwydd yn y sector.

Darparu gwasanaethau a rheoli asedau yn y dyfodol

- 5.48 Wrth ystyried dyfodol y cyngorau cymuned o ran ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau, a'u rheoli, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn awyddus i ail-lunio'r arferion a oedd wedi ennill eu plwyf a'r berthynas rhyngddynt a'u prif bartneriaid i wella'r ffordd y mae'r cyngorau'n gweithredu. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn teimlo'n gryf bod angen i'r cyngorau eu hunain lywio'r agenda o ran y cyfrifoldebau y maent yn eu hysgwyddo a'r modd y maent yn gweithredu.

Rwy'n deall mai diben cyngorau tref yw gwasanaethu'r gymuned ac y dylai'r gwasanaethau a'r asedau yr ydym yn gyfrifol amdanynt fod at ei defnydd hi yn bennaf. Ond, i ategu hyn, rhaid i chi gael cynllun busnes a fydd yn eich galluogi i godi'r arian sydd ei angen i wella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

- 5.49 O gyflwyno'r newid hwn, roedd y cyngorau'n teimlo y byddent yn cael eu llywio lai gan alwadau'r awdurdod lleol o ran trosglwyddo gwasanaethau ac asedau, ac y gallent gael mwy o annibyniaeth o ran y cyfrifoldebau y maent yn eu hysgwyddo. Awgrymwyd y byddai modd ei seilio ar strategaeth i'w rhoi ar waith, er enghraifft, dros dymor y cyngor, gan gynnwys cynlluniau i gynorthwyo busnesau, i ymgysylltu â'r gymuned, i gynyddu incwm y cyngor er mwyn darparu gwasanaethau a rheoli asedau, ac i gael mwy o werth am arian o'r gwasanaethau a ddarperir.

5.50 Mynegwyd syniadau clir ynghylch rôl cynghorau cymuned a thref mewn perthynas â sefydliadau eraill. Roedd un cyngor o'r farn mai rôl y cyngor oedd cydgysylltu'r gwasanaethau neu'r asedau a ddarperir (mewn rhai achosion gan sefydliadau cymunedol eraill), gyda Llywodraeth Cymru'n chwarae ei rhan i wneud yn siŵr bod cynghorau cymuned a thref yn cael lle mwy amlwg ym maes llywodraeth leol yn fwy cyffredinol. Y gobaith oedd y byddai hyn yn rhoi mwy o ddilysrwydd i'r sector, gan ei gwneud yn haws iddo gael ei gynnwys mewn ymgynghoriadau ar faterion troswaol sy'n effeithio arnynt, fel deddfwriaeth allweddol, a chael ei ystyried fel cyfranogwr cyfartal ac annibynnol mewn penderfyniadau ynghylch trosglwyddo gwasanaethau ac asedau.

5.51 Tybiwyd bod y posibilrwydd o gynyddu eu cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau'n dibynnu ar eu gallu i wella eu hadnoddau, naill ai drwy gynyddu nifer y staff neu drwy gynhyrchu mwy o incwm. Ym marn y cyfranogwyr, dylid mynd ati i wneud yr ail o'r rhain drwy sicrhau bod y gymuned yn chwarae mwy o ran yn y broses benderfynu a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a rheoli asedau, a hynny i oresgyn gwrthwynebiad y preswylwyr rhag talu mwy. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn gwrthwynebu cynyddu'r praesept.

Does dim arian yno – does neb am roi eu cyngor – does yr un cynghorydd am gynyddu'r praesept – fyth!

Hwylusydd: Felly, beth yw'r terfyn, yn eich barn chi, o ran yr hyn y gallai pentrefi fod yn gyfrifol amdano?

C1: Pe bai'r cyfan yn dibynnu arna i, fawr ddim. Dydw i ddim yn credu y byddem ni am weld y praesept yn cynyddu llawer mwy, a dyna fydd yn penderfynu [beth yw'r terfyn].

5.52 Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gynyddu incwm y cynghorau ochr yn ochr â dyhead mwy cyffredinol i ymgysylltu â'r gymuned er mwyn iddi ddeall yr hyn y mae'r cynghorau cymuned a thref yn ei wneud ac annog mwy o amrywiaeth o bobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol neu hyd yn oed i sefyll i gael eu hethol i'r cyngor.

5.53 Roedd cynghorau'n tybio eu bod mewn sefyllfa dda i ddeall hanes, hunaniaeth ac anghenion eu cymunedau, ond roeddent yn aml yn teimlo y gallent wneud mwy i fanteisio ar y gweithgareddau y maent eisoes yn ymgymryd â nhw i ymgysylltu ac i ymgynghori'n amlach ac yn fwy effeithiol â'u cymunedau. Roeddent yn cydnabod y

byddai angen iddynt ddefnyddio gwahanol ddulliau o ymgysylltu i ddenu grwpiau mwy amrywiol i ddangos diddordeb ym musnes y cyngor ac i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.

Mae 99 y cant o'r cynghorwyr wedi cyrraedd oedran penodol... Y brif broblem yw sut i fynd â'r sector cynghorau cymuned a thref allan at y boblogaeth gyffredinol mewn cymunedau? Â phob parch... dydw i ddim yn sôn am rai 16-26 oed. Rwy'n sôn am rai 26-40 oed gan fod pob cyngorydd yn cael ei ethol am dymor o bedair neu bum mlynedd yn dibynnu ar yr hyn y mae'r aelod cabinet am ei wneud. Os ydych chi'n cael eich ethol yn 40 oed, rydych chi'n 45 erbyn diwedd y tymor. Bu sôn am atal cynghorwyr rhag cael eu hethol am fwy na thri thymor.

- 5.54 Bu'r cyfranogwyr yn trafod yr angen i ymgysylltu â grwpiau o wahanol oedran a chefnidiroedd ethnig a grwpiau â gwahanol ddiddordebau cymunedol. Roedd y cyngorau hynny a chanddynt gynrychiolwyr ieuenctid neu ddiddordeb mewn sefydlu panel ieuenctid hefyd yn awyddus i ystyried sut i gael y budd mwyaf ohono ac i annog pobl iau i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol.

Rydw i wedi'i weld yn gweithio yn [tref] a [tref]... gael Cyngor Ieuenctid. Mae'n dibynnu a yw'r cyngor am wneud hynny ai peidio. Ond rwy'n credu ei fod yn hanfodol... sut maen nhw'n mynd i ymgysylltu â phobl ifanc, gwneud gwaith ieuenctid, yn hytrach na dim ond rhoi arian grant i glybiau ieuenctid, mae angen ymgysylltu mwy.

- 5.55 Bu'r cyngorau'n trafod yr angen i ymgynghori'n fwy pwrpasol â chymunedau, ac roeddent yn awyddus i gael canllawiau ar sut i ymgynghori a sut i wneud gwell defnydd o'r canfyddiadau. Roeddent hefyd yn teimlo bod angen hyder, sgiliau ac adnoddau ar gynghorau i droi rhai o ganlyniadau cadarnhaol digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol yn gyfranogiad mwy helaeth ac amrywiol mewn democratiaeth leol.

Mae'n rhaid i chi annog pobl, ond mae'n rhaid i chi fynd yn ôl i lefel yr ysgol. Mae'n rhaid i chi gael plant ysgol i ddeall sut mae llywodraeth leol yn gweithio... Ond mae'n rhaid iddo ddod ganddyn nhw, oherwydd os byddwch chi'n ceisio mynd i'r ysgol, byddan nhw'n meddwl eich bod chi'n pregethu. Mae'n rhaid i chi wneud iddo ddod y ffordd arall.

- 5.56 Cafwyd peth cydnabyddiaeth o'r angen i ddefnyddio technoleg symudol a'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu rôl a gwaith y cyngor. Roedd hyder y cyfranogwyr o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a pha mor gysurus yr oeddent i wneud hynny, yn amrywio. Wrth ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, dylid ystyried gallu presennol cyngorau bach a gwledig o ran y cysylltedd band eang cyfyngedig a'u cyfarpar TG.

Mae'n rhaid i ni ddysgu i gyfathrebu'n well, on'd oes? Y gwir amdani yw bod pob un o'n cyfarfodydd yn ymwneud â'r gymuned. Does dim un cyfarfod nad yw'n effeithio ar y gymuned. Felly, rydyn ni'n awyddus i gael [yr etholwyr] yno...

Cymorth ar gyfer y sector yn y dyfodol o ran rheoli gwasanaethau ac asedau

- 5.57 Yn y sesiwn olaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa fath o gymorth yr oedd ei angen arnynt i'w cynorthwyo i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau, a'u rheoli. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth ddylid ei gynnwys mewn "pecyn cymorth" posibl, ar ba ffurf y dylai'r cymorth hwnnw fod, a phwy ddylai fod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu.

Offer a chanllawiau

- 5.58 O ran datblygu "pecyn cymorth", roedd y cyngorau'n awyddus i bwysleisio bod angen i'r hyn a gynhyrchir gael ei gymeradwyo a bod rhaid iddo weithio i'r cyngorau, eu partneriaid a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae dwy ochr [i'r gwaith o ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau a gwasanaethau]. [Mae cyngorau] yn gweithio mewn partneriaeth ac mae er budd y gymuned.

- 5.59 Pwysleisiodd y cyngorau hefyd fod angen i'r cymorth fod yn hygyrch ac yn gydlynus i'r naill barti a'r llall:

Felly, beth bynnag y byddwch chi'n penderfynu ei gynnwys yn y pecyn cymorth, bydd rhaid iddo fod yn addas i'r ddau barti. Felly, mewn gwirionedd, bydd yn ganllaw ar sut i drosglwyddo gwasanaethau mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod modd iddynt barhau i weithio."

- 5.60 Roedd y cyfranogwyr hefyd yn teimlo bod diwyg unrhyw "becyn cymorth" yn bwysig. Gan fod eu hamser yn brin, dywedodd y clerod yn ddiymdroi fod angen i'r cymorth fod yn hwylus i'w ddefnyddio, yn ddiddorol ac yn ymarferol ar gyfer eu hanghenion.

Ac rwy'n credu bod rhaid i ni fod yn fwy ystyriol o'r ffordd yr ydym yn cynorthwyo ein gilydd. A chael pobl i rannu [arferion gorau]. Does dim diben i [gyngor x], [cyngor y] a phwy bynnag arall dreulio oriau'n ymchwilio i rywbeth os yw cyngor arall eisoes wedi mynd drwy'r broses a chanfod na fydd byth yn dwyn ffrwyth. Ffordd o rannu arferion gorau, yr hyn sydd wedi gweithio neu'r hyn sydd heb weithio, fel nad yw pobl yn gwastraffu amser.

Mae'r ffordd y mae'r ddogfen yn cael ei llunio'n bwysig. Dylech ystyried defnyddio pethau fel blychau fel hyn [i wahanu'r testun], gwahanol liwiau... fel arall mae'n ddogfen ddiflas arall a bydd rhywun yn meddwl 'Ow, mae'n rhaid i mi balu drwy hon'. Fe allech chi ddefnyddio categorïau penodol. Felly, mae angen i chi ystyried diwyg y pecyn cymorth.

- 5.61 O ran cynnwys y "pecyn cymorth" ar gyfer ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau a gwasanaethau a'u rheoli, gwnaed yr awgrymiadau a ganlyn yn gyson.
- 5.62 **Darparu gwybodaeth gyffredinol / canllawiau manwl pan fydd cyngor yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaeth neu ased.** Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr fod angen creu canllaw neu restr wirio i lywio'r broses o drosglwyddo gwasanaeth neu ased yn well. Roeddent yn gobeithio y byddai'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn a ddisgwylir gan y ddau barti cyn trosglwyddo, yn ystod y broses, ac ar ôl trosglwyddo, ac y byddai hyn yn helpu i sefydlu arferion safonol.
- 5.63 Bu'r cynghorau'n trafod yr angen i gael canllaw cyffredinol a fyddai'n rhestru'r prif bethau i'w hystyried wrth gynllunio i drosglwyddo ased neu wasanaeth, wrth ymgymryd â'r broses a'i chwblhau, ac wrth gynnal yr ased neu'r gwasanaeth ar ôl hynny. Dylai gynnwys trosolwg ar y gweithdrefnau caffael a diwydrwydd dyladwy a sut i asesu risgiau a manteision trosglwyddo'r ased neu'r gwasanaeth. Ochr yn ochr â'r canllawiau hyn, dylid darparu adnoddau a thempledi perthnasol, fel y rheini sydd eu hangen i lunio cynllun busnes neu i sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth.

Mae angen iddo fod yn rhywbeth 'oddi ar y silff' – [...] Felly, rhestr gynhwysfawr o'r hyn sydd ei angen er mwyn i bobl benderfynu, ar sail eu capasiti, beth sydd ei angen arnynt... Yn gyffredinol, dylai gynnwys y cysyniad o gostio oes gyfan er mwyn i chi allu gweld ... pa bryd y bydd angen i chi gynllunio i atgyweirio neu ddisodli ased. Er mwyn i chi gael syniad o'r costau, dros gyfnod, a rheoli'r gost honno.

- 5.64 **Canllawiau clir ynghylch y prif feysydd arbenigedd o ran darparu gwasanaethau.** I fynd i'r afael â'r bylchau gwybodaeth, tybiwyd y byddai'n fuddiol i'r cynghorau gael canllawiau wedi'u teilwra ynghylch sut i roi gwasanaethau penodol ar waith. Gan fod y prif awdurdodau'n gofyn i gael trosglwyddo gwasanaethau ac asedau cynyddol arbenigol i'r cynghorau cymuned a thref, mae'r cynghorau'n galw am asesiad i bennu ai trosglwyddo yw'r ateb mwyaf priodol ac, os felly, am drafodaeth ynghylch y cyfrifoldebau ac am ganllawiau ar sut i reoli a chyflawni'r cyfrifoldebau ychwanegol.

Roeddent hefyd yn bwriadu cau Canolfan Chwaraeon [x], ein canolfan hamdden fach ni. Ac fe ofynnwyd i ni, fel cyngor cymuned, a fyddai modd i ni ei rhedeg. Fe wnaethon ni fel cyngor ystyried sut y gallen ni ysgwyddo cyfrifoldeb drosti, a oedd modd i ni wneud hynny'n ariannol. Ond, yn y pen draw, doedd dim modd i ni wneud hynny. Roedd y prosiect yn rhy fawr, ac mae'r cyfrifoldeb i gyd arnoch chi fel clerc. Mae'r cynghorwyr yn cyfrannu, ond y clerc sydd bob amser yn gyfrifol am redeg y gwasanaethau hyn ac roedd yn ormod. Roedd tu hwnt i'm rôl i fel clerc.

- 5.65 **Dylai'r wybodaeth fod yn hawdd i gael gafael arni.** Roedd y cyfranogwyr yn gobeithio y byddai'n datrys y broblem nad yw clercod yn sicr ymhle i gael gafael ar wybodaeth. Roeddent yn tybio y byddai'r wybodaeth yn fwy hygyrch pe bai ar gael mewn adnodd canolog ar-lein sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ac sydd wedi'i rannu yn ôl themâu.
- 5.66 **Canllawiau ar ddefnyddio pwerau'n effeithiol.** Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael canllawiau i gynorthwyo'r sector i egluro'r berthynas rhwng y pwerau sydd ar gael i'r cynghorau a'u cyfrifoldebau.
- 5.67 **Cymorth i baratoi cynllun allweddol ar gyfer adnoddau ar ôl trosglwyddo.** Un o themâu amlwg y grwpiau ffocws oedd prinder adnoddau'r cynghorau cymuned a thref i gyflawni eu cyfrifoldebau cynyddol. Roedd llawer yn cydnabod bod eu capasiti i ymgymryd â throsglwyddiad yn lleihau'n gynyddol er gwaethaf ymdrechion i redeg gwasanaethau'n fwy effeithlon, a hynny'n bennaf oherwydd prinder staff a diffyg cyfle i gynyddu'r praesept wrth i'r cyfrifoldebau gynyddu.

Mae'r cyngor eisiau i chi wneud pethau sydd tu hwnt i'ch gallu a dyw e ddim yn gallu gweld tu hwnt i hynny. 'Ie, ond fe allwch chi redeg hwnnw o'ch cartref fin nos' – 'na, alla i ddim!'

- 5.68 Pwysleisiodd y cyngorau y byddent yn croesawu cymorth i gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen i reoli gwasanaeth neu ased.
- 5.69 **Trafod ac egluro hyd a lled cysylltiadau allweddol.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n fuddiol amlinellu'n gliriach (o bosibl ar ffurf memorandwm cyd-ddealltwriaeth) y berthynas rhwng cyngorau cymuned, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn y sector o ran darparu gwasanaethau ac asedau er mwyn i bawb ddeall eu cyfrifoldebau. Drwy bennu swyddogaethau clir yn gynnar yn y broses o drafod trosglwyddo gwasanaeth neu ased, roedd y cyfranogwyr yn gobeithio y byddai'r cyngorau'n teimlo eu bod ar sail fwy cyfartal â'r prif awdurdod.
- 5.70 **Cymorth byrdymor gan y prif awdurdod ar ôl trosglwyddo.** Roedd y cyngorau'n teimlo y byddai'n fuddiol cael cymorth byrdymor gan y prif awdurdod ar ôl iddynt ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau.
- Efallai bod angen rhoi rhywbeth yn y polisi neu'r prydles i y gallwch chi ei lofnodi i ddweud y byddan nhw'n cynnig rhyw fath o gyngor ar lafar neu ar bapur am gyfnod penodol tra'r ydych chi'n ymgynefino... Rwy'n credu bod angen cynnwys cyfnod cynefino mewn prydles.*
- 5.71 Yn yr un modd, roedd rhai cyngorau'n cydnabod yr angen am gyngor ar sut y gallai cyngorau cymuned a thref mwy gyfathrebu a chydweithio â chynghorau llai ar draws eu hawdurdod er mwyn mynd ati mewn ffordd gyson i reoli asedau a gwasanaethau cymunedol i gyflawni arbedion maint.
- 5.72 **Canllawiau clir ar sefydlu a chynnal siarteri a chytundebau lefel gwasanaeth.** Cyfeiriodd llawer o'r cyfranogwyr at anawsterau o ran sefydlu a chynnal cytundebau lefel gwasanaeth â chynghorau cymuned a thref eraill. Byddent yn croesawu cyngor ac arbenigedd o ffynonellau eraill i ddeall sut i sicrhau bod y cytundebau hyn yn fwy effeithiol.
- 5.73 **Cyngor ac arferion gorau o ran ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned.** Roedd y cyngorau'n teimlo y byddent yn elwa o gael canllawiau ar sut i fynd ati i ymgynghori'n well, sut i reoli materion sy'n codi o'r gweithgareddau ymgynghori, a sut i ddadansoddi a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i gyflawni newidiadau a gwelliannau.

Cyngor - sut ydych chi'n mynd ati i ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned a sut ydych chi'n defnyddio'r canlyniadau'n effeithiol? [...] ac felly rydyn ni eisiau

iddyn nhw roi blaenoriaethau i ni ac rydyn ni eisiau iddyn nhw gymryd rhan yn y broses a deall pam fod angen cynyddu'r praesept.

- 5.74 Roedd y cyfranogwyr hefyd yn teimlo bod angen meithrin cysylltiadau â phartneriaid, a datblygu sgiliau ac offer, fel adnoddau print i ymgysylltu â'r gymuned, er mwyn i'r cynghorau adeiladu eu proffil ac er mwyn i unigolion, yn eu tro, ddod i ddeall yr hyn y mae'r cyngor yn ei wneud.

Y peth anoddaf o ran ymgysylltu yw cael pobl i ymgysylltu. Bob tro y byddwn ni'n mynd â stondin i ddigwyddiad, bydd pobl yn dod draw ac yn gweld mai'r cyngor ydyn ni, a byddan nhw'n dweud 'o, na, y cyngor ydych chi' ac yn rhedeg i ffwrdd!

- 5.75 Dywedodd rhai cynghorau eu bod yn awyddus i gael canllawiau ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â phobl iau. Gallai'r canllawiau nodi pa blatfformau a argymhellir at ba ddiben a pha gynulleidfa, cynnwys priodol ac effeithiol, cryfderau a gwendidau gwahanol sianeli, a dolenni at esiamplau o farchnata cymdeithasol llwyddiannus.

Cyfartaledd oedran poblogaeth Facebook yw 24-40 oed. Os ydych chi am gysylltu â'r ieuenctid, defnyddiwch Snapchat ac Instagram. Dyna'r dyfodol ac, yn fy marn i, dyna beth ddylech chi ei roi yn eich pecyn cymorth. Rydyn ni i gyd yn rhythu ar ein hagendâu a'n gwaith papur, ond dydy'r bobl ifanc ddim, maen nhw am ddefnyddio Snapchat ac Instagram. Mae angen i'r sector fod yn barod i wneud hynny.

- 5.76 **Tynnu sylw at arferion gorau.** Dylid cofnodi esiamplau o brosesau trosglwyddo a rheoli sydd wedi bod yn arbennig o arloesol neu lwyddiannus ar ffurf astudiaethau achos o bosibl, a'u darparu i'r sector i danio syniadau ymhlith cynghorau eraill. Roedd y cynghorau wedi cael budd o gynnwys deunydd cyfathrebu rheolaidd am faterion a oedd yn berthnasol i'r sector cynghorau cymuned a threfoherwydd bod y cynnwys wedi'i ysgrifennu'n dda a'i fod wedi'i deilwra at eu dibenion nhw, ac oherwydd bod modd iddo helpu'r cynghorau i ymgysylltu â'u haelodau a'r gymuned ehangach.

Roedd Llywodraeth Cymru'n arfer cyhoeddi cylchlythyr a oedd yn cynnwys llawer o wybodaeth am yr hyn a oedd yn digwydd yn y sector cynghorau cymuned a thref. Roeddwn i'n arfer ffeindio'r rheini'n eithaf defnyddiol oherwydd eu bod yn hawdd eu deall a bod modd i chi eu hanfon at yr aelodau

a dweud 'dyma ddiweddariad ar y pethau rydw i wedi bod yn sôn wrthych amdanyn nhw dros y misoedd diwethaf'.

- 5.77 **Cyfarwyddiadur o enwau cyswllt yn yr awdurdod lleol.** Roedd y cyfranogwyr yn tybio y byddai'n ddefnyddiol pe bai gan y cynghorau gyfarwyddiadur o enwau cyswllt yn yr awdurdod lleol er mwyn i'r cynghorau cymuned wybod pwy i gysylltu ag ef pan fydd ganddynt ymholiad penodol. Roeddent yn gobeithio y byddai hyn yn lleihau'r amser sy'n cael ei wastraffu yn ceisio cael hyd i'r swyddog priodol ar gyfer mater penodol.
- 5.78 O ran ffurf unrhyw gymorth a ddarperir, awgrymodd llawer y byddai'n well ganddynt gael canllawiau ar-lein, yn hytrach na dogfennau caled, fel bod modd rhannu'r canllawiau'n adrannau a'u diweddarau'n rhwydd. Fodd bynnag, nid oedd pawb o blaid fformatau ar-lein at bob diben a dywedodd y cynghorau fod angen adnoddau print i'w cynorthwyo â'u gweithgareddau allgymorth ac ymgysylltu. Awgrymwyd hefyd y byddai modd i'r cyngor a'i brif awdurdod gynnal sesiynau galw heibio i drafod materion yn rheolaidd, a hynny fel ffordd dda o rannu gwybodaeth a meithrin perthynas dda.

Hyfforddiant

- 5.79 Trafodwyd ffyrdd o wella'r hyfforddiant a gwnaed yr awgrymiadau a ganlyn.
- 5.80 **Hyfforddiant i gynghorwyr.** Awgrymwyd y dylid darparu rhaglen hyfforddi i gynghorwyr ar hanfodion eu rôl, yn enwedig ar gyfer cynghorwyr newydd, i sicrhau bod pob cynghorydd yn meddu ar yr un wybodaeth.

Seminarau y gallwch chi anfon pob un o'ch cynghorwyr newydd iddo a dweud wrthynt 'os byddwch yn ymgymryd â'r rôl hon, dyma beth fydd angen i chi ei wneud'. Dyna pam rwy'n eithaf hoff o'r bil drafft a oedd yn sôn am hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr, yn ogystal â chlercod, gan ddweud bod rhaid i bob cynghorydd gael hyfforddiant ar y lefel honno [...] dydy [cynghorwyr] ddim yn sylweddoli eu bod yn gyfrifol am adolygiadau perfformiad, cynyddrannau a dyfarniadau cyflog, salwch a rheoli staff.

- 5.81 **Darparu hyfforddiant arbenigol.** I sicrhau bod modd i gynghorwyr a chlercod gael hyd i hyfforddiant arbenigol ynghylch yr asedau y maent yn gyfrifol amdanyn a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, awgrymwyd y dylid pennu cyrsiau perthnasol a'u hysbysebu ymhlith cynghorau perthnasol. Byddai hyn yn darparu mwy o gymorth yn ychwanegol at y canllawiau a ddarparwyd eisoes, ac yn rhoi mwy o

wybodaeth a hyder i'r cynghorau pan fyddant yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau newydd.

- 5.82 **Cynllun mentora i glercod newydd.** Awgrymwyd y dylid sefydlu cynllun lle y gall clercod profiadol fentora clercod newydd i bennu hanfodion y rôl ac i helpu i feithrin eu rhwydweithiau anffurfiol yn y sector.
- 5.83 **Dewis ehangach o ddarparwyr hyfforddiant.** Gofynnwyd ai dim ond Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ddylai gael darparu'r hyfforddiant²⁶, ac a fyddai'n bosibl defnyddio amrywiaeth ehangach o ddarparwyr hyfforddiant. Byddai hon yn ffordd o rannu arferion gorau ac, i rai cynghorau, yn ffordd o gynhyrchu incwm. Awgrymodd eraill y dylai'r awdurdod lleol ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb dros ddarparu hyfforddiant i'r cynghorau.

Ymgysylltu â'r gymuned

- 5.84 Er nad oedd yr ymchwil hon yn canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â'r gymuned, ac er na ofynnwyd yn benodol amdano yn yr arolwg, cododd y mater hwn yn aml yn nhrefodaethau'r grwpiau ffocws. Roedd y rhain yn ddata gwerthfawr i'w hystyried ochr yn ochr â'r trafodaethau am wasanaethau ac asedau, ond dylid eu trin â rhywfaint o ofal oherwydd eu natur anecdotaidd.
- 5.85 Ar y cyfan, roedd y cynghorau'n teimlo eu bod wedi gwneud ymdrech lew i ymgysylltu â'r gymuned, i'w cadw flaenaf yn eu meddwl wrth benderfynu ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu, ac i ymgysylltu â nhw lle bo modd yng nghyfarfodydd y cyngor, drwy gylchlythyrau a thrwy gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd.

Cyngor, a dweud y gwir - sut ydych chi'n mynd ati i ymgysylltu â'r gymuned mewn ffordd effeithiol a sut ydych chi'n defnyddio'r canlyniadau mewn ffordd effeithiol? Rydyn ni ar fin gwneud hynny nawr, rydyn ni am ymgysylltu â'r gymuned wrth benderfynu ar yr hyn y byddwn yn gwario'r praesept arno oherwydd bod llawer o gostau mawr ar y gorwel o ran pob ased.

²⁶ Er y gall cynghorau ddefnyddio unrhyw ddarparwr hyfforddiant y maent yn dymuno, mae'r ymatebion yn awgrymu bod ymwybyddiaeth cyfranogwyr y grwpiau ffocws o ddarparwyr eraill, a sut i gael gafael arnynt, yn isel.

Felly, fe wnes i, a'r aelodau hefyd rwy'n credu, ganfod ei bod yn eithaf defnyddiol cael rhestr o flaenoriaethau y gallwch ei rhannu â'r gymuned i geisio cael rhyw fath o adborth - beth sydd bwysicaf i chi fel cymuned pan fyddwch chi'n talu'ch trethi neu'ch praesept?

- 5.86 Fodd bynnag, fe wnaeth llawer gwestiynu pa mor effeithiol oedd eu dulliau ymgysylltu o ran cael y cyhoedd i ddeall rôl a chyfrifoldebau'r cyngor, gan fod llawer yn dal i'w camddeall, fel diffyg eglurder o ran yr hyn yr oedd y cyfranogwyr yn ei ystyried fel trethiant dwbl am y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

Y peth anoddaf o ran ymgysylltu yw cael pobl i ymgysylltu. Bob tro y byddwn ni'n mynd â stondin i ddigwyddiad, bydd pobl yn dod draw ac yn gweld mai'r cyngor ydyn ni, a byddan nhw'n dweud 'o, na, y cyngor ydych chi' ac yn rhedeg i ffwrdd!

Efallai bod angen rhywbeth electronig, ond mwy caeedig, fel bod modd i bobl anfon rhywbeth i'r swyddfa. Rhywbeth rheolaidd ar wefannau'r cynghorau sy'n dweud, 'Ar hyn o bryd, rydym yn trafod a, b, c. Beth yw'ch barn chi ar y rhain?' A'i fod yno am ryw chwe wythnos. Ond mae angen newid meddylfryd y cyhoedd er mwyn iddynt fod yn fwy parod i ymateb i'r mathau hyn o bethau, ond dydw i ddim yn siŵr sut i wneud hynny.

C1: Wel, dyma'r anhawster rydyn ni'n ei gael, oherwydd bod pawb yn dweud 'wel, ardal chwarae RhCT yw honno'. Wel, nage - mae arwydd mawr yno. Ydyn, maen nhw'n teimlo eu bod yn talu am yr adnodd ddwywaith.

- 5.87 Yn y cyd-destun hwn, mae cynghorau'n ystyried trethiant dwbl yn nhermau codi gormod o dâl ar drethdalwyr am wasanaethau cyhoeddus y mae'r prif awdurdod wedi'u trosglwyddo i'r cyngor. Tybir bod tâl yn cael ei godi ddwywaith pan nad yw'r prif awdurdodau'n addasu treth y cyngor i adlewyrchu'r newid i'w cyfrifoldebau, a bod y trethdalwyr yn talu am y gwasanaeth drwy'r dreth gyngor a thrwy braesept y cyngor.
- 5.88 Drwy ymgysylltu mwy, roedd y cyfranogwyr yn tybio ei fod yn helpu i wahaniaethu rhwng eu rôl nhw a rôl yr awdurdod lleol, ac i egluro'r cyfyngiadau ar allu'r cyngor i ddarparu gwasanaethau. Tybiwyd bod llawer o'r problemau o ran ymgysylltu â'r gymuned yn symptom o'r difaterwch neu'r diffyg amser i ddeall democratiaeth leol ac i gymryd rhan ynddi.

Ar y cyfan, dydy pobl ddim yn gwybod beth yw ein cyfrifoldebau ni o'u cymharu â'r [prif awdurdod] ac maen nhw'n cwyno i ni oherwydd bod y goleuadau stryd yn cael eu diffodd am hanner nos...

- 5.89 Tybiwyd bod hwn yn rhwstr neilltuol rhag ethol cynghorwyr sy'n adlewyrchu'r gymuned yn well, yn enwedig o ran denu mwy o bobl 18-45 oed, menywod a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Mae'n ymddangos bod diffyg amrywiaeth yn parhau o fewn cynghorau, ac mae'n adleisio canfyddiadau'r Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol (2012).

Rydw i wedi ceisio siarad â'r cyngor amdano. Rydw i wedi'i weld e'n gweithio yn [X] ac [Y]... cael Cyngor leuenctid. Mae'n dibynnu a yw'r Cyngor am wneud hynny ai peidio. Ond, yn fy marn i, mae'n hanfodol.

Rydw i'n credu bod angen i ni ddechrau gyda phobl iau. Mae angen iddyn nhw ymgysylltu â ni. Gweld sut mae'r cyngor yn gweithio. Gweld sut gall y cyngor effeithio arnyn nhw.

- 5.90 Mae rhai cynghorau wedi ceisio gwella'r ymgysylltu trwy ddefnyddio gwefannau. O ran y cynghorau hynny nad oedd ganddynt wefan, y prif resymau a roddwyd oedd nad oedd hyn yn flaenoriaeth neu nad oedd ganddynt adnoddau i'w chynnal. Ers hynny, mae'r ffocws ar ymgysylltu wedi arwain at drafodaeth ynghylch a yw cynghorau'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a sut y gellir defnyddio gwahanol blatfformau i gael y budd mwyaf. Roedd barn y cynghorwyr a'r clerod wedi'i hollti o ran a ddylid gwneud hyn, a sut, gyda rhai'n croesawu'r cyfrwng ac eraill yn betrusgar ac yn ansicr ynghylch y manteision.

C1: Yn y gynhadledd ddoe, roedd siaradwr diddorol iawn yn sôn am Facebook a Twitter...

C2: Ond mae hwnnw...

C3: Â phob parch, wna i ddim cyffwrdd ag e...

[...] mae'r pentref wedi creu fforwm ar Facebook. Felly, rydyn ni am roi mwy o bethau i blant ar y cae chwarae, ac fe wnes i ei roi ar Facebook ac fe wnaeth rhai pobl ymateb drwy ddweud 'Dyma beth fyddem ni am ei gael'. Felly, rydyn ni wedi dechrau cyfathrebu â'r gymuned.

- 5.91 Fodd bynnag, roedd agwedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws tuag at ymgysylltu â phobl ifanc mewn ysgolion yn fwy cadarnhaol, a hynny er mwyn iddynt ddod i ddeall democratiaeth leol yn well, a chymryd rhan ynddi, pan fyddant yn ifanc.

Pan oeddwn i yn yr ysgol, chefais i ddim gwybod beth roedd y cyngor yn ei wneud a beth oedd yn digwydd [...] Ond rwy'n credu y dylech chi ddechrau fel plant yn yr ysgol a'u haddysgu yn yr ysgol am yr hyn sy'n digwydd o'u hamgylch.

Dydw i ddim yn gwybod amdano chi, ond byddwn i'n eithaf parod i fynd i'r ysgol a threulio hanner awr, awr, yno yn egluro'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut mae'n gweithio.

- 5.92 Mae'r adran nesaf yn cyfuno canfyddiadau'r arolwg a'r grwpiau ffocws ag ymchwil flaenorol i weld pa gynnydd a wnaed i wella'r sylfaen dystiolaeth a pha ymchwil arall y gall fod angen ei gwneud i wella'r data mewn meysydd penodol.

6. Trafodaeth

- 6.1 Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd ganfyddiadau perthnasol gwaith ymchwil blaenorol ac yn cyfuno'r rheini â chanfyddiadau'r astudiaeth hon. Bydd yn dadansoddi unrhyw ganfyddiadau newydd yn y prif feysydd a drafodwyd yn nwy brif elfen yr ymchwil hon, sef yr arolwg a'r grwpiau ffocws. O ran yr arolwg, casglwyd data ynghylch ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau a'u rheoli. Bydd canfyddiadau'r grŵp ffocws yn cael eu hintegreiddio i'r trafodaethau hyn a byddwn yn tynnu sylw at fylchau mewn gwybodaeth sy'n cael sylw neu ddata sy'n cael eu diweddaru.
- 6.2 Yn yr adran hon, ni fyddwn yn ailadrodd data cyfredol mewn meysydd na chawsant eu trafod yn yr astudiaeth hon. Caiff data am broffil demograffig cynghorwyr eu casglu'n rheolaidd drwy'r Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol a gynhaliwyd eto yn 2017. O ran proffil cynghorau, gan gynnwys gwybodaeth am etholiadau a rheolaeth ariannol, mae'r data hyn yn cael eu casglu mewn sawl ffordd gan Lywodraeth Cymru, y prif awdurdodau, Swyddfa Archwilio Cymru, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac eraill, felly nid oeddem yn tybio bod angen casglu'r data hyn eto ar gyfer yr ymchwil hon. I gael mwy o fanylion am yr agweddau eraill hyn, a lle i gael hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i atodiad C.
- 6.3 Lle bo'n briodol, bydd yr adran hon yn cyfuno canfyddiadau'r astudiaeth hon ag astudiaethau blaenorol, yn enwedig Adroddiad Aberystwyth (2003), yr Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref (2010), yr Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol (2012) a'r Adolygiad o Dystiolaeth (2014). Fodd bynnag, gofynnir i'r darlennydd nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfradd ymateb arolwg 2010 (56 y cant) a'r arolwg cyfredol (35 y cant) a nodi bod yr Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol (2012) wedi gofyn am ymatebion gan gynghorwyr cymuned a chynghorwyr sir etholedig, yn ogystal â'r rheini a safodd yn yr etholiad ond na chawsant eu hethol. Mae'r cyfraddau ymateb gwahanol yn golygu y dylid bod yn ofalus pan yn gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng astudiaethau. Nodir i ba raddau y gellir cymharu'r data drwy gydol y drafodaeth.

Darparu gwasanaethau ac amwynderau

6.4 Fel y mae'r Adolygiad o Dystiolaeth yn ei nodi, mae natur, ystod a maint y gwasanaethau a'r amwynderau a ddarperir gan gynghorau'n amrywio'n eang yn ôl maint y boblogaeth a wasanaethir, maint y praesept, a maint unrhyw incwm ychwanegol y maent yn ei gynhyrchu. Yn arolwg 2017, dywedodd 81 y cant o'r cynghorau eu bod yn darparu gwasanaethau ac amwynderau i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Hwn oedd y tro cyntaf i'r cwestiwn hwn gael ei ofyn yn y ffordd hon, gan fod arolygon blaenorol wedi gofyn cwestiwn uniongyrchol ynghylch y mathau o wasanaethau/amwynderau a ddarperir. Isod, dangosir y gwasanaethau mwyaf cyffredin a ddarperir, gan gymharu'r canlyniadau ag arolygon 2002 a 2010.

Tabl 6.1: Pa wasanaethau / amwynderau a ddarperir gan eich cyngor? Cymharu'r ymatebion dros gyfnod.

Gwasanaeth / Amwynder	2002 (Adroddiad Aberystwyth)	Arolwg 2010	Arolwg 2017
Gwasanaethau cyngor a gwybodaeth	12% ²⁷	Amherthnasol	Amherthnasol
Rhandiroedd	10%	13%	14%
Llochesau bws	Amherthnasol	Amherthnasol	36%
Meysydd parcio ceir a beiciau	10%	Amherthnasol	Amherthnasol
Camerâu teledu cylch cyfyng	11%	Amherthnasol	11%
Mynwentydd	25%	31%	24%
Goleuadau Nadolig	Amherthnasol	Amherthnasol	44%
Digwyddiadau cymunedol	Amherthnasol	50%	41%
Grantiau	Amherthnasol	63%	48%

²⁷ Mae'r ffigurau'n cyfeirio at ganran y cynghorau a ddywedodd eu bod yn darparu'r gwasanaeth / amwynder hwn.

Biniau sbwriel/gwastraff ^o	13%	Amherthnasol	25%
Hysbysfyrddau	75%	Amherthnasol	65%
Caeau chwarae, meysydd pentref neu unrhyw fan gwyrdd arall	PF/PG* 38% OS/VG** 31%	PF, P & OS*** 59%	53%
Cyfleusterau cyhoeddus	Amherthnasol	Amherthnasol	17%
Llwybrau cyhoeddus	32%	Amherthnasol	27%
Cyfleusterau / sgipiau ailgylchu	24%	24%	5%
Seddi	69%	Amherthnasol	58%
Goleuadau stryd	27%	30%	20%
Neuadd bentref neu ganolfan gymunedol	24%	44%	31%
Cofebion rhyfel [∞]	40%	39%	35%

Cyfraddau ymateb: 2002: 65%; 2010: 56%; 2017: 35%

∞ Yn astudiaethau 2002 a 2010, defnyddiwyd y term 'Cofebion rhyfel, clociau cyhoeddus ac ati'. Yn arolwg 2017, fe wnaeth y cynghorau nodi clociau o dan y gwasanaethau 'eraill' a ddarperir.

o Yn ymchwili 2002 a 2010, rhestrwyd biniau sbwriel o dan cyfleusterau ailgylchu. Yn 2017, fe'u rhestrwyd fel gwasanaeth ar wahân.

** Termau a ddefnyddiwyd: Caeau chwarae neu feysydd chwarae*

*** Termau a ddefnyddiwyd: Mannau agored, meysydd pentref neu dir comin*

**** Termau a ddefnyddiwyd: Caeau chwarae, meysydd chwarae a manau agored*

6.5 Yn 2017, y gwasanaethau mwyaf cyffredin yr oedd y cynghorau yn eu darparu oedd hysbysfyrddau, seddi, a chaeau chwarae, meysydd pentref a manau agored, a hynny o'i gymharu â darparu grantiau, caeau chwarae, meysydd pentref a manau agored, a digwyddiadau cymunedol yn 2010 (2010:18) a hysbysfyrddau, seddi a chofebion rhyfel yn 2003 (2003:29). Er bod cyfraddau ymateb y tair astudiaeth yn amrywio a bod dosbarthiad y gwasanaethau ychydig yn wahanol, gellir dweud bod gwasanaethau llai, fel seddi a hysbysfyrddau, yn dal i fod yn wasanaethau pwysig a

ddarperir gan y cyngorau, a cheir awgrym bod yr arfer o reoli mannau gwyrdd yn ardal y cyngor wedi dod yn fwy a mwy cyffredin dros gyfnod. Cafwyd gostyngiad sydyn yn 2017 (5 y cant) o ran y ddarpariaeth ailgylchu, ond mae'n bosibl y gellir priodoli hyn i'r ffaith bod yr astudiaeth gyfredol wedi dewis gwahaniaethu rhwng cyfleusterau / sgipiau ailgylchu a biniau sbwriel / gwastraff. Mae 25 y cant o'r cyngorau'n darparu'r rhain ac mae'r ffigur hwn yn llawer nes at y ffigur a gafwyd ar gyfer y categori cyfun o finiau ailgylchu a sbwriel mewn astudiaethau blaenorol.

- 6.6 Yn gyffredinol, mae'r cyngorau'n dal i fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau llai, fel hysbysfyrddau a seddi. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n ymddangos bod cyfrifoldeb dros wasanaethau mwy a mwy arbenigol wedi trosglwyddo o'r prif awdurdod i'r cyngorau cymuned a thref. Mae'r cwestiynau ynghylch yr hyn y mae'r cyngorau wedi ysgwyddo cyfrifoldeb drosto'n ddiweddar, a'r hyn y maent yn bwriadu ysgwyddo cyfrifoldeb drosto, hefyd yn adlewyrchu hyn.

Asedau

- 6.7 Mae'r astudiaeth gyfredol yn unigryw oherwydd mai hon yw'r gyntaf i wahaniaethu rhwng gwasanaethau ac asedau ac i holi amdanynt ar wahân. Nid oedd Adroddiad Aberystwyth ac arolwg 2010 ond yn trafod trosglwyddo a/neu ddirprwyo²⁸ gwasanaethau / amwynderau. Oherwydd y penderfyniad i wahaniaethu rhyngddynt, mae'n bosibl bod yr ymatebwyr wedi dosbarthu eu cyfrifoldebau mewn ffordd wahanol o ganlyniad i gynllun yr arolwg, ac felly mae'n anoddach cymharu'r data. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli'r canlyniadau o ran darparu gwasanaethau a darparu asedau. Drwy wahanu gwasanaethau ac asedau fel hyn, mae'n gyfle i ni ddeall sut y mae cyngorau'n diffinio eu cyfrifoldebau a pha gyfrifoldebau sy'n cael eu hystyried yn wasanaethau ac yn asedau.
- 6.8 Yn ogystal, drwy ofyn i'r cyngorau am ba mor ddiweddar y maent wedi ysgwyddo cyfrifoldeb, a'u huchelgais i ysgwyddo gwasanaethau ac asedau yn y tymor byr, mae'n caniatáu i ni ddod i ddeall yn well (i) a yw cyngorau'n ceisio ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau a (ii) pa fathau o gymorth a hyfforddiant y gallai fod yn ddefnyddiol eu datblygu er mwyn i'r broses o'u trosglwyddo fod yn llwyddiant. Cynigir y dylid

²⁸ Diffinnir dirprwyo fel cyfrifoldeb cydredol y prif awdurdodau a'r cyngorau cymuned a thref dros ariannu a darparu gwasanaethau. Er enghraifft, gallai'r prif awdurdod ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros wasanaeth, ond gallai'r cyngor cymuned roi'r gwasanaeth ar waith.

mesur hyn eto fel rhan o ymchwil pellach i weld a yw cynghorau'n mynd ati'n strategol i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau newydd, pa gyfrifoldebau sy'n ddeniadol i'r cynghorau, a'r ffordd orau o gynorthwyo cynghorau i gyflawni eu strategaeth.

Ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau

- 6.9 O ran y data ansoddol ynghylch trosglwyddo gwasanaethau ac asedau, cyfeiriodd y cynghorwyr a'r clerod at lawer o'r materion a nodwyd yn Adroddiad Aberystwyth yn ystod sesiynau'r grwpiau ffocws. Yn benodol, roedd dirprwyo gwasanaethau ac asedau o'r prif awdurdod, ynghyd â'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r canfyddiad o drethiant dwbl, yn peri'r un pryder yn 2017 ag yr oeddent yn 2003. Tynnodd y rheini a gymerodd ran yng ngrwpiau ffocws yr astudiaeth gyfredol sylw at y straen ar gynghorau o ran y disgwyliad y dylent ysgwyddo cyfrifoldeb dros asedau heb adnoddau ychwanegol a'r diffyg aliniad rhwng cylchoedd cynllunio ariannol y cynghorau a'r prif awdurdod. Cyfeiriwyd at y broblem o ran cyllid digonol yn Adroddiad Aberystwyth hefyd, a dywedwyd y byddai angen darparu adnoddau digonol wrth ddirprwyo unrhyw swyddogaeth, boed yn rhannol neu'n llwyr. Roedd sicrhau bod gan y cynghorau adnoddau digonol cyn iddynt ymrwymo i ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gan y prif awdurdod yn dal i fod yn destun pryder, ac mae wedi dod yn amlycach ers dirwasgiad 2008 ac yn sgil y pwysau ar adnoddau oherwydd y toriadau i gyllid gwasanaethau cyhoeddus.

Trefniadau ariannol y cynghorau

- 6.10 Mae cynghorau cymuned yn gyfrifol am symiau sylweddol o arian. Yn 2015-16, fe gododd y cynghorau dros £31 miliwn gan drethdalwyr drwy'r praesept, gwario dros £40 miliwn, a rheoli cronfeydd a balansau wrth gefn gwerth £32 miliwn (Swyddfa Archwilio Cymru, 2017). Roedd yr Adolygiad o Dystiolaeth (2014: 53) yn darparu data am faint praeseptau'r cynghorau ym mlwyddyn ariannol 2013-14, ac mae data mwy diweddar o 2016-17 i'w cael yma.

Tabl 6.2: Y praeseptau a bennwyd gan gynghorau cymuned a thref, 2013-14 a 2016-17, fesul band

	2013 – 14 Canran y cynghorau	2016 – 17 Canran y cynghorau
Mwy na £500,000	1%	1%
£250,000 - £499,999	1%	3%
£100,000 - £249,999	7%	7%
£50,000 - £99,999	9%	9%
£25,000 - £49,999	13%	13%
£10,000 - £24,999	21%	21%
£5,000 - £9,999	24%	25%
£2,500 - £4,999	16%	15%
£1,000 - £2,499	7%	6%
£0 - £999	1%	0.4%

Cyfraddau ymateb: 2013-14: n=711, ffynhonnell: Adolygiad o Dystiolaeth 2014; 2016-17: n=652, ffynhonnell: StatsCymru

- 6.11 Mae natur sefydlog y dosbarthiad dros gyfnod yn awgrymu nad yw llawer o'r cynghorau wedi newid swm y praesept y maent yn ei gasglu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn cydweddu â'r anfodlonrwydd cyffredinol a fynegwyd gan gynghorau yn y grwpiau ffocws i gynyddu'r praesept oherwydd y baich y byddai'n ei roi ar y cyhoedd a'r hyn y byddent yn ei ystyried fel trethiant dwbl, ac mae'n awgrymu bod yr arfer o gadw'r praesept ar yr un lefel yn gyffredin.
- 6.12 Roedd Adroddiad Aberystwyth yn amcangyfrif bod £5-6 miliwn o incwm y cynghorau'n cael ei godi drwy ffynonellau ac eithrio'r praesept (2003:69). Gofynnodd yr astudiaeth hon i'r cynghorau nodi maint eu hincwm ychwanegol. Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod 56 y cant o'r cynghorau'n cael incwm o ffynonellau ac eithrio'r praesept, a bod nifer sylweddol ohonynt yn cael incwm grant neu'n cynhyrchu eu hincwm eu hunain. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r symiau a restrwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf yn fwy na £10,000, mae'n dangos bod y cynghorau'n gallu codi arian o ffynonellau ac eithrio'r praesept. Oherwydd eu bod

yn gyndyn o gynyddu'r praesept, cynhyrchu incwm yw'r dull a ffefrir gan y cynghorau i gynyddu eu cyllidebau. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ba mor hyfyw yw grantiau a gwasanaethau ac asedau sy'n cynhyrchu incwm i gynghorau unigol.

Capasiti'r gweithlu

- 6.13 Yr arolwg hwn oedd y cyntaf i ofyn i'r cynghorau ddarparu manylion am nifer y bobl sy'n gweithio i'r cynghorau, fel cyflogeion neu wirfoddolwyr, a'u horiau gwaith. Mae'r canlyniadau'n datgelu bod gan 75 y cant o'r cynghorau bump neu ragor o gynghorwyr sy'n gweithio'n wirfoddol. Mae mwyafrif y cynghorau'n cyflogi un clercc. Dim ond 12 y cant o'r cynghorau a ddywedodd eu bod yn defnyddio gwirfoddolwyr i'w helpu â'u dyletswyddau. Dywedodd 20 y cant o'r cynghorau eu bod yn cyflogi un neu ragor o weithwyr amser llawn, a dywedodd 84 y cant o'r cynghorau eu bod yn cyflogi un neu ragor o weithwyr rhan-amser.
- 6.14 O ran patrymau gweithio, mae 57 y cant o'r clerccod yn gweithio 10 awr neu lai. Mae hyn yn gyson ag arolwg 2010 a oedd yn dangos bod 56 y cant o'r clerccod yn gweithio 10 awr yr wythnos neu lai. Dywedodd 10 y cant o'r clerccod eu bod yn gweithio 35 awr yr wythnos neu ragor. Mae hyn yn dangos cynnydd o'i gymharu ag Adroddiad Aberystwyth a ganfu bod 5 y cant o'r cynghorau'n cyflogi clercc amser llawn ac arolwg 2010 a ganfu bod 6 y cant o'r cynghorau'n gwneud hynny. Yn 2017, roedd 26 y cant o'r clerccod hefyd yn gweithio fel clercc i fwy nag un cyngor. Hwn yw'r tro cyntaf i ddata gael eu casglu am glerccod sy'n gweithio i fwy nag un cyngor.
- 6.15 Y tair swyddogaeth fwyaf cyffredin ar gyfer clerccod yn 2017 oedd rheoli arian, cofnodi cyfarfodydd a chadw cofnodion. Mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o dasgau y mae'n ofynnol i glerccod ymgymryd â nhw, o rai sy'n galw am sgiliau cymharol isel i'r rheini y mae angen cryn arbenigedd ar eu cyfer. Gan adleisio'r canfyddiadau hyn yn y grwpiau ffocws, fe ddisgrifodd llawer o'r clerccod eu hunain fel 'Siôn pob swydd' – sy'n golygu bod angen iddynt feddu ar sgiliau mewn ystod eang o feysydd arbenigol er mwyn cyflawni eu swyddi'n effeithiol. Fel y canfu Adroddiad Aberystwyth (2003: 88), mae clerccod yn parhau i ymgyfarwyddo â gwahanol feysydd arbenigol, fel rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, caffael ac yswiriant. Yn y grwpiau ffocws, roedd y cyfranogwyr hefyd yn teimlo nad yw clercc yn cael ei gyflogi am ddigon o oriau i ymgymryd â'r holl ddyletswyddau y disgwylir iddo eu cyflawni. Mae'r teimlad hwn wedi para ers Adroddiad Aberystwyth sy'n nodi bod llwyth gwaith clerccod yn cynyddu oherwydd gofynion rheoleiddiol tynnach (2003:

88). Mae prinder amser ac adnoddau'n cyfrannu at ymdeimlad eu bod o hyd o dan bwysau a bod hyn yn effeithio ar eu gallu i dderbyn asedau ac i fod yn hyderus bod modd iddynt reoli asedau a darparu gwasanaethau ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo.

Hyfforddiant

- 6.16 Gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran yr hyfforddiant a ddarperir i gynghorau ers Adroddiad Aberystwyth. Canfu'r adroddiad hwnnw mai dim ond chwarter y clerod a 36 y cant o'r cynghorwyr a oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant neu gymorth ar gyfer eu swydd (2003: 88). Yn ôl arolwg 2010, roedd 60 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cyngor yn annog y clerc i gael hyfforddiant, ychydig dros draean o'r cynghorwyr yn mynd ar gyrsiau hyfforddi a bron i draean (29 y cant) yn cefnogi'r syniad o gael cynllun achredu (2010: 20). Fe wnaeth yr Adolygiad o Dystiolaeth olrhain y cynnydd a wnaed ers hynny, yn sgil sefydlu'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant sy'n cynrychioli'r sector, a mabwysiadu Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol yn 2008 (2014: 66). Mae cyfran y cynghorau sy'n manteisio ar hyfforddiant wedi cynyddu dros gyfnod. Yn ôl Arolwg Anghenion Hyfforddiant Un Llais Cymru (2012) a oedd yn holi'r cynghorau ynghylch rhaglen hyfforddi'r sefydliad hwnnw, dywedodd 71 y cant o'r cynghorau fod un neu ragor o'u haelodau wedi cymryd rhan mewn digwyddiad yn Rhaglen Hyfforddi Un Llais Cymru. Mae Un Llais Cymru'n ailgynnal ei Arolwg Anghenion Hyfforddiant a bydd yn ddefnyddiol pwysu a mesur y canlyniadau ochr yn ochr â'r data a gasglwyd fel rhan o'r astudiaeth hon i gael darlun mwy cyflawn o'r hyfforddiant a gafwyd ac unrhyw fylchau a bennwyd.
- 6.17 Nod yr astudiaeth hon oedd creu darlun ehangach o'r hyfforddiant sydd ar gael, yn ychwanegol at hyfforddiant Un Llais Cymru, gan gyfeirio'n benodol at reoli asedau a darparu gwasanaethau, er mwyn dod i ddeall yn well sut i fodloni anghenion hyfforddi. Felly, yn yr arolwg, penderfynwyd holi ynghylch y cyrsiau hynny a ddarperir gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, nad oeddem yn gwybod faint oedd yn manteisio arnynt, a gofyn i'r cynghorau ddatgan testun a chyflenwyr unrhyw hyfforddiant arall yr oeddent wedi'i gwblhau. O blith y cynghorau a atebodd, dywedodd 39 y cant eu bod wedi cyflawni hyfforddiant o ran darparu gwasanaethau neu reoli asedau, sef cynnydd bach o'i gymharu â'r rheini a ddywedodd eu bod wedi cael hyfforddiant yn 2010 (er bod geiriad y cwestiwn ychydig yn wahanol yn yr astudiaeth hon). O ran natur yr hyfforddiant, cyrsiau mwyaf poblogaidd y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol oedd *Cyllid*, *CiLCA* ac *Iechyd*, *Diogelwch* a *Llesiant*. Cyfeiriwyd at ystod eang o ddarparwyr eraill a phrofiad blaenorol, yn

ychwanegol at y cyrsiau hyn, gan gynnwys hyfforddiant a chymwysterau a gafwyd gan sefydliadau addysg uwch, prif awdurdodau, Un Llais Cymru, cynghorau gwirfoddol lleol, canolfannau hyfforddi a hyfforddiant a ariannwyd gan y loteri. Roedd mwyafrif y rheini a atebodd y cwestiwn yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi hwyluso gwelliannau 'sylweddol' neu 'rai' gwelliannau. Fodd bynnag, dylid ymdrin â'r ffigurau hyn yn ofalus gan mai nifer fach o gynghorau a atebodd y cwestiwn hwn.

- 6.18 Yn ôl yr adborth i'r arolwg, roedd rhai'n teimlo bod yr hyfforddiant yr oedd cynghorau wedi'i gael ym maes asedau a gwasanaethau gan Un Llais Cymru, y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac eraill yn rhy sylfaenol, yn anodd ei roi ar waith oherwydd nad oes gan gynghorau llai lawer o gyfrifoldebau, neu'n ddiwerth oherwydd na chafodd asedau eu trosglwyddo yn y pen draw. Cyfeiriwyd at natur sylfaenol rhywfaint o'r hyfforddiant yn sesiynau'r grwpiau ffocws hefyd, ac roedd rhai'n teimlo y dylid sicrhau bod hyfforddiant arbenigol ar gael pan fydd yn berthnasol i'w gwaith. Nid oedd llawer yn teimlo bod CiLCA, y cymhwyster proffesiynol cyffredinol, bob amser yn angenrheidiol. Roedd yn well ganddynt gael hyfforddiant arbenigol. Ymhlith y rhesymau a roddwyd gan y rheini a ddywedodd bod yr hyfforddiant wedi arwain at welliannau 'sylweddol' neu 'rai' gwelliannau roedd y fantais o gaffael sgiliau a gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'w cyngor, diweddarau eu gwybodaeth, a theimlo bod ganddynt fwy o rym i gynghori ac i wneud penderfyniadau. Yn y grwpiau ffocws, roedd y cyfranogwyr hefyd yn canmol yr ymatebion cyflym a gafwyd i geisiadau *ad hoc* am gymorth, a'r canllawiau ynghylch deddfwriaeth, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 6.19 Yr arolwg hwn oedd y cyntaf i gasglu data am gyfleoedd hyfforddi eraill o ran gwasanaethau ac asedau, a dywedodd 37 y cant o'r cynghorau eu bod wedi cael hyfforddiant o'r fath. Roeddent wedi meithrin y sgiliau a'r hyfforddiant a oedd fwyaf defnyddiol iddynt drwy eu cyflogaeth flaenorol (amhenodol), drwy gyflogaeth flaenorol mewn awdurdod lleol, neu o'u profiad blaenorol yn y sector cyllid / cyfrifyddu. Roedd hyn yn cydweddu â'r cyfeiriadau cyson yn y grwpiau ffocws at swyddi blaenorol, yn enwedig yn eu prif awdurdod, a oedd yn golygu bod ganddynt gysylltiadau y gallent eu defnyddio i feithrin perthynas waith dda, yn ogystal â phrofiad a gwybodaeth.
- 6.20 Dywedodd 44 y cant o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi cael mwy o hyfforddiant i'w cynorthwyo yn y meysydd a ganlyn: trosglwyddo, hyrwyddo a rheoli asedau, cyllid, materion cyfreithiol (cyffredinol ac o ran y prif awdurdodau), a chaffael / rheoli

contractau. Fe beintiodd y grwpiau ffocws ddarlun mwy cyfoethog o'r math o becyn hyfforddiant a fyddai o fudd i gynghorwyr a chlercod, gan gynnwys rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol gorfodol i gynghorwyr, cyfres fwy cynhwysfawr o gysiau hyfforddi arbenigol untro, a chynllun mentora posibl ar gyfer clercod newydd.

Gwaith partneriaeth

- 6.21 Bu'r cynghorau'n trafod eu perthynas â'u prif awdurdod yn helaeth yn y grwpiau ffocws. Hon oedd eu prif bartneriaeth bron bob amser. Roedd Adroddiad Aberystwyth yn nodi bod cynghorau'n gallu chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ac amwynderau drwy waith partneriaeth (2003: 38). Er ei fod yn cydnabod bod y term 'partneriaeth' yn gallu bod yn annelwig ac yn anodd ei fesur, roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod o leiaf un o bob pum cyngor yn gweithio mewn rhyw fath o bartneriaeth (2003: 39) o'i gymharu â 2017 lle dywedodd 44 y cant o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn rhan o bartneriaeth i ddarparu gwasanaethau ac asedau. Dywedodd 98 o'r cynghorau mai eu prif awdurdod oedd un o'u partneriaid. Mae hyn yn dangos bod gwaith partneriaeth wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod hwn, a hynny gyda'r prif awdurdod, cynghorau eraill, grwpiau lleol a lluoedd o bartneriaid eraill. Pan ofynnwyd iddynt werthuso eu perthynas â'u prif awdurdod, roedd nifer gymharol uchel o'r cynghorau'n cytuno bod ganddynt berthynas dda o ran darparu gwasanaethau a rheoli asedau. Fodd bynnag, roedd eu barn yn llawer mwy niwtral pan ofynnwyd iddynt a oedd y prif awdurdod yn ystyried eu barn ar wasanaethau ac asedau, a phan ofynnwyd iddynt asesu ansawdd y cyfathrebu rhwng y cynghorau a'r cynghorau sir. Roedd dros 10 y cant yn anghytuno bod y prif awdurdod yn eu helpu i gyflawni eu hamcanion o ran darparu gwasanaethau a rheoli asedau, bod sylwadau'r cynghorau ynghylch gwasanaethau ac asedau'n cael eu hystyried, a bod y cyfathrebu rhwng y cyngor a'r prif awdurdod yn dda.
- 6.22 Datgelodd y grwpiau ffocws fod cynghorau am gael mwy o annibyniaeth yn y broses o benderfynu pa wasanaethau ac asedau y dylent ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt, a'u gallu i lunio dull strategol o drosglwyddo gwasanaethau ac asedau yn y tymor hir. Yn ogystal â'r dyhead i fod yn bartner cyfartal, roedd y cynghorau hefyd yn credu bod gan Un Llais Cymru neu'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant rôl i'w chwarae i ffurfioli'r broses o drosglwyddo asedau drwy ddarparu canllawiau a chynghor arbenigol, gan ddibynnu ar natur y trosglwyddiad. Fodd bynnag, o ran partneriaethau ehangach, er bod Adroddiad Aberystwyth wedi canfod bod

cynghorwyr yn bwylllog o ran gwaith partneriaeth (2003: 39), canfu'r astudiaeth hon fod cynghorwyr a chlercod, fel ei gilydd, yn croesawu gwaith partneriaeth a'u bod wedi meithrin llawer o bartneriaethau buddiol â'u prif awdurdod, busnesau, elusennau ac eraill.

- 6.23 Canfu Adroddiad Aberystwyth fod ychydig dros ddau o bob pum cyngor yn ymgymryd â swyddogaethau a ddirprwywyd iddynt gan yr awdurdod lleol (2003: 32). Roedd yn argymhell y dylai'r cynghorau a'r prif awdurdodau fynd ati i lunio cytundebau siarter i ategu'r bartneriaeth ac i sefydlu ffyrdd effeithiol o gydweithio. Yn arolwg 2010, dywedodd dau draean o'r ymatebwyr eu bod yn mynd ati i lunio cytundeb siarter a dywedodd 16 y cant fod ganddynt gytundeb lefel gwasanaeth â'u prif awdurdod (2010: 32). Yn 2017, dywedodd 25 y cant o'r ymatebwyr fod cytundeb siarter ar waith rhyngddynt â'u prif awdurdod, dywedodd 25 y cant fod ganddynt gytundebau lefel gwasanaeth, a dywedodd 47 y cant nad oedd ganddynt unrhyw gytundebau, gyda mathau eraill o gytundebau ar waith o ran prydlesu adeiladau. Mae hyn yn dangos cynnydd bach o'i gymharu â chanfyddiadau 2010. Roedd yr arolwg a'r grwpiau ffocws yn awgrymu bod cytundebau siarter yn dal i gael eu llunio, ond nad yw telerau'r siarteri'n cael eu harddel i'r un graddau dros gyfnod, ac felly nad yw holl fanteision y cytundebau wedi'u gwireddu. Yn ogystal, fel y trafodwyd yn Adroddiad Aberystwyth ac arolwg 2010, roedd y cynghorau'n dal i sôn am yr angen i gael un pwynt cyswllt i'w gwneud yn haws iddynt gysylltu â'u prif awdurdod.
- 6.24 O ran gwella llesiant yn benodol, roedd llawer o'r cynghorau'n teimlo eu bod eisoes yn gwneud llawer o waith a allai gyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond ei bod yn bwysig bod y prif awdurdodau'n cynnwys cynghorau a rhanddeiliaid eraill mewn trafodaethau ynghylch rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith mewn perthynas â gwasanaethau ac asedau. O wneud hyn, byddai'n sicrhau bod cynghorau'n deall yr holl oblygiadau a sut y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei hymgorffori ym mhob un o weithgareddau'r cyrff cyhoeddus.
- 6.25 O ran eu partneriaethau â chynghorau cymuned a thref eraill, cyfeiriwyd yn y grwpiau ffocws at esiamplau niferus o rwydweithiau anffurfiol adeiladol â chynghorwyr a chlercod eraill a oedd yn eu cynorthwyo drwy rannu gwybodaeth. Yn yr arolwg, dywedodd 26 o'r clercod eu bod yn glerc i fwy nag un cyngor cymuned. Mae hyn yn awgrymu bod rhywfaint o gysylltiad rhwng cynghorau lleol o ran arbenigedd a gweithgarwch. Roedd llawer yn croesawu'r cysylltiadau hyn fel rhai

buddiol ac roedd eu hagwedd hefyd yn gadarnhaol o ran y posibilrwydd o roi trefniadau clystyru ar waith i greu cytundebau lefel gwasanaeth rhwng cynghorau i gyflawni arbedion maint wrth ddarparu gwasanaethau. Roedd hyn eisoes yn digwydd mewn rhai ardaloedd, lle'r oedd yn briodol. Trafodwyd hyn hefyd yn Adroddiad Aberystwyth lle rhoddir esiamplau o glystyru neu 'drefniadau cyfuno' fel ffordd dda o ddarparu gwasanaethau a chyflawni busnes mewn ffordd fwy effeithlon mewn cynghorau llai (2003: 27). Yn y grwpiau ffocws, gwnaed rhai sylwadau negyddol ynghylch clystyru, a hynny oherwydd yr anawsterau a gafwyd o ran cytuno ar gytundebau siarter, fel y soniwyd eisoes. Serch hynny, ar y cyfan, mae'n ymddangos bod cynghorau'n barod i ystyried trefniadau clystyru os ydynt yn teimlo bod ganddynt annibyniaeth i wneud penderfyniadau pwysig ynghylch sut y mae'r bartneriaeth yn cael ei llunio, a'i bod o fudd i bob parti. Fel y canfu Adroddiad Aberystwyth hefyd, mae'r cynghorau'n dal i fod yn gyndyn o wanhau'r ymdeimlad o gymuned drwy uno cynghorau'n llwyr (2003: 2).

Pwerau

- 6.26 Mae'r astudiaeth hon wedi darparu mwy o fanylion na'r gwaith ymchwil blaenorol ynghylch y modd y mae cynghorau'n defnyddio pwerau. O ran ymwybyddiaeth y cynghorau o'r pwerau a ddefnyddir ganddynt, roedd y darlun yn gymysg. Roedd 30 y cant o'r cynghorau a ymatebodd yn gallu enwi'r pwerau penodol yr oeddent yn eu defnyddio. Y pŵer a enwyd amlaf oedd adran 137 (pŵer i wario at ddibenion penodol nad ydynt wedi'u hawdurdodi fel arall). Er eu bod yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt, mae canfyddiadau'r grwpiau ffocws yn tanlinellu'r teimlad ymhlith cynghorau nad yw eu gweithgareddau'n cydweddu â'i gilydd, a bod angen iddynt gael strategaeth sy'n pennu pa weithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw o dan ba bwerau ac sy'n dod â'r gweithgareddau hyn ynghyd ar ffurf strategaeth gydlynus.
- 6.27 Mae adran olaf yr adroddiad hwn yn dod â phrif ganfyddiadau'r astudiaeth hon, a gwaith ymchwil blaenorol, ynghyd ac yn cynnig rhai o'r camau i'w cymryd nesaf.

7. Casgliadau ac Argymhellion

- 7.1 Mae'r astudiaeth ymchwil hon wedi darparu data diwygiedig ac ychwanegol ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan gynghorau cymuned a thref, a'r asedau a reolir ganddynt, i osod sylfaen ar gyfer yr adolygiad o'r sector sydd yn yr arfaeth. Rydym yn crynhoi'r prif ganfyddiadau cyn cynnig cyfres o argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddwn hefyd yn ystyried gwaith ymchwil pellach i fynd i'r afael â bylchau eraill yn y data.
- 7.2 **Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod nifer y gwasanaethau a ddarperir a'r asedau a reolir wedi cynyddu dros gyfnod.** Y canfyddiad mwyaf cyffredin oedd bod cynghorau'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros fwy o gaeau chwarae a mathau eraill o fannau gwyrdd, a'u bod yn tybio y bydd hyn hefyd yn bwysig yn ystod y 12 mis nesaf. Anawsterau o ran rhagweld pryd y bydd ased yn cael ei drosglwyddo a chael gafael ar adnoddau i ymdopi â'r cynnydd yn y llwyth gwaith ar adeg pan fo gwariant cyhoeddus yn lleihau oedd prif bryderon y cynghorau.
- 7.3 **Mae'r cynghorau'n dweud bod mwy a mwy o ddisgwyl iddynt ymgymryd â gwasanaethau sy'n galw am wybodaeth fwy arbenigol.** Yn ogystal ag ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau, mynegodd y cynghorau bryderon am fod cynigion i drosglwyddo gwasanaethau yn aml yn cynnwys gwasanaethau arbenigol, fel canolfannau hamdden neu hyd yn oed wasanaethau cymdeithasol sy'n galw am arbenigedd sylweddol. Roedd y clerod yn enwedig yn teimlo bod hyn yn aml tu hwnt i'w capasiti a'u gallu, a bod yn aml angen llunio strategaethau a chynlluniau busnes hirdymor ar gyfer trosglwyddiadau o'r fath gyda'r prif awdurdod cyn ymrwymo iddynt.
- 7.4 **Mae'r cynghorau am gael mwy o ddeialog dwy ffordd â'u prif awdurdod ynghylch trosglwyddiadau.** Yn aml, mae'r cynghorau'n teimlo nad oes ganddynt ddigon o annibyniaeth i benderfynu ar yr hyn y maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb drosto, ac mai blaenoriaethau'r prif awdurdodau sydd flaenaf. Mae'r broblem hon yn tyfu, er enghraifft, pan fydd cynghorau am ymgymryd â gwasanaethau ac asedau a allai gynhyrchu refeniw, oherwydd bod y prif awdurdodau'n aml yn gyndyn o'u trosglwyddo. O gael mwy o dryloywder o ran yr hyn a drosglwyddir, mae'r cynghorau'n teimlo y byddai'n eu helpu i ddeall blaenoriaethau'r prif awdurdodau ac yn arwain at broses benderfynu fwy adeiladol a allai sicrhau bod y cynghorau'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

- 7.5 **Mae dros hanner y clercod a holwyd yn gweithio 10 awr yr wythnos neu lai.** Tybir bod oriau gwaith cyfyngedig llawer o'r clercod yn cyfrannu at y problemau y mae llawer o'r cynghorau'n eu hwynebu o ran adnoddau. Roedd clercod am iddo gael ei gydnabod bod eu gallu i ymgymryd â chyfrifoldebau cynyddol dros wasanaethau ac asedau'n gyfyngedig oherwydd eu bod yn gweithio ar sail ran-amser, ac roeddent yn tybio y dylid ystyried hyn fel rhan o'r capasiti pan fydd gwasanaethau ac asedau newydd yn cael eu trosglwyddo.
- 7.6 **Mae nifer y clercod sy'n cael hyfforddiant wedi cynyddu ychydig, ond roedd rhai o'r farn bod ansawdd a gwerth yr hyfforddiant yn gyfyngedig.** Roedd rhai clercod yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarperir gan Un Llais Cymru'n rhy syml ar gyfer eu hanghenion nhw, neu nad yw ei lefel yn briodol er mwyn iddo fod yn ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith. Yn aml, nid ydynt yn cael cyfle i roi'r hyfforddiant ar waith oherwydd nad yw cynlluniau i drosglwyddo ased yn dwyn ffrwyth. Roedd rhai clercod yn teimlo nad oedd y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA), sef y cymhwyster proffesiynol, yn fuddiol iawn, a byddai'n well ganddynt astudio modiwlau arbenigol sy'n addas ar gyfer gofynion eu swydd. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai'n fuddiol cael cynllun mentora ar gyfer clercod newydd i feithrin eu gwybodaeth a'u rhwydweithiau yn y sector â chlercod cynghorau cyfagos.
- 7.7 **Mae'r data'n dangos cynnydd o ran gwaith partneriaeth.** Fodd bynnag, tybir y byddai modd i'r prif awdurdodau wella ansawdd y cyfathrebu a'r cydweithio, ac ystyried barn cynghorau cymuned a thref ynghylch trosglwyddo gwasanaethau ac asedau.
- 7.8 **Dywedwyd bod angen mwy o ganllawiau ar sut i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wasanaethau ac asedau.** Roedd y cynghorau'n galw am ganllawiau ar sut i gynnal proses drosglwyddo lwyddiannus, a chanllawiau hwylus ar wahân ar sut i drosglwyddo gwasanaethau ac asedau penodol, a hynny er mwyn pennu prosesau a chyfrifoldebau clir y gall pob parti eu dilyn. Roeddent hefyd yn tybio y byddai'n ddefnyddiol cael esiamplau o achosion lle cafodd gwasanaethau neu asedau cymhleth eu trosglwyddo'n llwyddiannus. Roedd clercod hefyd yn credu bod angen pennu swyddog cyswllt penodedig yn y prif awdurdod i sicrhau bod modd cyfathrebu'n well.
- 7.9 **Mae nifer y siarteri a'r cytundebau lefel gwasanaeth wedi cynyddu ychydig.** Mae'r arfer o hybu siarteri wedi bod yn amlwg yn y sector ers Adroddiad

Aberystwyth, a cheir tystiolaeth bod llawer o'r cyngorau wedi llunio cytundebau siarter â'u prif awdurdodau. Fodd bynnag, dywedwyd iddi gymryd peth amser i gytuno ar rai siarteri ac nad yw'r ymlyniad at gytundebau siarter wedi para dros gyfnod.

- 7.10 **Dangosodd y cyngorau rywfaint o ymwybyddiaeth o'u defnydd o bwerau statudol.** Roedd traean o'r cyngorau'n gallu enwi'r pwerau penodol y maent yn eu defnyddio, ac roedd bron i un o bob pump yn gallu datgan eu bod wedi defnyddio pwerau, ond nid pa rai. Roedd hyn o fudd i'r cyngorau sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau mwy, ond roedd rhai'n teimlo bod eu defnydd o bwerau statudol yn dameidiog ac nad oedd yn dod at ei gilydd ar ffurf strategaeth gydlynus ar gyfer darparu gwasanaethau a rheoli asedau.
- 7.11 **Dyweddodd cyngorwyr a chlercod eu bod am fod yn rhan o'r gwaith o wireddu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn eu cyngor.** Un ffordd bosibl o wneud hyn yw drwy gydweithio'n agosach â'r prif awdurdod ar y gwaith y mae'n ei wneud i gydymffurfio â'r Ddeddf. Gallai hyn weithredu fel fframwaith ar gyfer penderfyniadau trosglwyddo.
- 7.12 **Mae'n amlwg bod rhwydweithiau anffurfiol yn bodoli gyda chynghorau eraill a'u bod yn cael eu hystyried fel rhywbeth cadarnhaol.** Yn ôl y grwpiau ffocws, mae rhwydweithiau anffurfiol yn ffordd effeithiol o gael cymorth gan gynghorau cyfagos ac yn gyfle i ymgymryd â gwahanol fathau o waith partneriaeth. Tybir bod y trefniadau clystyru â chynghorau cyfagos yn fenter gadarnhaol o ran darparu gwasanaethau gan eu bod yn darparu arbedion maint da. Fodd bynnag, roedd gwrthwynebiad amlwg i'r posibilrwydd o uno cyngorau'n llwyr, gyda llawer yn teimlo y dylid cadw hunaniaeth cymunedau neilltuol.
- 7.13 **Mae'r cyngorau'n dal i bryderu ynghylch diffyg dealltwriaeth y cyhoedd o'r sector a'i rôl.** Tybir bod ymgysylltu mwy â'r gymuned yn flaenoriaeth bwysig i'r cyngorau i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith ac i ddenu amrywiaeth ehangach o bobl i sefyll mewn etholiadau lleol er mwyn i'r cyngor adlewyrchu'r gymuned yn well. O ddeall y prif faterion yn well, yn enwedig y modd y mae gwasanaethau'n cael eu datganoli a'r modd y mae trethi'n cael eu pennu, gallai gael effaith gadarnhaol ar farn y cyhoedd ynghylch cynghorau cymuned a thref.
- 7.14 **Mae barn y cyngorau wedi'i hollti o ran manteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hybu mwy o ymgysylltu â'r gymuned.** Roedd rhai'n teimlo'n

hyderus i ddefnyddio Facebook, Twitter a phlatformau eraill. Nid oedd eraill yn meddu ar y sgiliau gofynnol neu nid oeddent yn credu bod y cyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol i godi proffil y cyngor. Roedd rhai'n teimlo y byddai'n fuddiol cael hyfforddiant o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol at ddibenion hyrwyddo ac ymgysylltu helaethach i sicrhau bod modd defnyddio'r plattfformau mewn ffordd gadarnhaol i gael y budd y mwyaf ohonynt. Gallai hyn fod yn fuddiol o ran dyletswyddau'r cyngorau mewn perthynas â darparu gwasanaethau a rheoli asedau a'u dyletswyddau mwy cyffredinol.

Argymhellion

7.15 Ar sail y data a gasglwyd drwy'r arolwg a'r grwpiau ffocws, gwneir yr argymhellion a ganlyn.

